



Adran Gwaith
a Phensiynau

Llywio Cymorth y Dyfodol

Y Papur Gwyrdd Iechyd ac
Anabledd



Adran Gwaith
a Phensiynau



Adran Gwaith
a Phensiynau

Llywio Cymorth y Dyfodol

Y Papur Gwyrdd Iechyd ac
Anabledd

Cyflwynwyd gerbron y Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2021
CP 470



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint gan drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn

gov.uk/government/consultations/shaping-future-support-the-health-and-disability-green-paper

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn:

healthanddisability.consultation@dwp.gov.uk

Health and disability Green Paper
Caxton House
6-12 Tothill Street
London
SW1H 9NA

ISBN 978-1-5286-2755-9

ID CCS0221045942 07/21

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu
Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei
Mawrhydi.

Cynnwys

Rhagair	4
Crynodeb Gweithredol	6
Cyflwyniad	8
Cwmpas y Papur Gwyrdd hwn	9
Pam Mae Angen Newid	10
Gwrando ar Bobl Anabl a Phobl â Chyflyrau Iechyd	11
Blaenoriaethau ar gyfer Newid	11
Gwariant ar Fudd-daliadau Iechyd ac Anabledd	13
Ledled y Deyrnas Unedig	14
Crynodeb	15
Pennod 1: Rhoi'r Cymorth Cywir	16
Crynodeb o'r Bennod	16
Cyflwyniad	16
Yr Hyn Rydym Eisoed Wedi'i Wneud	16
Mynd Ymhellach	19
Crynodeb	21
Pennod 2: Gwella Cymorth Cyflogaeth	22
Crynodeb o'r Bennod	22
Cyflwyniad	22
Ymyrryd yn Gynnar	23
Sicrhau bod Canolfannau Gwaith yn Lleuedd Croesawgar, Atyniadol ac Arbenigol	26
Personoli Cymorth Cyflogaeth	29
Crynodeb	37
Pennod 3: Gwella ein Gwasanaethau Presennol	38
Crynodeb o'r Bennod	38
Cyflwyniad	38
Gwella Asesiadau	40
Gwella Prosesau Gwneud Penderfyniadau	43
Cefnogi Pobl sy'n Symud Rhwng Budd-daliadau i Blant a Budd-daliadau i Oedolion	46
Cymorth i Bobl â Chyflyrau Iechyd Difrifol	46
Crynodeb	48

Pennod 4: Ailystyried Asesiadau yn y Dyfodol er mwyn Helpu i Sicrhau Canlyniadau Gwell 49

Crynodeb o'r Bennod	49
Cyflwyniad	49
Adborth a Safbwyntiau ar Asesiadau	49
Tystiolaeth ar gyfer Gwneud Newidiadau i Asesiadau	50
Ffordd Newydd o Weithredu: Cynigion ar gyfer Asesiadau yn y Dyfodol	51
Crynodeb	57

Pennod 5: Ystyried Ffyrdd o Wella Dyluniad y system budd-daliadau 58

Crynodeb o'r Bennod	58
Cyflwyniad	58
Newidiadau Blaenorol i Fudd-daliadau	59
Pam Mae Angen Newid Pellach	61
Cymharu ein Budd-daliadau Iechyd ac Anabledd â'r Rhai a Geir Mewn Gwledydd Eraill	64
A Ddylem Symleiddio'r System Budd-daliadau?	64
Sut y Gallwn Helpu Pobl yn Well i Ddechrau Gweithio ac Addasu i Newidiadau?	66
Sut y Gallwn Helpu Pobl i Dalu eu Costau Ychwanegol yn Fwy Effeithiol?	67
Crynodeb	68

Casgliad 70

Crynodeb o'r Cwestiynau Ymgynghori 72

Pennod 1: Rhoi'r Cymorth Cywir	72
Pennod 2: Gwellu Cymorth Cyflogaeth	72
Pennod 3: Gwellu ein Gwasanaethau Presennol	72
Pennod 4: Ailystyried Asesiadau yn y Dyfodol er mwyn Helpu i Sicrhau Canlyniadau Gwell	73
Pennod 5: Ystyried Ffyrdd o Wella Dyluniad y system budd-daliadau	74

Atodiad A: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – Digwyddiadau Papur Gwyrdd 75

Atodiad B: Ein Rhaglenni Cymorth Cyflogaeth 78

Atodiad C: Astudiaethau Achos Rhyngwladol 80

Rhagair

Fy mlaenoriaeth fel y Gweinidog dros Bobl Anabl yw sicrhau y gall pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd fyw'r bywydau mwyaf annibynnol posibl a gwireddu eu potensial llawn. Fel y nododd maniffesto 2019 y Llywodraeth hon, rhaid i ni rymuso a chefnogi pobl anabl a bod yn gynghreiriad. Mae'r system fudd-daliadau yn un ysgogiad pwysig sy'n rhaid i ni gyflawni hyn.

Mae *Llywio Cymorth y Dyfodol Y Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd* yn gofyn am eich barn ar sut y gall y Llywodraeth helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol, gan gynnwys cymorth i ddechrau, aros a llwyddo mewn gwaith a ffyrdd y gallwn wella'r profiad sydd gan bobl o'r system fudd-daliadau.

Mae profiadau pobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd wedi llunio'r syniadau, y cynigion a'r cwestiynau yn y Papur Gwyrdd hwn, yn dilyn rhaglen sylweddol o fwy na 40 o ddigwyddiadau lle mae pobl wedi rhannu gyda ni eu barn ar y system fudd-daliadau a'u blaenoriaethau ar gyfer newid. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y trafodaethau hyn am rannu eich gwybodaeth, eich profiadau a'ch brwdfrydedd.

Rydym wedi clywed bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd rhyngweithio â'r system fudd-daliadau. Gallant deimlo ofn cael gafael ar fudd-daliadau a gallant gael asesiadau iechyd yn broses anodd, hir a heriol. Mae *Llywio Cymorth y Dyfodol Y Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd* yn nodi ffyrdd y gallem wneud ein gwasanaethau yn haws eu cyrchu, gwneud ein prosesau'n symlach a helpu i adeiladu ymddiriedaeth pobl.

Rydym eisoes wedi rhoi'r gorau i ailasesiadau i bobl sydd â'r cyflyrau mwyaf difrifol sy'n annhebygol o newid. Rydym yn cynnig ffyrdd o leihau nifer yr asesiadau diangen ymhellach, wrth barhau i sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei thargedu'n briodol. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cynnig ffyrdd o gynnig mwy o hyblygrwydd a symrlwydd yn y ffordd y mae asesiadau'n cael eu cyflwyno; gan gynnwys gwella'r dystiolaeth a ddefnyddiwn i wneud penderfyniadau o asesiadau iechyd, a dysgu gwersi coronafeirws lle gwnaethom gyflwyno asesiadau ffôn a fideo.

I bobl sydd angen cymorth ychwanegol i lywio'r system fudd-daliadau, rydym am gryfhau rôl eiriolaeth fel y gallant gael y lefel gywir o gefnogaeth a gwybodaeth y tro cyntaf. Lle mae cymorth eiriolaeth eisoes ar gael o ffynonellau eraill, rydym am edrych ar sut y gallwn sicrhau bod gan bawb sydd ei angen fynediad i'r un lefel o wasanaeth.

Mae mwyafrif y bobl yn fodlon â'r broses asesu, ond i'r rhai sydd am apelio yn erbyn penderfyniad, rhaid inni sicrhau bod y broses hon mor hawdd ac effeithlon â phosibl. Dyna pam fod *Llywio Cymorth y Dyfodol Y Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd* yn archwilio ffyrdd pellach o wella'r broses benderfynu ac apelio.

Ac rydym yn bwriadu ei gwneud yn gyflymach, yn symlach ac yn haws i bobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes wneud cais am fudd-daliadau trwy newid y Rheolau Arbennig arm Salwch Terfynol. Daw'r newid hwn yn dilyn gwerthusiad lle clywsom farn pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes, eu teuluoedd a'u ffrindiau, y sefydliadau sy'n eu cefnogi a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Bydd hyn yn adlewyrchu'r diffiniad cyfredol o ddiwedd oes a ddefnyddir ar draws y GIG a byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth hanfodol hon.

Rwyf yn falch ein bod wedi gweld y lefelau uchaf erioed o gyflogaeth anabledd ers 2013, a gwnaed cynnydd sylweddol ar ein hymrwymiad i filiwn yn ychwanegol o bobl anabl mewn gwaith erbyn 2027.

Mae pobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd yn elwa o gymorth cyflogaeth dwys trwy ein Cynllun ar gyfer Swyddi, sy'n adeiladu ar y gefnogaeth fwy gweithredol yr ydym wedi'i chyflwyno trwy Gredyd Cynhwysol a'n rhaglenni cyflogaeth presennol. Ond mae mwy y gallwn ei wneud o hyd. Mae pobl anabl yn gywir eisiau'r un cyfleoedd gwaith ag y mae pawb arall yn gallu eu cyrchu. Er mwyn cwrdd â'r dyhead hwnnw, mae'n rhaid i ni wneud newidiadau cadarnhaol pellach, a dyna pam mae'r Papur Gwyrdd hwn yn archwilio sut y gallem fynd ymhellach i helpu i leihau'r heriau y gall pobl anabl eu hwynebu o hyd wrth ddechrau, aros a llwyddo mewn cyflogaeth.

Mae *Llywio Cymorth y Dyfodol Y Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd* yn cynrychioli cam pwysig ar gyfer gwella'r system fudd-daliadau, cynyddu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a helpu mwy o bobl i fyw bywydau annibynnol. Mae'n rhan o becyn ehangach o gefnogaeth i bobl anabl sy'n cynnwys y Strategaeth Genedlaethol Anabledd sydd, am y tro cyntaf, yn cynrychioli ffocws a chydweithrediad ar draws y Llywodraeth i nodi portffolio eang o newidiadau ymarferol y gallwn eu cymryd i helpu pobl ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd. Mae ein hymateb ymgynghoriad *Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb* hefyd yn edrych ar sut y gall cyflogwyr gefnogi pobl yn y gwaith.

Gobeithio y byddwch yn achub ar y cyfle i gael dweud eich dweud am ein holl gynigion drwy ymateb i'r cwestiynau ymgynghori yn *Llywio Cymorth y Dyfodol Y Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd*.

Justin Tomlinson

Gweinidog dros Bobl Anabl

Crynodeb Gweithredol

1. Mae gan y Llywodraeth gynlluniau uchelgeisiol i helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i gyflawni eu potensial llawn a byw'n well am gyfnod hwy. Mae'r Papur Gwyrdd hwn, y Strategaeth Anabledd Genedlaethol a'r ymateb i ymgynghoriad Mae *Iechyd yn Fusnes i Bawb* oll yn rhan o'n dull cyfannol o helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i fyw bywydau annibynnol a dechrau gweithio, ac aros a llwyddo mewn gwaith.
2. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn galw am weithredu ym mhob rhan o'r Llywodraeth a chymdeithas ehangach. Bydd yn ystyried sut i fynd i'r afael â materion ehangach a all gyfyngu ar gyfleoedd i bobl anabl.
3. Caiff ein hymateb i ymgynghoriad *Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb* ei gyhoeddi ar y cyd â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Y bwriad fydd gwella'r cymorth a roddir i gyflogwyr a chyflogaeth, er mwyn lleihau nifer y bobl a welwn yn gadael cyflogaeth oherwydd anabledd neu gyflwr iechyd.
4. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Papur Gwyrdd hwn yn ymgynghori ar yr agweddau canlynol ar ein cymorth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd:
 - I ba raddau y mae ein gwasanaethau'n gweithio'n dda i bobl, a beth yn rhagor y gallwn ei wneud i sicrhau gwelliannau a meithrin ymddiriedaeth.
 - I ba raddau rydym yn helpu pobl i ddechrau gweithio ac aros a llwyddo mewn gwaith yn effeithiol. Rydym yn cydnabod, yn achos pobl a all weithio, fod gan gyflogaeth briodol ran hanfodol i'w chwarae er mwyn cefnogi iechyd meddwl ac iechyd corfforol da.
 - Pa mor llwyddiannus fu'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r system budd-daliadau ers 2010. Rydym yn ystyried a oes angen i ni ailfeddwl unrhyw agwedd ar y newidiadau hyn neu fynd ymhellach. Rydym am ystyried a yw ein system bresennol yn annog ac yn cefnogi pobl yn y ffordd orau.
5. Drwy'r Papur Gwyrdd hwn i gyd, cawn ein tywys gan dair blaenoriaeth, sef:
 - Galluogi pobl i fyw'n annibynnol;
 - Gwella canlyniadau cyflogaeth;
 - Gwella profiad pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.
6. Llywiwyd y Papur Gwyrdd hwn gan brofiadau pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym wedi siarad â channoedd o bobl a sefydliadau er mwyn gwneud yn siwr ein bod yn gwybod beth sy'n gweithio a beth sy ddim yn gweithio. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y meysydd hynny y gall fod angen i ni eu newid.
7. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi dadansoddi'r data a'r dystiolaeth sydd eisoes ar gael, yn ogystal â gwneud gwaith ymchwil newydd. Mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth fanwl i ni o'r hyn sy'n digwydd nawr. Caiff y dystiolaeth hon ei rhannu ym mhob rhan o'r Papur Gwyrdd hwn. Mae ar gael mewn mwy o fanylder yn y pecyn data ategol ac yn y gwaith ymchwil rydym wedi'i gyhoeddi.
8. Gwyddom y gallwn wneud mwy o gynnydd. Rydym eisoes wedi gwneud newidiadau i'n gwasanaethau a'n cymorth dros y deng mlynedd diwethaf sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Er enghraifft, rydym wedi darparu mwy o gymorth cyflogaeth drwy'r Credyd Cynhwysol (UC) a rhaglenni cyflogaeth newydd. Erbyn diwedd 2019, roedd nifer a chyfradd y bobl anabl a oedd mewn gwaith ar eu huchaf ers i gofnodion tebyg ddechrau cael eu cadw yn 2013¹.

9. Rydym yn falch o ymrwymiad y Llywodraeth hon i gefnogi pobl anabl. Fodd bynnag, mae faint o arian cyhoeddus y byddwn yn ei wario ar fudd-daliadau i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn tyfu bob blwyddyn, ac mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau y caiff yr arian hwnnw ei wario mor effeithiol â phosibl.
10. Yn y Papur Gwyrdd hwn, ystyriwn sut i fynd i'r afael â rhai o'r problemau ym maes budd-daliadau iechyd ac anabledd, yn y tymor byr i'r tymor canolig. Ymhlith y rhain mae:
 - Gwella'r ffordd y caiff pobl eu cyfeirio at wasanaethau ehangach yn gynnar. Yn benodol, rydym am wella'r broses o gyfeirio pobl at wasanaethau iechyd, fel ei bod yn haws i bobl gael triniaeth a chymorth;
 - Profi gwasanaethau eirioli er mwyn i bobl sy'n cael y drafferth fwyaf allu defnyddio'r system budd-daliadau;
 - Parhau i wella ein cymorth cyflogaeth fel y gall mwy o bobl ddechrau gweithio ac aros a llwyddo mewn gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr heriau a welwn yn yr economi ehangach o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ystyried mwy o gydgyssylltu rhwng cymorth cyflogaeth a gwasanaethau iechyd;
 - Gwella'r cymorth sydd ar gael ar gyfer cyflogwyr, a chodi eu disgwyliadau, er mwyn atal pobl â chyflwr iechyd neu anabledd rhag rhoi'r gorau i weithio;
 - Ystyried ffyrdd gwahanol o gynnal asesiadau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio asesiadau dros y ffôn ac asesiadau fideo;
 - Parhau i leihau'r ailasesiadau lle bo iechyd unigolyn yn annhebygol o newid;
 - Parhau i wella ansawdd a chywirdeb y penderfyniadau a wnawn ar hawl i gael budd-daliadau;
 - Ystyried gwelliannau pellach i'n prosesau ailystyried gorfodol ac apelio;
 - Gwella'r wybodaeth a ddefnyddiwn i wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau gwell tystiolaeth feddygol er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd pobl yn cael y lefel gywir o gymorth o'r cychwyn, a sicrhau y bydd hynny'n digwydd yn gynt.
11. Rydym hefyd yn awyddus i ystyried a ddylem wneud newidiadau mwy sylfaenol dros y tymor hwy. Rydym yn awyddus i glywed sut y gellid dylunio'r system budd-daliadau yn well er mwyn helpu mwy o bobl i weithio a byw'n annibynnol ac ystyried dulliau newydd o ddarparu cymorth.
12. Hoffem glywed gennych am y dulliau y dylem eu hystyried. Yn hollbwysig, hoffem glywed eich barn ar b'un a allwn gyflawni ein huchelgais o fewn strwythur presennol budd-daliadau iechyd ac anabledd neu a oes angen newid ehangach.
13. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gam pwysig tuag at wneud newidiadau a fydd yn gwella ein gwasanaethau, yn cynyddu cyfleoedd am gyflogaeth ac yn helpu mwy o bobl i fyw bywydau annibynnol. Rhaid i'n dull gael ei lywio gan farnau a safbwyntiau gwahanol, yn enwedig rhai pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.

Cyflwyniad

14. Mae gan y Llywodraeth hon gynlluniau uchelgeisiol i gefnogi a grymuso pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Caiff y Strategaeth Anabledd Genedlaethol ei chyhoeddi cyn bo hir. Bydd yn amlinellu newidiadau ymarferol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau y bydd pobl anabl yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Bydd hefyd yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer trawsnewid bywydau pobl anabl drwy weithredu ym mhob rhan o'r Llywodraeth a chymdeithas ehangach.
15. Bydd y Papur Gwyrdd hwn yn ystyried sut y gall y system budd-daliadau ddiwallu anghenion pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn well. Fel y cyfryw, mae'n rhan bwysig o gynlluniau ehangach y Llywodraeth a dyma brif gyfraniad yr Adran hon at y Strategaeth Anabledd Genedlaethol.
16. Bydd nifer o gyhoeddiadau a arweinir gan Adrannau eraill hefyd yn ystyried cymorth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, fel a ganlyn:
 - Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio i adfywio'r Strategaeth Awtistiaeth. Bydd hyn yn cynnwys deall awtistiaeth yn well a darparu gwasanaethau a chymorth i bobl awtistig. Bydd yn nodi camau er mwyn galluogi mwy o bobl awtistig i weithio os gallant wneud hynny.
 - Bydd yr Adran Addysg hefyd yn cyhoeddi adolygiad o gymorth i blant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (AAAA). Ei nod fydd sicrhau deilliannau gwell i blant a phobl ifanc ag AAAA. Bydd yn ystyried ffyrdd o wneud yn siŵr bod y system AAAA yn gyson, o safon uchel, ac wedi'i hintegreiddio mewn addysg, iechyd a gofal.
17. Yn ogystal â bod yn gysylltiedig â gwaith ym mhob rhan o'r Llywodraeth, mae'r Papur Gwyrdd hwn yn adeiladu ar ymgynghoriadau blaenorol hefyd. Gwnaethom gyhoeddi Papur Gwyrdd Gwella Bywydau 2016² ac ymateb 2017³ gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i aros mewn gwaith a dychwelyd i'r gwaith, gwella asesiadau ar gyfer budd-daliadau, a helpu cyflogwyr i recriwtio pobl anabl. Yn dilyn yr ymatebion i'r Papur Gwyrdd hwn, byddwn yn cyhoeddi Papur Gwyn ganol 2022. Bydd hyn yn anelu at nodi sut y gallwn alluogi pobl yn well i ymgymryd â gwaith a byw'n fwy annibynnol, ac amlinellu'r newidiadau yr ydym am eu gwneud i'r system fudd-daliadau i fynd i'r afael yn well â heriau strwythurol a chyflawni.
18. Roedd ymgynghoriad *Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb* yn 2019⁴, a gafodd hefyd ei gyhoeddi gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ystyried ffyrdd o annog cyflogwyr i gefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn y gwaith. Roedd yn canolbwyntio ar roi gwell gwybodaeth a chymorth i gyflogwyr a chyflogion, a hynny'n gynharach, er mwyn helpu i atal pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd rhag colli eu swyddi oherwydd salwch. Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi'r ymateb i ymgynghoriad *Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb*. Er bod cynnydd pwysig yn cael ei wneud, gwyddom fod mwy o waith i'w wneud.
19. Mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio. Ers gwanwyn 2020, rydym wedi bod yn rhoi cymorth yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd. Mae mwy o bobl nag erioed o'r blaen wedi bod yn hawlio budd-daliadau: yn ystod chwe wythnos gyntaf ymateb y DU i'r pandemig, cawsom fwy na chwe gwaith yn fwy na'r nifer arferol o geisiadau am fudd-daliadau, gan gynnwys Credyd Cynhwysol (UC) a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)⁵. Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi addasu ein ffyrdd o weithio yn gyflym iawn er mwyn parhau i gefnogi pobl. Mae'r system Credyd Cynhwysol yn benodol wedi dangos gwydnwch a hyblygrwydd yn y ffordd y mae wedi ymateb i heriau'r pandemig.
20. Erbyn diwedd 2019, roedd nifer a chyfradd y bobl anabl a oedd mewn gwaith ar eu huchaf ers i gofnodion tebyg ddechrau cael eu cadw yn 2013⁶. Wrth i ni ddod drwy'r heriau digynsail hyn, rydym

yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod 1 miliwn yn rhagor o bobl anabl mewn gwaith erbyn 2027. Rhagwelir y bydd nifer y bobl sydd angen ein cymorth yn cynyddu⁷. Wrth i ni adfer ar ôl y pandemig, rydym am ddwysáu ein cymorth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.

Cwmpas y Papur Gwyrdd hwn

21. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y prif fudd-daliadau a delir i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor o oedran gweithio. Mae'r budd-daliadau hyn yn perthyn i ddau grŵp:
- Budd-daliadau i bobl sydd â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio ac sy'n ddi-waith neu ar incwm isel. Y budd-daliadau hyn yw UC ac ESA.
 - Budd-daliadau er mwyn helpu i dalu rhai o'r costau ychwanegol ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor. Caiff y rhain eu talu i bobl p'un a oes ganddynt swydd neu incwm ai peidio, a'u nod yw eu helpu i fyw'n annibynnol. Y prif fudd-dal costau ychwanegol yw Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), sy'n disodli'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ar gyfer oedolion.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)

22. Tan yn ddiweddar, ESA oedd y prif fudd-dal a delir i bobl ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor sy'n effeithio ar eu gallu i weithio. Caiff pobl sy'n cael ESA eu rhoi mewn un o ddau grŵp. Lle y gall unigolyn baratoi i weithio, caiff ei roi yn y Grŵp Gweithgarwch sy'n Gysylltiedig â Gwaith (WRAG). Gall fod yn ofynnol i bobl yn y grŵp hwn wneud pethau fel ysgrifennu CV neu gymryd rhan mewn sesiynau magu hyder. Fel arall, gellir rhoi unigolyn yn y Grŵp Cymorth. Os caiff rhywun ei roi yn y Grŵp Cymorth, nid oes rhaid iddo gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith. Bydd pobl yn y Grŵp Cymorth yn cael budd-dal ychwanegol ar ben eu prif daliad ESA.
23. Mae dau fath o ESA: ESA yn seiliedig ar incwm ac ESA yn seiliedig ar gyfraniadau. Caiff ESA yn seiliedig ar gyfraniadau ei alw'n ESA Newydd⁸ bellach, a chaiff ESA yn seiliedig ar incwm ei ddisodli gan UC. Ym mis Tachwedd 2020, roedd 952,260 o bobl yn hawlio ESA yn seiliedig ar incwm heb symud draw i hawlio UC eto, ac roedd 809,590 o bobl yn derbyn ESA Newydd⁹.

Credyd Cynhwysol (UC)

24. Budd-dal i bobl o oedran gweithio sy'n ddi-waith neu mewn gwaith â chyflog isel ac sydd â chynilion cyfyngedig yw UC. Fe'i cyflwynwyd yn 2013 ac mae'n symleiddio'r system budd-daliadau drwy gyflwyno un budd-dal yn lle chwe budd-dal gwahanol. Nid oes angen i unigolyn fod yn anabl na bod â chyflwr iechyd i allu hawlio'r prif daliad UC (y lwfans safonol). Os bydd gan unigolyn sy'n gymwys i gael y prif daliad UC gyflwr iechyd sy'n effeithio ar ei allu i weithio, mae'n bosibl y penderfynir bod gan yr unigolyn hwnnw allu cyfyngedig i weithio (LCW) neu allu cyfyngedig i weithio a chymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith (LCWRA). Bydd pobl y penderfynir bod ganddynt LCWRA yn cael budd-dal ychwanegol ar ben y prif daliad UC.
25. Byddwn yn ystyried cymorth i bobl sy'n hawlio UC ac sydd ag LCW ac LCWRA yn y Papur Gwyrdd hwn. Byddwn hefyd yn ystyried pobl sy'n hawlio UC ac sydd â thystiolaeth gymeradwy o gyflwr iechyd¹⁰ yn ogystal â phobl sy'n hawlio UC ac sy'n aros am asesiad. Drwy'r Papur Gwyrdd hwn, byddwn yn cyfeirio at y bobl hyn fel pobl sy'n hawlio UC ac sydd â chyflwr iechyd. Mae pobl sy'n hawlio UC ac sydd â chyflwr iechyd yn dal yn rhan o'r llwyth achosion UC cyffredinol. Roedd 782,000 o bobl o oedran gweithio yn hawlio UC a chanddynt gyflwr iechyd ym mis Tachwedd 2020¹¹.

Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)

26. Yn wahanol i UC ac ESA, nod PIP yw helpu pobl i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Caiff PIP ei dalu ni waeth faint yw incwm neu gynilion yr

unigolyn. Mae'r swm a delir yn dibynnu ar effaith anabledd neu gyflwr iechyd. Cyflwynwyd PIP yn 2013 i ddisodli DLA ar gyfer oedolion o oedran gweithio er mwyn rhoi mwy o gymorth i'r bobl sydd â'r angen mwyaf amdano. Ym mis Tachwedd 2020, roedd 2.5 miliwn o bobl o oedran gweithio yn cael budd-daliadau costau ychwanegol. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn hawlio PIP¹².

Cymorth Arall

27. Ym mis Tachwedd 2020, roedd 3.5 miliwn o bobl o oedran gweithio yn hawlio PIP neu DLA, neu'r ddau, neu'n hawlio ESA neu UC a chanddynt gyflwr iechyd. O'r rhain, roedd 1.6 miliwn o bobl o oedran gweithio yn hawlio PIP/DLA yn ogystal ag ESA neu UC a chanddynt gyflwr iechyd¹³.
28. Defnyddiwn 'asesiadau gweithredol' ar gyfer PIP, ESA ac UC ar gyfer pobl ag LCW/LCWRA. Mae asesiad gweithredol yn ystyried effaith cyflwr iechyd ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau, yn hytrach na dim ond y cyflwr iechyd ei hun. Defnyddir yr Asesiad Gallu i Weithio (WCA) er mwyn helpu i benderfynu ar hawl ariannol a chymorth cyflogaeth ar gyfer ESA ac UC. Defnyddiwn asesiad ar wahân i benderfynu ar hawl i gael PIP.
29. Yn ogystal â thalu budd-daliadau, mae'r help a gynigiwn i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd o oedran gweithio yn cynnwys cymorth cyflogaeth (i bobl sy'n hawlio UC ac ESA). Hefyd, rhoddir cymorth symudedd drwy gynllun annibynnol Motability (i bobl sy'n derbyn taliadau PIP a DLA ar gyfradd uwch) ac mae cymorth i wneud cais am UC ar gael drwy wasanaeth Help i Hawlio.
30. Er bod cwmpas y Papur Gwyrdd hwn wedi'i gyfyngu i gymorth ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd o oedran gweithio, bydd llawer o'r materion y byddwn yn eu hystyried hefyd yn berthnasol i bobl hŷn sydd ag anghenion tebyg. Mae 284,000 o bobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth sy'n cael PIP¹⁴. Mae'r system budd-daliadau hefyd yn rhoi cymorth ariannol i bobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth drwy Lwfans Gweini (AA). Gall AA helpu i dalu'r costau ychwanegol a wynebwr gan bensiynwyr y mae angen iddynt gael gofal neu oruchwyliaeth hirdymor am eu bod yn anabl neu am fod ganddynt gyflwr iechyd. Hefyd, gall fod gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd ofalwyr di-dâl. Rydym yn rhoi cymorth i ofalwyr di-dâl drwy Lwfans Gofalwr neu drwy gynnwys symiau ychwanegol i ofalwyr mewn UC a budd-daliadau eraill¹⁵. Wrth i ni ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yr effeithiau posibl ar gymorth i bobl ag anghenion tebyg dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth, a'u gofalwyr di-dâl.

Pam Mae Angen Newid

31. Gall dechrau gweithio ac aros a llwyddo mewn gwaith fod yn anos i lawer o bobl anabl na phobl nad ydynt yn anabl. Gall pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hefyd wynebu heriau eraill sy'n ei gwneud hi'n anos byw bywydau cyfartal ac annibynnol.
32. Ar hyn o bryd, mae gan un o bob tri unigolyn rhwng 16 a 64 oed¹⁶ yn y DU gyflwr iechyd hirdymor ac mae un o bob pum unigolyn rhwng 16 a 64 oed yn y DU yn anabl¹⁷. Bu cynnydd o 20% yn nifer y bobl o oedran gweithio a oedd yn dweud bod ganddynt anabledd rhwng 2013 a 2019¹⁸, a rhagwelir y bydd y nifer hwn yn parhau i dyfu¹⁹. Mae nifer y bobl hŷn o oedran gweithio wedi cynyddu ac, yn nodweddiadol, bydd iechyd pobl yn dirywio wrth iddynt heneiddio. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau yn oedran y boblogaeth o oedran gweithio yn esbonio'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd yn llawn. Mae'n debygol bod llawer o ffactorau'n gyfrifol am hyn, gan gynnwys y cynnydd yn y gyfran o bobl sy'n dweud bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl^{20, 21}. Yn 2020, cyflwr iechyd meddwl oedd prif gyflwr 50% o'r bobl o oedran gweithio a oedd yn derbyn ESA a 41% o'r bobl o oedran gweithio a oedd yn derbyn PIP/DLA²².
33. Mae gwariant ar fudd-daliadau i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor ar ei uchaf erioed ar hyn o bryd²³. Yn 2021/22 rhagwelir y byddwn yn gwario £33 biliwn i gefnogi oedolion o oedran gweithio sy'n cael PIP/DLA ac ESA, a phobl sy'n hawlio UC a chanddynt gyflwr iechyd. Dros y pum mlynedd nesaf, rhagwelir y bydd y gwariant hwn yn parhau i gynyddu²⁴.

34. Rydym am sicrhau bod arian a gaiff ei wario ar gefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Mae gwariant ar y prif fudd-daliadau a gaiff eu hawlio gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn uwch nag erioed²⁵ ac rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol o ran canlyniadau. Erbyn diwedd 2019, roedd nifer a chyfradd y bobl anabl a oedd mewn gwaith ar eu huchaf ers i gofnodion tebyg ddechrau cael eu cadw yn 2013²⁶. Gwnaeth y gwahaniaeth rhwng cyfradd gyflogaeth pobl anabl a chyfradd gyflogaeth pobl nad ydynt yn aml, a elwir yn fwch cyflogaeth i bobl anabl, hefyd leihau rhwng 2013 a 2019²⁷.
35. Ein huchelgais yw gwneud mwy a mynd ymhellach i wella canlyniadau cyflogaeth a byw'n annibynnol i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Nid yn unig y mae hyn yn dda i'r unigolyn, ond mae'n dda i bawb. Byddai sicrhau bod un person anabl ychwanegol mewn gwaith llawn amser, yn hytrach na'i fod yn ddi-waith yn y tymor hwy, yn golygu y gallai'r Llywodraeth arbed ac ailfuddsoddi £15,000 y flwyddyn²⁸.
36. Rydym am barhau i leihau'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl, sy'n 28.6% ar hyn o bryd²⁹. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, mae 43% o'r bobl sy'n byw mewn tldi yn byw mewn teulu sy'n cynnwys rhywun anabl³⁰. Mae pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd wedi dweud wrthym fod angen newid, fel y nodir isod.

Gwranddo ar Bobl Anabl a Phobl â Chyflyrau Iechyd

37. Rydym wedi bod yn gwranddo ar bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae eu hadborth wedi helpu i lywio ein cynigion ar gyfer newid. Er mwyn sicrhau ein bod yn clywed amrywiaeth o safbwyntiau a oedd yn adlewyrchu profiadau go iawn pobl, cynhaliodd y Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith gyfres o ddigwyddiadau Papur Gwyrdd. Mae pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, sefydliadau cymorth lleol, elusennau cenedlaethol, cyflogwyr a melinau trafod i gyd wedi cymryd rhan. Er mwyn deall anghenion pobl sy'n byw mewn gwahanol rannau o Brydain Fawr, rydym wedi cynnal digwyddiadau mewn trefi mawr a dinasoedd, a hefyd mewn ardaloedd mwy gwledig ac arfordirol. Er mwyn parhau i wrando ar bobl yn ystod y pandemig, gwnaethom hefyd gynnal digwyddiadau rhithwir. Mae rhagor o wybodaeth am pryd, ble a sut y cafodd y digwyddiadau hyn eu cynnal i'w chael yn Atodiad A.
38. Rydym hefyd wedi casglu tystiolaeth drwy waith ymchwil. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ymchwilwyr annibynnol wedi holi a chyfweld â miloedd o bobl sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn cael ei wneud er mwyn deall mwy am brofiadau pobl o hawlio budd-daliadau³¹ a darganfod ble y gallwn wneud gwelliannau³².
39. Rydym yn ddiolchgar i bawb a fu'n bresennol yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd hyn ac a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil. Rydym yn myfyrio ar y wybodaeth a gasglwyd ym mhob pennod o'r Papur Gwyrdd hwn. Byddwn yn parhau i wrando ar bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd drwy gydol y cyfnod ymgynghori a thu hwnt.

Blaenoriaethau ar gyfer Newid

40. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd wedi ein helpu i ddatblygu tair blaenoriaeth ar gyfer newid. Bydd y blaenoriaethau hyn yn ein helpu i wella canlyniadau i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Y tair blaenoriaeth yw:
- Galluogi pobl i fyw'n annibynnol;
 - Gwellu canlyniadau cyflogaeth;
 - Gwellu profiad pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.
41. Ceir esboniad o bob un o'r blaenoriaethau hyn isod.

Galluogi pobl i fyw'n annibynnol

42. Mae a wnelo byw'n annibynnol ag ymestyn cyfleoedd, fel y gall pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd gyflawni eu potensial llawn a byw'r bywydau y maent yn dewis eu byw.
43. Ar hyn o bryd, drwy dalu budd-daliadau a darparu cymorth cyflogaeth y byddwn yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn bennaf. Gall pobl sy'n cael taliadau symudedd PIP neu DLA ar gyfradd uwch hefyd gyfnewid eu taliadau am gymorth symudedd drwy Gynllun annibynnol Motability.
44. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, dywedodd pobl y gallem wneud mwy i sicrhau bod pobl anabl yn cael yr un cyfleoedd â phobl nad ydynt yn anabl. Gofynnodd pobl i ni roi cymorth gwell ac ehangach er mwyn helpu i ddiwallu anghenion penodol pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae hyn yn cynnwys help i oresgyn rhwystrau rhag byw'n annibynnol, megis ei chael hi'n anodd cael gofal iechyd, problemau trafnidiaeth a diffyg swyddi addas yn lleol. Dywedodd pobl wrthym fod angen iddi fod yn haws i bobl anabl ddefnyddio gwasanaethau'r Llywodraeth, er mwyn i bobl allu cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae pobl wedi dweud bod angen i ni weithio'n galetach i wneud addasiadau rhesymol i'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran hon. Hefyd, gallai'r cymorth a gynigir gennym fod yn fwy cydgysylltiedig, a hynny'n fewnol (rhwng gwahanol fudd-daliadau) ac yn allanol (mewn perthynas â gwasanaethau a gaiff eu cynnig gan adrannau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth, y GIG, awdurdodau lleol ac elusennau).
45. Ein blaenoriaeth gyntaf yw *helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i fyw'n annibynnol a chyflawni eu potensial. Mae hyn yn golygu y dylai pobl gael y swm cywir o gymorth ariannol, cael cyfle i wneud eu dewisiadau eu hunain, cael mynediad cyfartal at wasanaethau, cael cymorth i gael gafael ar ofal iechyd a thriniaeth, a gallu cymryd rhan mewn cymdeithas ar yr un sail â phobl eraill.*

Gwella canlyniadau cyflogaeth

46. Rydym am i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd gael yr un cyfleoedd a byw bywyd llawn. Mae bod mewn gwaith priodol yn dda i iechyd a gall bod yn ddi-waith gael effaith negyddol ar iechyd pobl³³. Rydym am ganolbwyntio'n fwy ar yr hyn y gall pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd ei wneud, yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud. Drwy roi cymorth cyflogaeth effeithiol, gallwn helpu pobl i wella eu hiechyd a gwireddu eu potensial.
47. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i barhau i leihau'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod miliwn yn rhagor o bobl anabl mewn gwaith rhwng 2017 a 2027. Rydym am wneud ein gorau i sicrhau bod pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn cael yr un cyfleoedd â phobl eraill i gyflawni eu potensial. Rydym am helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i aros mewn gwaith lle bynnag y bo modd. Fel y nodwyd yn ymgynghoriad Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb³⁴, mae atal pobl rhag rhoi'r gorau i weithio yn rhan allweddol o'n huchelgais. Rydym hefyd am wneud mwy i helpu pobl i baratoi ar gyfer cyflogaeth a dechrau gweithio.
48. Rydym eisoes yn cynnig cymorth cyflogaeth i bobl sy'n hawlio budd-daliadau fel UC ac ESA. Gwneir hyn drwy gyflogi hyfforddwyr gwaith mewn canolfannau gwaith a darparu cymorth cyflogaeth gan gynnwys y Rhaglen Gwaith ac Iechyd a Chymorth Cyflogaeth Dwys wedi'i Bersonoli (IPES). Rydym hefyd yn cefnogi pobl anabl mewn gwaith drwy grantiau Mynediad at Waith ac yn gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i recriwtio a chadw pobl anabl drwy gynllun Hyderus o ran Anabledd.
49. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, clywsom fod pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn awyddus i gyfrannu at gymdeithas mewn ffordd sy'n eu galluogi i daro cydbwysedd rhwng gweithio a rheoli eu hiechyd. Mae pobl yn cydnabod gwerth cyflogaeth ond maent am i ni roi mwy o ystyriaeth i'w hamgylchiadau, gan gynnwys effaith bod yn anabl neu fod â chyflwr iechyd, a chyfyngiadau eu hardal leol. Hoffai pobl i'r cymorth a'r hyfforddiant fod wedi'u teilwra'n fwy yn unol â'u hanghenion. Roedd rhai pobl yn teimlo'n ofnus ynglŷn â chymryd camau i baratoi ar gyfer gwaith neu roi cynnig ar weithio, rhag ofn y byddai hynny'n effeithio ar eu budd-daliadau. Hefyd, gofynnodd pobl am well cymorth gan gyflogwyr a'r Adran hon i aros a llwyddo mewn gwaith.

50. Rydym wedi gwneud gwaith ymchwil gyda phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd sy'n cael ESA ac UC³⁵ er mwyn deall eu teimladau ynglŷn â pharatoi ar gyfer gwaith a gweithio. Roedd hyn yn dangos bod pobl yn teimlo bod problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn aml yn her. Roedd pobl yn pryderu y gallai eu hiechyd ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i swydd neu ei chadw, neu y gallai gweithio gael effaith negyddol ar eu hiechyd.
51. Mae'r un gwaith ymchwil yn dangos nad yw pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd bob amser yn teimlo'n gyfforddus yn manteisio ar gymorth cyflogaeth. Roedd rhai pobl nad oeddent mewn gwaith yn pryderu y gallai gwneud gwaith am dâl olygu eu bod mewn perygl o golli eu budd-daliadau neu y byddai'n rhaid iddynt wneud cais am fudd-daliadau eto pe na baent yn aros yn y swydd. Roedd rhai pobl yn poeni am fod heb incwm yn ystod y cyfnod ar ôl i'w budd-daliadau ddod i ben a chyn iddynt gael eu cyflog cyntaf mewn swydd newydd³⁶.
52. Roedd rhai o'r bobl a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn yn hawlio ESA yn hytrach nag UC. Budd-dal i bobl mewn gwaith a phobl ddi-waith sy'n helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd yw UC. Er enghraifft, mae UC yn galluogi pobl i roi cynnig ar waith a pharhau i gael budd-dal gan wybod y bydd eu budd-dal yn parhau os na fyddant yn aros yn y swydd.
53. Ein hail flaenoriaeth yw *lleihau'r anawsterau a wynebier o hyd gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd wrth ddechrau gweithio ac aros a llwyddo mewn gwaith. Rydym am gynnig gwell cymorth cyflogaeth sydd wedi'i deilwra'n fwy, p'un a yw pobl mewn gwaith ai peidio. Rydym am helpu i atal pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd rhag mynd yn ddi-waith. Rydym am weithio gyda chyflogwyr i wella canlyniadau cyflogaeth lle bynnag y gall fod modd i bobl weithio, nawr neu yn y dyfodol.*

Gwella profiad pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd

54. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael gwasanaethau gan yr Adran hon yn cytuno ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn ei addo, ein bod yn trin pobl yn deg a bod ein staff yn barod i helpu, yn gwrtais ac yn dangos parch³⁷. Lle mae pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd wedi dweud y gallai eu profiad fod yn well, rydym am gymryd camau uchelgeisiol i wella.
55. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, dywedodd rhai pobl ei bod hi'n anodd rhyngweithio â ni. Gall pobl deimlo'n ofnus ynglŷn â gorfod defnyddio'r system budd-daliadau. Bydd pobl weithiau'n cael trafferth wrth wneud cais am fudd-daliadau a gall asesiadau iechyd fod yn anodd iddynt. Dywedodd pobl nad oeddent bob amser yn ymddiried mewn asesiadau, na'r penderfyniadau sy'n deillio ohonynt. Pan fydd pobl yn herio penderfyniad ynghylch budd-dal, gall hyn arwain at broses hir ac anodd weithiau. Gall diffyg ymddiriedaeth effeithio ar barodrwydd pobl i dderbyn cymorth cyflogaeth a gynigir iddynt.
56. Ein trydedd blaenoriaeth yw *gwella profiad pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd drwy wrando, dysgu a gwella'n barhaus. Rydym am wneud ein gwasanaethau'n haws eu defnyddio a'n prosesau'n symlach, lle bynnag y bo modd. Rydym am wneud gwelliannau a fydd yn helpu i feithrin ymddiriedaeth pobl. Rydym am ystyried ffyrdd o gynnig cymorth gwell, a mwy ohono, i bobl sydd â'r angen mwyaf amdano.*

Gwariant ar Fudd-daliadau Iechyd ac Anabledd

57. Dros y saith mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd o 20% yn nifer y bobl o oedran gweithio sy'n dweud bod ganddynt anabledd³⁸. Yn 2021/22 rydym yn rhagweld y byddwn yn gwario £58 biliwn, sef y swm mwyaf erioed, o arian cyhoeddus ar fudd-daliadau i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd³⁹. O'r cyfanswm hwn, caiff £33 biliwn ei wario ar bobl o oedran gweithio ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys gwariant sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth yr Alban ar gyfer PIP a DLA i bobl o oedran gweithio. Rhwng 2021/22 a 2025/26 rydym yn disgwyl i wariant termau real⁴⁰ ar fudd-daliadau iechyd ac anabledd i bobl o oedran gweithio ym Mhrydain Fawr gynyddu o £33bn i £40bn⁴¹, sef cynnydd o 20% a chynnydd mewn graddiant fel cyfran o gynnyrch domestig gros dros

y cyfnod hwn. Rydym yn falch o ymrwymiad y Llywodraeth hon i gefnogi pobl anabl. Fodd bynnag, mae'n hanfodol sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.

58. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i wella bywydau pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Rydym am helpu pobl i oresgyn heriau sy'n gysylltiedig â byw'n annibynnol. Rydym hefyd am helpu pobl i gael gwaith lle bynnag y bo modd. Mae'r cynnydd mewn gwariant ar fudd-daliadau iechyd ac anabledd yn awgrymu bod mwy i'w wneud i alluogi pobl i fyw bywydau annibynnol a gweithio. Rydym am ystyried y cymorth rydym yn ei gynnig ar hyn o bryd ac a all fod gwell ffyrdd o roi cymorth.
59. Rhaid i ni sicrhau y caiff pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd eu cefnogi'n effeithiol. Bydd y Papur Gwyrdd hwn yn ystyried a yw'r arian rydym yn ei wario ar gefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn cael ei wario'n dda. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ein bod wedi rhoi'r gwiriadau cywir ar waith i wneud yn siŵr ein bod yn talu'r symiau cywir o arian i bobl ar gyfer eu hamgylchiadau penodol. Y rheswm dros hyn yw am ein bod yn awyddus i sicrhau y bydd y system budd-daliadau iechyd ac anabledd yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Ledled y Deyrnas Unedig

60. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i wella bywydau pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd ym mhob rhan o'r Undeb. Rydym yn croesawu safbwyntiau pobl ble bynnag y maent yn byw, gan gynnwys Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, dim ond i Brydain Fawr y mae'r meysydd a drafodir yn y Papur Gwyrdd hwn yn berthnasol.
61. Mae'r adran hon yn nodi i ba raddau y bydd yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol ym mhob rhan o'r DU. Y Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith yn Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros bobl anabl ledled y Deyrnas Unedig.
62. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisiau ynghylch cymorth cyflogaeth a nawdd cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n rhannu'r cyfrifoldeb hwnnw yn yr Alban â Llywodraeth yr Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am y meysydd hyn. Mae'r Adran Gymunedau yng Ngogledd Iwerddon a'r Adran Gwaith a Phensiynau ym Mhrydain Fawr yn ceisio cynnal systemau nawdd cymdeithasol tebyg.
63. Yn yr Alban, mae rhai rhannau o'r system nawdd cymdeithasol wedi'u datganoli⁴². Mae hyn yn cynnwys PIP a DLA. Caiff y rhain eu disodli dros amser gan fudd-daliadau newydd Llywodraeth yr Alban⁴³. Pan fydd y budd-daliadau hyn wedi cael eu cyflwyno, ni fydd y cynigion mewn perthynas â PIP a DLA yn y Papur Gwyrdd hwn yn berthnasol yn yr Alban. Mae hyn yn cynnwys y newidiadau a gynigir gennym i'r Rheolau Arbennig ar gyfer Salwch Angheuol (SRTI) o fewn PIP a DLA, a amlinellir ym Mhennod 3 o'r Papur Gwyrdd hwn⁴⁴. Bydd y newidiadau a gynigir ar gyfer ESA ac UC yn berthnasol yn yr Alban, gan mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU fydd y budd-daliadau hyn o hyd.
64. Mewn perthynas â chymorth cyflogaeth, mae gan Lywodraeth yr Alban bwerau i sefydlu rhaglenni a osodir ar gontract er mwyn helpu pobl anabl i gael gwaith. Mae ganddi bwerau tebyg i gefnogi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith yn y tymor hir, ar yr amod bod hyn yn para 12 mis neu fwy. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol o hyd am y cymorth a roddir gan y Ganolfan Byd Gwaith, ac am gymorth cyflogaeth arall a osodir ar gontract yn yr Alban. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyrdd hwn yn berthnasol yn yr Alban i feysydd a gadwyd yn ôl gan Lywodraeth y DU.
65. Yng Nghymru, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gymorth cyflogaeth a nawdd cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod y cynigion yn y Papur Gwyrdd hwn sy'n gysylltiedig â'r meysydd hynny, gan gynnwys PIP a DLA, yn berthnasol yng Nghymru.
66. Mae'r astudiaethau achos ym Mhennod 2 o'r Papur Gwyrdd hwn yn rhoi cipolwg ar y ffordd y caiff y meysydd hyn eu cyflawni yng Nghymru a'r Alban.

67. Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am iechyd, llywodraeth leol, addysg, sgiliau a gofal cymdeithasol. Lle bo'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyrdd hwn yn ymwneud â'r meysydd hyn, bydd yr ymgynghoriad a'r sylwadau yn canolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei olygu i Loegr.
68. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, i ystyried y ffyrdd gorau o roi cymorth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.

Crynodeb

69. Caiff y tair blaenoriaeth, sef galluogi pobl i fyw'n annibynnol, gwella canlyniadau cyflogaeth a gwella profiad pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, eu hystyried ym mhob un o'r penodau canlynol:
 - Ym Mhennod 1, byddwn yn ystyried ffyrdd o roi mwy o gymorth er mwyn helpu i ddiwallu anghenion pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd a'i gwneud yn haws iddynt gael gafael ar fuddaliadau a gwasanaethau a'u defnyddio.
 - Ym Mhennod 2, byddwn yn ystyried sut i barhau i wella cymorth cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, a sut i annog pobl i fanteisio ar y cymorth hwnnw, lle bo modd.
 - Ym Mhennod 3, byddwn yn ystyried gwelliannau byrdymor i'n gwasanaethau presennol, megis gwella asesiadau a phrosesau gwneud penderfyniadau, er mwyn gwella profiad pobl anabl.
 - Ym Mhennod 4, byddwn yn disgrifio sut rydym wedi bod yn gweithio gyda phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, gweithwyr meddygol proffesiynol, elusennau ac academyddion i ystyried newidiadau i asesiadau yn y dyfodol, ac ystyried dulliau gweithredu amgen.
 - Ym Mhennod 5, byddwn yn ystyried newidiadau y gellid eu gwneud i strwythur y prif fuddaliadau a gaiff eu hawlio gan bobl anabl o oedran gweithio a phobl â chyflyrau iechyd.
70. Ym mhob pennod, hoffem glywed eich barn ar y meysydd rydym yn ymgynghori arnynt. Mae gan y Llywodraeth hon a'r Adran hon uchelgeisiau beiddgar ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn rhan hollbwysig o'r camau rydym yn eu cymryd o dan y Strategaeth Anabledd Genedlaethol. Ein blaenoriaeth nawr yw clywed eich awgrymiadau ar sut i wireddu'r uchelgeisiau hyn.

Pennod 1: Rhoi'r Cymorth Cywir

Crynodeb o'r Bennod

Rydym wedi clywed y gall pobl ei chael hi'n anodd cael budd-daliadau iechyd ac anabledd a chymorth cysylltiedig weithiau. Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried sut i wella hyn drwy wneud y canlynol:

- Gwella prosesau cyfeirio. Yn benodol, rydym am wella'r broses o gyfeirio pobl at wasanaethau iechyd, fel ei bod yn haws i bobl gael triniaeth a chymorth;
- Profi gwasanaethau eirioli er mwyn i bobl sy'n cael y drafferth fwyaf allu defnyddio'r system budd-daliadau;
- Ystyried mwy o gymorth i ddiwallu anghenion symudedd.

Cyflwyniad

71. Mae'n debygol y bydd gan bob unigolyn anghenion cymorth gwahanol ar adegau gwahanol. Rydym am wneud ein gorau i sicrhau bod pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn cael y cymorth cywir i ddiwallu'r anghenion hyn a byw'n annibynnol.
72. Mae llawer o gymorth, gan gynnwys cymorth ariannol, cymorth iechyd a chymorth cyflogaeth, eisoes ar gael i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo ei bod yn hawdd cael gafael ar ein gwasanaethau a'u defnyddio⁴⁵. Fodd bynnag, yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, dywedodd rhai pobl y gall fod yn anodd gwybod pa gymorth ehangach sydd ar gael a sut i gael gafael arno. Yn yr un digwyddiadau, clywsom nad yw bob amser yn amlwg pa rai o'n budd-daliadau y gallai pobl fod yn gymwys i'w cael. Mae pobl hefyd wedi dweud wrthym y gall ein ffurflenni budd-daliadau deimlo'n hir, peri straen a bod yn anodd eu llenwi. Yn olaf, rydym wedi clywed nad yw'r addasiadau rhesymol y bydd pobl yn gofyn amdanynt wrth ddefnyddio ein gwasanaethau yn cael eu gwneud bob amser.
73. Rydym am wneud mwy i sicrhau y caiff pawb brofiad didrafferth ac y gallant gael y cymorth cywir. Er mwyn cyflawni hynny, yn y bennod hon byddwn yn ystyried ffyrdd o helpu pobl i ddefnyddio'r system budd-daliadau iechyd ac anabledd bresennol a gwasanaethau ehangach.

Yr Hyn Rydym Eisoes Wedi'i Wneud

Gwella addasiadau rhesymol

74. Newid sy'n chwalu neu'n lleihau'r rhwystrau a wynebier gan bobl anabl yw addasiad rhesymol. Rydym am wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n gwbl hygyrch i gefnogi pobl a chynnig yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar bobl. Er enghraifft, mae gennym wasanaeth ymweld ar gyfer pobl na allant gyrraedd un o'n canolfannau asesu a gallwn gyfathrebu mewn fformatau amgen.
75. Mae'r Adran eisoes wedi rhoi amrywiaeth eang o addasiadau rhesymol ar waith ar gyfer pobl anabl. Ymhlith y rhain mae cyfathrebu mewn amrywiaeth o fformatau megis braille, print mawr a fformatau electronig ar gyfer pobl â nam ar eu golwg, dehongli laith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer pobl

fyddar a thrwm eu clyw, ystafelloedd tawel ar gyfer pobl awtistig, a phapur lliw ar gyfer pobl ddyslecsig. Rydym hefyd yn cynnig e-bost fel addasiad rhesymol i bobl na allant gael gafael ar fersiynau print neu bobl sy'n ei chael hi'n anodd cysylltu â ni dros y ffôn.

76. Rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu i ddatblygu safon yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer fersiynau Hawdd eu Darllen a chyhoeddi canllawiau Hawdd eu Darllen newydd ar bynciau fel Mynediad at Waith sydd ar gael ar-lein. Mae cyhoeddiadau Hawdd eu Darllen eraill ar gyfer PIP ac UC hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth y DU yn GOV.UK.
77. Rydym yn gweithio'n barhaus i wella'r addasiadau rhesymol a wnawn. Ym mis Hydref 2020, gwnaethom gwblhau'r broses o gyflwyno'r Gwasanaeth Cyfnewid dros Fideo ar gyfer pob budd-dal. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi pobl sy'n defnyddio BSL i gysylltu â ni dros y ffôn. Rydym hefyd yn profi'r broses o gyflwyno Dehongli o Bell dros Fideo yn ein gwasanaethau. Byddai hyn yn galluogi defnyddwyr BSL i gyfathrebu â ni drwy ddehonglydd mewn galwad fideo.
78. Rydym yn gweithio ar wella'r ffordd rydym yn casglu ac yn cofnodi fformatau amgen ac addasiadau rhesymol ar ein systemau fel na fydd angen i bobl ofyn am gael newid eu trefniadau cyfathrebu fwy nag unwaith. Rydym hefyd wedi sefydlu Fforwm Addasiadau Rhesymol ar y cyd ag elusennau anabledd, er mwyn parhau i wella hygyrchedd. Hoffem i bawb gael y cymorth sydd ei angen arnynt, ac rydym yn awyddus i glywed beth yn rhagor y gallem ei wneud.

Cwestiwn ymgynghori:

- Beth yn rhagor y gallem ei wneud i wella addasiadau rhesymol er mwyn gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n hygyrch i bobl anabl?

Gwelliannau i ffurflenni

79. Defnyddiwn ffurflenni i ddeall yr heriau a wynebwr gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio a byw'n annibynnol. Ar gyfer PIP, defnyddiwn ffurflen 'Sut mae'ch anabledd yn effeithio arnoch' PIP2W. Ar gyfer UC ac ESA, defnyddiwn ffurflenni 'Gallu i Weithio' UC50W ac ESA50W.
80. Gall fod yn anodd esbonio effeithiau cyflwr iechyd neu anabledd, fel y gwelir yn yr astudiaeth achos isod.

Astudiaeth achos: Yr angen i wella ein ffurflenni⁴⁶

Dywedodd James, sy'n ofalwr di-dâl, wrthym na fyddai angen i bobl ddibynnu cymaint ar gymorth gweithwyr meddygol proffesiynol wrth wneud cais am fudd-daliadau pe bai ein ffurflenni'n haws eu deall. Yn aml, gall y ffaith bod y ffurflenni'n canolbwyntio ar yr hyn na all unigolyn ei wneud olygu bod pobl yn teimlo'n fwy agored i niwed ac yn llai cadarnhaol. Nid oes dim byd i baratoi pobl ar gyfer pa mor gymhleth yw'r ffurflenni a'r hyn y maent yn gofyn i bobl ei ddisgrifio neu ei brofi. Dywedodd James y bu'n rhaid iddo lenwi 42 o dudalennau o wybodaeth, a gymerodd ddeuddydd llawn iddo. Bu'n rhaid iddo anfon llawer o negeseuon e-bost a chysylltu â sawl gweithiwr gofal iechyd proffesiynol er mwyn cael y dystiolaeth ategol angenrheidiol.

81. I fynd i'r afael â hyn, gwnaethom gomisiynu gwaith ymchwil i ddeall mwy am ffyrdd o wella ein ffurflenni⁴⁷. Rydym bellach yn gwneud llawer o'r newidiadau y gofynnodd pobl amdanynt. Yn dilyn y trafodaethau a gafwyd â phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd drwy'r gwaith ymchwil ac yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, rydym yn gwella ein ffurflenni. Er enghraifft, ar ffurflen PIP2, rydym yn gwneud y canlynol:
- Symleiddio cyfarwyddiadau ac ailadrodd llai o wybodaeth;
 - Ychwanegu enghreifftiau sy'n dangos sut i esbonio effaith cyflyrau penodol;

- Newid y disgrifiadau o rai gweithgareddau er mwyn dangos yn gliriach sut maent yn gysylltiedig â chyflyrau gwahanol;
 - Esbonio'n gliriach beth fydd yn digwydd ar ôl i'r ffurflen gael ei dychwelyd.
82. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, dywedodd rhai pobl wrthym ei bod yn well ganddynt ffurflenni ar-lein. Yn ystod pandemig y coronafeirws, gwnaethom gyflwyno gwasanaeth hawlio ar-lein newydd ar gyfer ESA Newydd. Rydym yn datblygu fersiwn gwbl ddigidol o ffurflen 'Gallu i Weithio' UC50W. Rydym hefyd yn datblygu ffurflen PIP2 ar-lein y gellir ei chadw a'i lanlwytho i'n systemau yn awtomatig. Rydym yn gobeithio y gallwn gynnig ffurflen ddigidol well PIP2W erbyn haf 2021. Byddwn bob amser yn cynnig opsiynau amgen i bobl na allant ddefnyddio ffurflenni ar-lein.

Prosesau cyfeirio a chymorth er mwyn helpu pobl i gael budd-daliadau

83. Ystyr cyfeirio yw sicrhau bod pobl yn ymwybodol o fudd-daliadau a gwasanaethau eraill a allai eu helpu, fel ei bod yn haws i bobl gael cymorth hanfodol. Gall cyfeirio fod yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd pobl yn hawlio budd-daliadau am y tro cyntaf. Rydym eisoes yn cynnig amrywiaeth o gymorth i 3.4 miliwn o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd o oedran gweithio, gan gynnwys drwy PIP ac UC⁴⁸. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, clywsom yr hoffai pobl gael mwy o wybodaeth a chymorth ymarferol, a chael eu cyfeirio fwy, er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion iechyd.
84. Isod ceir enghreifftiau o brosesau sydd ar waith a newidiadau sydd wrthi'n cael eu gwneud er mwyn iddi fod yn haws i bobl ddod o hyd i gymorth perthnasol a chael gafael arno:
- Gwella'r wybodaeth ar GOV.UK – Er mwyn helpu pobl i gael y budd-daliadau perthnasol ar-lein, rydym yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddod o hyd i wybodaeth ar GOV.UK. Gwyddom fod llawer o wybodaeth yno ac felly y gall pobl ei chael hi'n anodd gwybod ble i fynd i gael yr hyn sydd ei angen arnynt. Rydym yn gweithio gyda defnyddwyr GOV.UK, partneriaid lleol a sefydliadau eraill i wella'r wybodaeth a roddir gennym ar-lein.
 - Cyfeirio at wasanaethau eraill – Rydym am ganfod ffyrdd o gyfeirio pobl at gymorth a gwasanaethau eraill. Er enghraifft, yn y llythyr a anfonir at bobl gyda'u penderfyniad PIP, rydym yn cynnwys gwybodaeth am fudd-daliadau, cymorth a gwasanaethau eraill a allai fod o fudd iddynt. Hefyd, mae hyfforddwyr gwaith yn dod o hyd i broblemau a allai ei gwneud hi'n anos i bobl ddechrau gweithio, ac yn dod o hyd i help i fynd i'r afael â'r rhain, Gall hyn gynnwys cyfeirio pobl at wasanaethau a chymorth lleol ar gyfer problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, tai, rheoli dyled a llesiant.
 - Rheolau Arbennig ar gyfer Salwch Angheuol –Lle y bydd pobl yn nesáu at ddiwedd eu hoes, mae'n bwysig bod y broses o sicrhau cymorth mor syml â phosibl. Ers diwedd 2020, rydym wedi bod yn cynnig gwiriad budd-daliadau llawn drwy wasanaeth ffôn PIP i bobl sydd wedi gwneud cais am PIP drwy'r Rheolau Arbennig ar gyfer Salwch Angheuol. Mae hyn yn helpu i ganfod y cymorth ariannol y gall fod gan bobl hawl i'w gael.
 - Cymorth Ychwanegol drwy Uwch-arweinwyr Cymorth Uwch i Gwsmeriaid (ACSSLs) – Yn 2020, gwnaethom gyflwyno rhwydwaith o 31 o ACSSLs. Mae'r rolau hyn wedi'u lleoli ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Pan fydd angen cymorth ychwanegol ar bobl i gael ein budd-daliadau neu ddefnyddio ein gwasanaethau, bydd ACSSLs yn eu helpu a'u cyfeirio at amrywiaeth o ddarpariaeth leol.
 - Cymorth drwy Help i Hawlio – Ers mis Ebrill 2019, rydym wedi ariannu⁴⁹ Cyngor ar Bopeth a Citizens Advice Scotland i gynnal rhaglen Help i Hawlio yn llwyddiannus⁵⁰. Fel y gwelir yn yr astudiaeth achos isod, mae 'Help i Hawlio' yn cynnig cymorth annibynnol ac ymarferol wedi'i deilwra er mwyn helpu pobl i hawlio UC a chael eu taliad llawn cyntaf ar amser.

Astudiaeth achos: Cymorth drwy Help i Hawlio⁵¹

Roedd Pauline wedi bod yn cael ESA yn seiliedig ar gyfraniadau, a ddaeth i ben ar ôl 12 mis. Ffoniodd linell gymorth ESA a dywedwyd wrthi am wneud cais am UC ar-lein. Mae gan Pauline iechyd meddwl gwael ac mae'n ofalwr i'w thad anabl. Mae angen cymorth ar Pauline i reoli arian a chyllidebu. Hefyd, mae'n ei chael hi'n anodd defnyddio'r rhyngwrdd ac roedd yn ansicr o'r hyn roedd ganddi hawl i'w gael, felly ni allai ddechrau gwneud cais am UC ar-lein.

Roedd y sefyllfa'n gwneud ei gorbryder yn waeth. Llwyddodd un o ymgynghorwyr Help i Hawlio i roi cymorth i Pauline, edrych i weld beth roedd ganddi hawl i'w gael a'i helpu drwy'r broses gwneud cais. Rhoddodd yr ymgynghorydd wybodaeth i Pauline er mwyn iddi allu gwneud yn siŵr bod ei thaliad UC cyntaf yn gywir, yn ogystal â rhif i'w ffonio pe bai ganddi unrhyw bryderon ar ddechrau'r broses gwneud cais. Roedd Pauline yn ddiolchgar iawn am y cymorth a gafodd i hawlio UC.

85. Er ein bod wedi gwneud cynnydd, gwyddom fod mwy o waith i'w wneud. Rydym am fynd ymhellach i ystyried gwahanol anghenion pobl, ac ymateb iddynt, a gwella profiadau pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Hoffem glywed sut y gall prosesau cyfeirio ein helpu i wneud hyn yn fwy effeithiol.
86. Yn benodol, gwyddom fod gallu cael triniaeth iechyd briodol yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i fyw bywydau llawn ac annibynnol. Gall problemau iechyd ei gwneud hi'n anos i bobl fanteisio ar gymorth cyflogaeth, yn ogystal â dechrau gweithio ac aros mewn gwaith. Oherwydd hyn, rydym yn arbennig o awyddus i wella'r broses o gyfeirio pobl at wasanaethau iechyd, fel ei bod yn haws i bobl gael triniaeth.

Cwestiwn ymgynghori:

- Pa wybodaeth, cyngor neu brosesau cyfeirio ychwanegol sydd eu hangen? Sut y dylid darparu hyn?

Mynd Ymhellach

Profi cymorth eirioli

87. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, clywsom am bŵer eiriolaeth ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae eiriolaeth yn golygu mwy na chyfeirio; mae'n golygu cefnogi pob unigolyn er mwyn helpu i sicrhau y caiff ei anghenion eu diwallu. Gall llawer o bobl ddefnyddio'r system budd-daliadau'n annibynnol neu gael cymorth gan ffrindiau, teulu, elusennau neu rwydweithiau cymorth eraill⁵². Gall pobl hefyd ddefnyddio Help i Hawlio ar gyfer UC. Yn achos pobl nad yw'r cymorth hwnnw ar gael iddynt, rydym am brofi gwasanaeth eirioli fel y gall pobl gael y lefel gywir o gymorth a gwybodaeth y tro cyntaf. Lle bo eiriolaeth eisoes ar gael o ffynonellau eraill, rydym am ystyried sut y gallwn sicrhau bod pawb y mae angen cymorth arnynt yn gallu cael yr un lefel o wasanaeth⁵³.
88. Mae'r dystiolaeth yn ategu'r hyn rydym wedi'i glywed yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd: sef y gall cymorth ychwanegol i helpu pobl i ddefnyddio'r system budd-daliadau helpu i newid bywydau pobl⁵⁴. Er mwyn ein helpu i ddylunio a phrofi cymorth eirioli, rydym am ystyried ar ba ffurf y gallai fod. Fel rhan o'n gwaith profi, byddwn yn ystyried a fyddai'n ymarferol rhoi cymorth eirioli ac a fyddai hyn yn cynnig gwerth am arian.
89. Rydym yn cydnabod bod gwella ein gwasanaethau yn rhan bwysig o wneud y system budd-daliadau yn haws ei defnyddio. Mae Pennod 3 yn ystyried yr hyn y gallem ei wneud i wella profiad pobl anabl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Nid dewis arall yn lle'r gwelliannau hyn fyddai eiriolaeth. Yn hytrach, byddai'n fath ychwanegol o gymorth i bobl y mae ei angen arno.

Ar ba ffurf y gallai eiriolaeth fod?

90. Rydym yn awgrymu y gallai eiriolaeth fod yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

- Gallai eiriolaeth helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth a rhoi cymorth ymarferol (megis llenwi ffurflenni) ond byddai hefyd yn helpu pobl i gael dweud eu dweud ar faterion sy'n effeithio arnynt.
- Ni fyddai'r cymorth hwn ar gael i bawb; dim ond i'r bobl sydd â'r angen mwyaf amdano y byddai'n cael ei gynnig. Gallai fod ar gyfer pobl nad ydynt eisoes yn cael cymorth gan elusennau a sefydliadau eraill. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai eiriolaeth fod o fudd i bobl anabl yn arbennig⁵⁵ ond na fyddai angen iddi fod wedi'i chyfyngu i bobl anabl yn unig. Gellid ei chynnig hefyd i bobl eraill na allant ganfod eu ffordd drwy'r system budd-daliadau heb gymorth ychwanegol.
- Dylai gael ei darparu mewn ffordd sy'n sicrhau ei bod yn cynnig cyngor y gall pobl ymddiried ynddo.
- Ni ddylai eiriolaeth ddyblygu cymorth sydd eisoes ar gael. Yn hytrach, dylai lenwi bylchau yn y ddarpariaeth. Dylai ategu'r cymorth a ddarperir gan sefydliadau eraill.
- Dylai fod yn ddigon hyblyg i gefnogi pobl pryd bynnag y bydd angen help arnynt, ac nid dim ond ar ddechrau eu hawliad. Bydd hyn yn helpu i ddiwallu anghenion hawlwyr sy'n agored i niwed.
- Dylai eiriolaeth geisio helpu pobl i gyflawni canlyniadau penodol yn hytrach na bod yn benagored, er mwyn iddi helpu pobl i ddod yn annibynnol ar y gwasanaeth⁵⁶.
- Gallai eiriolaeth wneud mwy na helpu pobl i ddefnyddio'r system budd-daliadau yn unig. Gallai hefyd roi cymorth i fynd i'r afael â materion ehangach ym mywydau pobl (fel cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal, a thai) y gwyddom eu bod yn gallu effeithio ar allu pobl i reoli eu cyflwr iechyd neu eu hanabledd.

91. Hoffem glywed gan bobl a all gael budd o eiriolaeth a'u cynrychiolwyr er mwyn ein helpu i ddatblygu'r prawf hwn. Rydym yn awyddus i glywed barn pobl ar yr egwyddorion rydym wedi'u cynnig a hoffem ddeall a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried.

Cwestiwn ymgynghori:

- Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion rydym wedi'u nodi ar gyfer cymorth eirioli?
- Sut y gallem ganfod pobl a fyddai'n cael budd o eiriolaeth?
- Pa fathau o gymorth y byddai pobl am ei gael, ac yn ei ddisgwyl, drwy eiriolaeth?

Ystyried cymorth ar gyfer anghenion symudedd

92. Mae'r gallu i symud o gwmpas a gwneud siwrneiau yn rhan allweddol o fyw'n annibynnol. Rydym yn cynnig lwfansau symudedd drwy PIP a DLA ar hyn o bryd. Gall pobl ddewis gwario'r lwfansau hynny sut bynnag y dymunant.
93. Un ffordd boblogaidd o wario lwfansau symudedd yw drwy gynllun annibynnol Motability. Mae cynllun Motability, a gaiff ei weithredu gan elusen annibynnol Motability, yn helpu pobl i ddiwallu eu hanghenion symudedd a theithio. Mae'n galluogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i ddefnyddio eu lwfansau PIP/DLA ar gyfraddau uwch i rentu car fforddiadwy newydd, cerbyd hygyrch i gadeiriau olwyn, sgwter neu gadair olwyn fodur ar brydles. Yn 2020, roedd 1.8 miliwn o bobl yn cael taliadau symudedd Uwch PIP neu DLA ac yn gymwys i fod yn rhan o gynllun Motability. Yn y flwyddyn honno, roedd 635,000 o gwsmeriaid yn defnyddio'r cynllun⁵⁷.

94. Mae'r elusen sy'n cynnal cynllun Motability yn cael budd o ystod o gonsesiynau treth⁵⁸ a'r gallu i drosglwyddo lwfansau symudedd yn uniongyrchol⁵⁹. Mae hyn yn golygu y gall gynnig prydles sydd tua 44% yn rhatach nag y byddent fel arall⁶⁰. Ar hyn o bryd, mae 34% o'r bobl sy'n gymwys i ymuno â chynllun Motability yn gwneud hynny⁶¹. Mae'r cymorth a roddir gan y cynllun i'w weld yn yr astudiaeth achos isod. Hoffem glywed sut mae pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn defnyddio eu taliadau symudedd PIP a DLA, yn enwedig pobl nad ydynt yn defnyddio Motability, ac a allem wneud mwy er mwyn helpu i ddiwallu anghenion symudedd pobl.

Astudiaeth achos: Cynllun Motability⁶²

Mae gan Nazmin, sy'n 37 oed, Arthrogryposis Amlbleth Cynhenid. Cyflwr sy'n achosi gwendid yn y breichiau a'r coesau yw hwn. Penderfynodd Nazmin ddefnyddio ei lwfans symudedd i ymuno â chynllun Motability ar ôl iddi fynd i ganolfan asesiadau gyrru ranbarthol i weld pa addasiadau a fyddai'n ei galluogi i yrru car ar ei phen ei hun.

"Cyn i mi glywed am Motability, byddai'n rhaid i mi deithio mewn tacsï, ond nid oedd hyn yn ddelfrydol oherwydd bydden nhw'n aml yn hwyr. Y profiad hwn a roddodd y cymhellant i mi i lwyddo yn fy mhrawf gyrru. Awgrymodd yr ymgynghorwyr yn y ganolfan asesiadau gyrru pa addasiadau a fyddai'n addas i mi a chefais wybod am gynllun Motability a'r holl gymorth y gallai'r cynllun a'r elusen ei roi i mi."

Cafodd Nazmin grant gan Motability er mwyn gwneud addasiadau i'w cherbyd newydd. Mae ganddi declyn codi i'w helpu i symud ei chadair olwyn fodur i mewn ac allan o'r cerbyd, a thinbren modur a rheolyddion llaw.

"Mae elusen a chynllun Motability wedi bod yn ddim llai na bendith, ac mae hynny'n wir o hyd. Mae'n anodd dros ben cyfleu cymaint mae fy ngherbyd wedi fy helpu dros y blynyddoedd, a hyd heddiw. Dechreuais ddefnyddio'r cynllun yn 2004 ac, ers hynny, mae wedi fy ngalluogi i fynd i'r brifysgol a ffynnu yn fy astudiaethau. Mae'n fy ngalluogi i fynd allan i ymweld â theulu a ffrindiau, a mynd i apwyntiadau yn yr ysbyty ac i gyfweiliadau. Mae'n fy ngalluogi i weithio, i gyfrannu at gymdeithas a theimlo'n rhan ohoni, a byw bywyd llawn boddhad."

Cwestiwn ymgynghori:

- A ydym yn diwallu anghenion symudedd pobl anabl? Esboniwch eich rhesymau.

Crynodeb

95. Rydym wedi gwrandao ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, drwy arolygon a gwaith ymchwil. Er ei bod yn hawdd i'r rhan fwyaf o bobl ddefnyddio ein gwasanaethau⁶³, gwyddom y gall rhai pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd ei chael hi'n anodd cael gafael ar fudd-daliadau a defnyddio gwasanaethau. Oherwydd hyn, rydym am wneud mwy er mwyn helpu pobl i ganfod eu ffordd drwy'r system budd-daliadau a chael cymorth ehangach. Mae hyn yn cynnwys gwella'r broses o gyfeirio pobl at wasanaethau eraill, megis tai ac iechyd, a phrofi cymorth eirioli.
96. Credwn y gallai gwella'r broses gyfeirio a chynnig cymorth eirioli ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r system budd-daliadau a helpu i ddiwallu eu hanghenion ehangach. Gan fod gallu symud o gwmpas a theithio'n rhwydd yn angen pwysig i lawer o bobl anabl, rydym hefyd am ddeall beth yn rhagor y gallwn ei wneud er mwyn helpu i ddiwallu anghenion symudedd pobl.

Pennod 2: Gwella Cymorth Cyflogaeth

Crynodeb o'r Bennod

Mae cynnydd da wedi cael ei wneud mewn perthynas â chyflogaeth i bobl anabl ers Papur Gwyrdd Gwella Bywydau 2016⁶⁴. Erbyn diwedd 2019, roedd nifer a chyfradd y bobl anabl a oedd mewn gwaith ar eu huchaf ers i gofnodion tebyg ddechrau cael eu cadw yn 2013⁶⁵. Fodd bynnag, rydym am fynd ymhellach er mwyn helpu mwy o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd baratoi ar gyfer gwaith, dechrau gweithio ac aros a llwyddo mewn gwaith, lle bo hynny'n addas iddyn nhw. Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried:

- Gweithredu nawr drwy ymyrryd yn gynnar. Mae hyn yn golygu helpu pobl i aros mewn gwaith a rhoi cymorth dychwelyd i'r gwaith yn gynharach er mwyn lleihau'r risg y bydd pobl yn ddi-waith yn y tymor hir.
- Sut i sicrhau bod ein canolfannau gwaith yn lleoedd croesawgar ac atyniadol, er mwyn annog mwy o bobl i fanteisio ar ein cymorth cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys ffordd newydd o weithredu mewn perthynas ag amodoldeb. Hefyd, mae angen i'n staff fod yn arbenigwyr ar roi cymorth cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, a chyfeirio'r bobl hynny at gymorth o'r fath.
- Personoli cymorth cyflogaeth, gan gydnabod nad yw'r un ateb yn addas i bawb. Byddwn hefyd yn gofyn beth yn rhagor y gallwn ei wneud i annog pobl yn y Grŵp Cymorth/LCWRA i fanteisio ar ein cymorth cyflogaeth gwirfoddol.

Cyflwyniad

97. Mae gan waith ran hanfodol i'w chwarae er mwyn cefnogi iechyd meddwl ac iechyd corfforol da⁶⁶. Gall hefyd roi mwy o sicrwydd ariannol a galluogi pobl i fyw'n annibynnol. Gall gwella canlyniadau cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd helpu i ddatgelu eu talentau, hybu cyfle cyfartal a chyfrannu at yr economi. Dyma pam rydym am leihau'r gwahaniaeth rhwng cyfradd gyflogaeth pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, sef y bwlch cyflogaeth i bobl anabl.
98. Yn 2017, gwnaethom bennu nod o sicrhau bod miliwn yn rhagor o bobl anabl mewn gwaith erbyn 2027⁶⁷. Yn y tair blynedd ers hynny, mae nifer y bobl anabl mewn gwaith wedi cynyddu 800,000⁶⁸. Hefyd, mae cyfradd gyflogaeth pobl anabl wedi cynyddu 8.4% ers i gofnodion tebyg ddechrau cael eu cadw yn 2014⁶⁹. Nawr, rydym am ddwysáu ein hymdrechion i roi'r cymorth sydd ei angen ar bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, pan fydd ei angen arnynt. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r nod heriol o sicrhau bod miliwn yn rhagor o bobl anabl mewn gwaith ac, ar ôl gwneud hynny, byddwn yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar y llwyddiant hwn.
99. Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried cymorth cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Gwyddom y gall ffactorau eraill, megis profiadau pobl o asesiadau ar gyfer budd-daliadau a strwythur y system budd-daliadau, effeithio ar b'un a fydd pobl yn dechrau gweithio ac yn aros mewn gwaith ai peidio, a sut y byddant yn gwneud hynny. Caiff y ffactorau eraill hyn eu hystyried ym Mhenodau 4 a 5.
100. Er mwyn gwella canlyniadau cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, rydym am helpu pobl ddi-waith i dechrau gweithio ac aros a llwyddo mewn gwaith priodol, lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni ein nodau, mae yr un mor bwysig ein bod yn helpu pobl anabl a

phobl â chyflyrau iechyd sydd mewn gwaith i aros mewn gwaith. Er mwyn gweld y cyd-destun llawn, dylid darllen y bennod hon ochr yn ochr ag ymgynghoriad Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb⁷⁰. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys ystod o gynigion er mwyn helpu mwy o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i aros mewn gwaith. Dengys tystiolaeth pa mor bwysig yw hi i gyflogwr helpu cyflogai sy'n absennol am gyfnod hir oherwydd salwch neu sy'n wynebu risg y bydd hynny'n digwydd. Mae'n hanfodol rhoi mwy o gymorth i gyflogeion a chyflogwyr, a hynny'n gynt, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn colli eu swyddi oherwydd salwch⁷¹.

101. Yn yr ymateb i ymgynghoriad *Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb* y byddwn yn ei gyhoeddi cyn bo hir gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, byddwn yn nodi ein strategaeth ar gyfer atal pobl rhag colli swyddi oherwydd salwch. Yn yr ymateb hwn, byddwn yn esbonio sut rydym yn cynnig gwella gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar iechyd, gwaith ac anabledd. Mae hyn yn cynnwys gwaith gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i arwain canllawiau newydd ar sut i reoli absenoldeb oherwydd salwch a helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith.
102. Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried ymyriadau cynnar. Rydym am roi cymorth dychwelyd i'r gwaith yn gynharach pan fydd pobl yn gwneud cais am fudd-daliadau iechyd ac anabledd i bobl ddi-waith, drwy ganolfannau gwaith a'n rhaglenni cymorth cyflogaeth, er mwyn lleihau'r risg o ddiweithdra hirdymor.
103. Byddwn hefyd yn ystyried beth yn rhagor y gallwn ei wneud i sicrhau y bydd pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn teimlo'n gyfforddus yn manteisio ar ein cymorth cyflogaeth. Byddwn yn ystyried sut i wneud ein canolfannau gwaith yn lleoedd mwy croesawgar ac atyniadol. Byddwn yn esbonio'r ffordd newydd y byddwn yn defnyddio amodoldeb ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd sy'n hawlio budd-daliadau i bobl ddi-waith⁷². Hefyd, mae angen i'n staff fod yn arbenigwyr ar roi cymorth cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, a chyfeirio'r bobl hynny at gymorth o'r fath, er mwyn meithrin eu hymddiriedaeth.
104. Gall dechrau gweithio ac aros mewn gwaith fod yn arbennig o anodd i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Gwyddom nad yw'r un ateb yn addas i bawb ac y bydd gan bobl anghenion cymorth gwahanol. Yn ddiweddarach yn y bennod hon, byddwn yn nodi'r amrywiaeth eang o gymorth cyflogaeth wedi'i deilwra sydd ar gael er mwyn helpu i ddiwallu anghenion penodol pobl. Mae hyn yn cynnwys dulliau o roi cymorth sy'n cydgysylltu gwasanaethau cyflogaeth ac iechyd. Byddwn hefyd yn gofyn beth yw'r ffordd orau o gynnig cymorth gwirfoddol i bobl yng Ngrŵp Cymorth ESA a phobl sy'n hawlio UC ac sydd ag LCWRA.

Ymyrryd yn Gynnar

105. Mae'n hollbwysig atal pobl rhag rhoi'r gorau i weithio. Lle y bydd pobl yn colli swyddi oherwydd salwch, mae'n hanfodol sicrhau y gall pobl gael gafael ar gymorth priodol yn gyflym iawn. Gwyddom mai po hiraf y bydd rhywun yn ddi-waith, y mwyaf fydd y risg i'w iechyd a'i lesiant hirdymor⁷³. Yn ogystal ag ystyried ymyriadau cynnar, gwell canllawiau a mwy o gymorth er mwyn helpu pobl i aros mewn gwaith, hoffem bennu newidiadau i raglenni Mynediad at Waith a Hyderus o ran Anabledd a fydd yn cefnogi cyflogwyr a chyflogeion. Rydym hefyd am ystyried cymorth cynharach a mwy cynhwysfawr drwy ein canolfannau gwaith i bobl nad ydynt yn gweithio mwyach oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd. Gallai'r cymorth hwn gael ei roi cyn i bobl gael WCA. Lle y gall pobl weithio, gallai rhoi'r cymorth ychwanegol hwn eu galluogi i ddychwelyd i gyflogaeth briodol.

Gweithio i gefnogi cyflogwyr

106. Mae cyflogwyr yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i aros mewn gwaith. Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i ymgynghoriad Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb ar y cyd â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar roi gwell gwybodaeth a chymorth i gyflogwyr a chyflogeion, a hynny'n gynharach, er mwyn helpu i atal pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd rhag colli eu swyddi oherwydd salwch.

Mae'r ymateb yn esbonio sut y byddwn yn egluro ac yn gwella'r wybodaeth, y cyngor a'r canllawiau a roddir i gyflogwyr ar iechyd, gwaith ac anabledd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth gwybodaeth a chyngor cenedlaethol i gyflogwyr.

107. Hefyd, bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn arwain canllawiau newydd ar reoli absenoldeb oherwydd salwch a dychwelyd i'r gwaith. Byddwn yn cymryd camau i'w gwneud yn haws i bobl gael gafael ar wasanaethau iechyd galwedigaethol⁷⁴, yn enwedig pobl sy'n gweithio mewn busnesau bach a chanolig.
108. Gwyddom fod y gyfran o bobl â chyflwr iechyd meddwl yn tyfu⁷⁵. Rydym wedi bod yn gweithio er mwyn helpu cyflogwyr i wella iechyd meddwl yn y gweithle. Mae hyn wedi cynnwys cyfrannu at gynllun y Llywodraeth⁷⁶ er mwyn atal effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl, eu lliniaru ac ymateb iddynt. Hefyd, rydym yn parhau i helpu cyflogwyr i gymryd camau i wella iechyd meddwl yn y gwaith drwy Gyngor Arwain Thriving at Work. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael drwy wefan Mental Health at Work⁷⁷, sy'n helpu cyflogwyr i reoli iechyd meddwl eu staff.
109. Mae Mynediad at Waith yn rhoi cymorth ymarferol ac ariannol. Ei nod yw helpu pobl i oresgyn rhwystrau a thalu'r costau ychwanegol y gall pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd eu hwynebu yn y gwaith, y tu hwnt i'r rhai a delir drwy wneud addasiadau rhesymol Mae'r cymorth hwn i'w weld yn yr astudiaeth achos isod. Gall gynnwys asesiadau yn y gweithle, gweithwyr cymorth, cymhorthion a chyfarpar arbenigol a chostau teithio i'r gwaith.

Astudiaeth achos: Cymorth a roddir gan Mynediad at Waith⁷⁸

Mae Deborah yn profi sensitifrwydd i olau, meigrin a nifer o gyflyrau cyhyrsgerbydol. Mae defnyddio cyfarpar a gyflenwyd drwy Mynediad at Waith wedi galluogi Deborah i weithio'n effeithiol mewn swyddfa.

"Dewisais wneud cais ar-lein ac roedd yn broses syml i'w chwblhau. Pan gafodd Mynediad at Waith fy nghais, cafodd Ymgynghorydd ei glustnodi i mi ac fe gysylltodd â fi i drafod fy nghais ymhellach ac esbonio'r broses gam wrth gam.

Mae defnyddio cyfarpar a gefais drwy Mynediad at Waith wedi helpu'n aruthrol.

Rwy'n defnyddio bysellfwrdd hollt ergonomig a llygoden rollo sy'n fy ngalluogi i ddefnyddio fy nghyfrifiadur heb waethgu'r boen yn fy arddwrn a fy llaw. Mae gen i gynhalwyr breichiau sy'n mynd yn sownd i fy nesg; mae'r rhain yn fy helpu i gynnal ystum fy nghorff ac yn lleihau'r pwysau ar fy arddyrnau.

Mae gen i gadair ergonomig sy'n cynnal fy nghefn; ac mae'r cynhalydd i fy ngwddf yn fy ngalluogi i bwyo'n ôl ac ymestyn o bryd i'w gilydd yn ystod y dydd.

Er mwyn fy ngalluogi i weithio gartref drwy Gynllun Cynnig Cyfunol Mynediad at Waith, cefais Ddesg Eistedd-Sefyll Drydan sy'n fy ngalluogi i sefyll neu eistedd i weithio.

Mae defnyddio'r cyfuniad hwn o gyfarpar arbenigol yn sicrhau fy mod yn gweithio mewn ystum cyfforddus, ac yn gallu eistedd neu sefyll yn ôl yr angen."

Dechreuodd Deborah weithio fel Ymgynghorydd Gwasanaethau Cwsmeriaid i Manpower yn EON yn 2018. Mae bellach yn gweithio fel Rheolwr Cyfrifon yn EON.

110. Gwyddom o'r digwyddiadau Papur Gwyrdd y gall Mynediad at Waith fod yn fendith i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Fodd bynnag, dywedodd rhai pobl fod y broses gwneud cais yn anodd ac y gall gymryd gormod o amser i'r cymorth gael ei roi. Rydym yn ymrwymedig i wneud Mynediad at Waith yn wasanaeth cwsmeriaid cwbl ddigidol sy'n arloesol, yn weladwy ac yn cynnig profiad gwell i gwsmeriaid. Rydym eisoes yn gwneud gwelliannau digidol a fydd yn cyflymu'r broses dalu ac yn cwtogi taith cwsmeriaid.

111. Rydym yn gweithio gyda phobl anabl, a sefydliadau ac elusennau i bobl anabl drwy Fforwm Rhanddeiliaid Mynediad at Waith er mwyn datblygu Pasbort Mynediad at Waith y byddwn yn ei dreialu yn ystod 2021. Bydd y pasbort yn helpu pobl anabl wrth iddynt adael byd addysg neu'r lluoedd arfog, neu ddechrau gweithio am y tro cyntaf. Bydd yn ddogfen fyw a fydd yn nodi anghenion deiliad y pasbort er mwyn helpu'r cyflogwr i'w deall a rhoi cymorth perthnasol yn y gweithle. Bydd hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd ar yn lleihau'r angen am asesiadau niferus yn y gweithle wrth newid rolau neu weithio ar gontractau am gyfnod penodol.
112. Er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd i bobl anabl allu penderfynu ble y byddant yn gweithio, rydym wedi cyflwyno cynnig newydd a fydd yn golygu bod modd rhoi cymorth Mynediad at Waith mewn mwy nag un lleoliad. Gan gydnabod y gall llawer o bobl anabl fod yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd i weithio'n llawrydd neu fel contractwyr, rydym wedi cyflwyno proses gwneud cais hyblyg newydd. Bydd y broses gwneud cais hyblyg yn lleihau biwrocratiaeth ac yn cael gwared ar yr angen am geisiadau Mynediad at Waith niferus wrth symud rhwng contractau.
113. Nod rhaglen Hyderus o ran Anabledd (DC) yw helpu pobl anabl i ddechrau gweithio ac aros a llwyddo mewn gwaith. Gwnaiff hyn drwy helpu cyflogwyr i feddwl yn wahanol am anabledd a chymryd camau i wella'r ffordd y maent yn recriwtio a chadw cyflogaeth anabl⁷⁹. Rydym yn parhau i gynyddu nifer y cyflogwyr sydd wedi ymuno â chynllun Hyderus o ran Anabledd. Ym mis Ebrill 2019, roedd 11,500 o gyflogwyr wedi ymuno. Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, roedd y ffigur hwn wedi cynyddu mwy na 20,000. Rydym yn gweithio gyda phobl i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd drwy gyfathrebu, cylchlythrau, cyfryngau cymdeithasol a grwpiau rhwydwaith (gan gynnwys arweinwyr DC, Grŵp Arwain Busnes DC a Grŵp Ymgynghorwyr Proffesiynol DC) er mwyn annog cyflogwyr ar hyd eu taith Hyderus o ran Anabledd a'u helpu i symud ymlaen drwy'r cynllun. Rydym hefyd yn cymryd camau i wella rhaglen Hyderus o ran Anabledd drwy ei gwneud hi'n haws i gyflogwyr ymuno a rhoi eu gwybodaeth ar-lein.

Cwestiwn ymgynghori:

- Beth yn rhagor y gallem ei wneud i helpu cyflogwyr ymhellach i wella cyfleoedd gwaith i bobl anabl drwy raglenni Mynediad at Waith a Hyderus o ran Anabledd?

Rhoi mwy o gymorth cyn yr Asesiad Gallu i Weithio

114. Mae rhagolygon diweddar yn tybio y bydd y pandemig yn arwain at lefelau uwch o anweithgarwch economaidd, gan gynnwys anweithgarwch sy'n gysylltiedig ag iechyd. O ganlyniad i hynny, rhagwelir y bydd 300,000 yn rhagor o bobl yn hawlio UC â LCWRA ac ESA Newydd o 2022/23 ymlaen⁸⁰. Gellir disgwyl i hyn gynyddu'r galw am WCAs. Fodd bynnag, mae'r pandemig hefyd wedi arwain at newid a allai fod yn un parhaol tuag at weithio gartref, a all gynnig cyfleoedd newydd i lawer o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.
115. Rydym am fynd i'r afael â'r twf a ragwelir mewn anweithgarwch sy'n gysylltiedig ag iechyd, oherwydd gwyddom po hiraf y bydd rhywun yn ddi-waith, y mwyaf fydd y risg i'w iechyd a'i lesiant hirdymor⁸¹. Er mwyn helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn ddi-waith yn y tymor hir, rydym am ystyried cynnig cymorth dychwelyd i'r gwaith yn gynharach. Byddai'r cymorth hwn yn mynd y tu hwnt i'r 'Sgwrs Iechyd a Gwaith' bresennol y bydd pobl yn ei chael cyn i'w WCA gael ei gynnal.
116. Yn achos pobl sydd wedi rhoi'r gorau i weithio yn ddiweddar oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd, gallai canolfannau gwaith eu helpu i ystyried cyfleoedd cyflogaeth priodol a chodi ymwybyddiaeth o gymorth yn y gwaith. Gallai hyn olygu mwy o gymorth gan hyfforddwr gwaith rhywun, a hynny'n amlach ac yn gynharach yn yr hawliad. Byddai'r cymorth hwn wedi'i deilwra i anghenion pob unigolyn. Gallai gael ei roi gan hyfforddwr gwaith ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag Ymgynghorydd Gwaith i'r Anabl. Caiff hyn ei ystyried ymhellach ym Mhennod 4, lle y byddwn yn ystyried trafodaeth ar wahân am gyflogaeth ac iechyd.

Cwestiwn ymgynghori:

- Sut y gallwn helpu pobl sydd wedi rhoi'r gorau i weithio i ganfod ac ystyried gwaith amgen addas cyn eu WCA?

Sicrhau bod Canolfannau Gwaith yn Lleoedd Croesawgar, Atyniadol ac Arbenigol

117. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud gwaith ymchwil er mwyn ein helpu i ddeall beth all fod yn atal pobl rhag manteisio ar y cymorth a gynigir gennym. Drwy'r gwaith ymchwil hwn⁸², ac yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, dywedodd rhai pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd eu bod yn poeni y gallai cymryd rhan mewn cymorth cyflogaeth neu ddechrau gweithio effeithio ar eu hawliad am fudd-dal neu arwain at gosb⁸³.
118. Drwy UC, gall pobl ddechrau mewn swydd newydd a chynyddu eu henillion yn raddol heb fod rhaid iddynt roi'r gorau i gael y budd-dal. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd roi cynnig ar waith heb boeni am ostyngiad sydyn mewn incwm.
119. Yn yr adran hon, byddwn yn ystyried sut i ennyn ymddiriedaeth a diddordeb drwy ein canolfannau gwaith. Byddwn hefyd yn ystyried rôl amodoldeb ac arbenigedd ein staff.

Rhoi dull gweithredu newydd ar waith mewn perthynas ag amodoldeb.

120. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, rydym wedi clywed bod pobl yn teimlo'n nerfus ynglŷn â chymryd rhan mewn cymorth cyflogaeth. Amodoldeb yw'r gofyniad i berson wneud gweithgareddau penodol a fydd yn ei helpu i baratoi ar gyfer gwaith a dechrau gweithio os yw'n gallu gwneud hynny. Caiff y gweithgareddau hyn eu teilwra yn unol â galluoedd ac amgylchiadau'r person, a bydd y gofynion yn amrywio yn dibynnu ar y grŵp neu'r gyfundrefn y byddant yn perthyn iddo/iddi ar y pryd. Mae'n bosibl y gofynnir i bobl sy'n aros am WCA chwilio am waith wrth dderbyn UC neu baratoi ar gyfer gwaith wrth gael ESA. Dim ond cymryd rhan mewn gweithgareddau paratoi ar gyfer gwaith y bydd angen i'r bobl y penderfynir bod ganddynt LCW (neu WRAG yn achos ESA) ei wneud; ac ni fydd gofyn i'r bobl y penderfynir bod ganddynt LCWRA (Grŵp Cymorth yn achos ESA) gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gorfodol sy'n gysylltiedig â gwaith.
121. Lle y bydd gweithgareddau'n ofynnol, bydd angen eu cwblhau er mwyn cael cymorth ariannol. Fodd bynnag, ni fyddwn byth yn rhoi cosb os bydd rhywun yn dangos rheswm da dros beidio â chydymffurfio â'r gofyniad hwn. Dylai'r gweithgareddau bob amser fod yn rhesymol a dylent ystyried anabledd, cyflwr iechyd ac amgylchiadau eraill person.
122. Ar ôl gwrandao ar farn pobl, rydym wedi cyflwyno dull gweithredu newydd mewn perthynas ag amodoldeb ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:
- Pobl sy'n hawlio ESA yn y WRAG;
 - Pobl sy'n hawlio UC na phenderfynwyd bod ganddynt LCW; neu
 - Pobl sy'n hawlio UC neu ESA, cyn eu WCA.
123. Ym mis Medi 2019, gwnaethom ddechrau cynnal profion i weld a fyddai newid y ffordd y cytunir ar weithgareddau wella'r berthynas rhwng person a'i hyfforddwr gwaith. Y nod yw sicrhau y gellir cael sgwrs onest ac agored am yr hyn y gall person ei wneud. Rydym am i hawlwyd deimlo'n rhan o'u gweithgaredd, deall pam ei fod yn werth chweil a'i gwblhau hyd eithaf eu gallu, fel eu bod yn fwy tebygol o baratoi ar gyfer gwaith a dechrau gweithio lle bo modd.
124. Gall hyfforddwyr gwaith ddewis peidio â gosod gofynion gorfodol os byddant yn teimlo bod hyn yn briodol i amgylchiadau'r hawllydd dan sylw ond, yn hytrach na hynny, cânt eu hannog i bennu camau gwirfoddol y gallai'r hawllydd eu cymryd i symud ymlaen ar ei daith gyflogaeth. Er enghraifft,

gallai'r camau hyn gynnwys llunio CV neu chwilio am swyddi addas ar-lein. Gan ddefnyddio eu disgresiwn, bydd hyfforddwyr gwaith ond yn gosod gofynion gorfodol os a phan fydd eu hangen.

125. Un o'r rhesymau roedd y dull gweithredu hwn mewn perthynas ag amodoldeb yn effeithiol yn y profion oedd am fod hyfforddwyr gwaith yn gallu cynnal gweithgareddau wedi'u teilwra'n fwy er mwyn helpu pobl i baratoi ar gyfer gwaith a symud ymlaen yn y gwaith hwnnw. Roedd hyfforddwyr gwaith o'r farn eu bod yn gallu meithrin dealltwriaeth well o'r ffordd orau o gefnogi pobl drwy'r dull gweithredu newydd. Roeddent yn gallu defnyddio gweithgareddau gwirfoddol yn y ffordd orau i ymestyn ac annog pobl, gan ddefnyddio gofynion gorfodol lle bo angen er mwyn sicrhau bod pobl yn parhau i ymwneud â'u cymorth cyflogaeth. Hefyd, gwnaeth y dull newydd hwn leihau'r risg o gosbau. Rydym bellach wedi cyflwyno'r dull hwn yn genedlaethol, yn amodol ar werthusiadau parhaus. Byddwn yn parhau i fireinio ein dull yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn.

Profi cymorth newydd drwy Swyddfeydd Model Iechyd

126. Rydym am annog pobl a all fanteisio ar gymorth cyflogaeth i wneud hynny. Gwyddom fod pobl yn gwerthfawrogi cyswllt cyson ag unigolyn y maent yn ymddiried ynddo, sy'n gallu canfod cymorth ychwanegol a helpu pobl i'w gael⁸⁴.
127. Yn 2019, gwnaethom gyflwyno Swyddfeydd Model Iechyd mewn 11 o ganolfannau gwaith ledled Prydain Fawr. Y nod oedd profi amrywiaeth eang o fentrau, gan gynnwys:
- Rhoi cymorth mwy dwys i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd;
 - Addasu'r amgylchedd ffisegol yn y ganolfan waith er mwyn diwallu anghenion pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn well;
 - Gwella'r cysylltiadau rhwng canolfannau gwaith a gwasanaethau iechyd, gan gynnwys drwy leoli hyfforddwyr gwaith mewn meddygfeydd a gweithwyr iechyd proffesiynol mewn canolfannau gwaith;
 - Cyflwyno adnoddau cyfathrebu newydd megis map sy'n amlinellu llwybr person drwy'r system budd-daliadau. Mae hyn yn helpu i roi tawelwch meddwl i bobl ac yn annog gwell cyfathrebu.
128. Rhoddir sylw i waith un o'r Swyddfeydd Model Iechyd hyn yn yr astudiaeth achos isod.

Astudiaeth achos: Mae canolfan waith Leeds Eastgate yn un o'r Swyddfeydd Model Iechyd a fu'n profi adnoddau arloesol a dulliau gweithredu hyblyg⁸⁵

- **Cyfarfod â phobl mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n fwy cyfforddus** – gall hyn olygu cyfarfod â chwsmeriaid mewn ystafell breifat dawel yn y ganolfan waith neu mewn lleoliadau heblaw canolfannau gwaith, fel hybiau cymunedol. Dywedodd person anabl a gafodd apwyntiadau â hyfforddwr gwaith yn Hyb Cymunedol Headingley yn Leeds: 'Mae'n wych cyfarfod â fy hyfforddwr gwaith mewn amgylchedd hamddenol a chefnogol. Rwy'n teimlo fel person yn hytrach na rhif. Rwy'n teimlo'n rhan o'r broses, yn hytrach na bod pethau'n cael eu gwneud i mi.'
- **Seren Llesiant** – Defnyddiwyd yr adnodd hwn i hwyluso sgysiau rhwng hyfforddwyr gwaith ac unigolion mewn amrywiaeth o feysydd megis eu ffordd o fyw, eu cyflwr a'u dyheadau ar gyfer dechrau gweithio. Mae'r adnodd hwn yn helpu i fesur cynnydd tuag at gyflawni nodau a phennu anghenion cymorth. Y nod yw annog sgysiau agored a gonest a thynnu sylw at feysydd lle y gall fod angen cymorth ar bobl.
- **Hyblygrwydd** - Rhoddwyd hyblygrwydd i hyfforddwyr gwaith o ran faint o amser y gallent ei dreulio gyda phobl. Helpodd hyn hyfforddwyr gwaith i feithrin cydberthnasau. Dywedodd un

hyfforddwr gwaith, “mae'n golygu bod gennym ni amser i feithrin ymddiriedaeth. Gallwn esbonio sut y gallwn ni helpu a chefnogi unigolion – nid yw'r un ateb yn addas i bawb.”

129. Mae gwaith y Swyddfeydd Model Iechyd wedi canfod nifer o fentrau a allai wella'r gwasanaeth a gynigir gennym. Ymhlith y rhain mae gwneud gwell defnydd o'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir gan gyflogwyr Hyderus o ran Anabledd i bobl anabl ifanc (18-24 oed) a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor, a phrofi'r rhestr wirio ar gyfer addasiadau Mynediad at Waith er mwyn hwyluso sgysiau â hyfforddwyr gwaith a chyflogwyr ynglŷn â chymorth ar gyfer anableddau ac addasiadau. Oherwydd hyn, rydym am barhau i ystyried opsiynau megis cymorth mwy dwys a defnyddio adnoddau cyfathrebu gwell. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn er mwyn dysgu beth yn rhagor y gallwn ei wneud i feithrin ymddiriedaeth ac annog pobl i fanteisio ar gymorth cyflogaeth.
130. Ochr yn ochr â'r dulliau gweithredu newydd sy'n cael eu profi mewn Swyddfeydd Model Iechyd⁸⁶, mae canolfannau gwaith wedi datblygu mentrau lleol eraill. Nod y rhain yw gwella'r cymorth a roddir i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, fel y gwelir yn yr astudiaeth achos isod.

Astudiaeth achos: Gwella cymorth i bobl awtistig⁸⁷

Mae nifer o ganolfannau gwaith rhanbarthol wedi cyflwyno gwelliannau ar gyfer pobl awtistig. Er enghraifft:

- Gwnaeth canolfannau gwaith yng Ngogledd Llundain ddatblygu a threfnu sesiynau 'Calm and Quiet', gan gynnwys pecyn cymorth er mwyn eu trefnu mewn canolfannau gwaith eraill.
- Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, bu Ymgynghorwyr Gwaith i'r Anabl (DEAs) yn cydweithio ag Awtistiaeth Cymru i ddatblygu adnodd cyflogadwyedd ar-lein ar gyfer pobl awtistig.
- Enillodd canolfannau gwaith yn Sunderland Wobr Safon Aur am Dderbyn Awtistiaeth ym mis Tachwedd 2020 i gydnabod eu gwaith i wella profiad pobl awtistig.
- Aeth Canolfan Gwaith Aberdâr drwy broses achredu gymeradwy Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru i ddod yn ganolfan waith sy'n ystyriol o awtistiaeth, a chafodd pob aelod o'r staff hyfforddiant er mwyn cael yr achrediad.

Byddwn yn parhau i wella ymwybyddiaeth a sgiliau staff, mannau ffisegol a ffyrdd o weithio ym mhob rhan o rwydwaith y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn sicrhau bod canolfannau gwaith yn lleoedd croesawgar a chefnogol i bobl awtistig.

Rhoi cymorth ychwanegol i'n staff

131. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, clywsom y dylai ein staff barhau i wella eu dealltwriaeth o'r ffordd y gall bod yn anabl neu fod â chyflwr iechyd effeithio ar y mathau o gymorth a chyflogaeth y gall person eu cael. Rydym wedi bod yn rhoi cymorth ychwanegol i hyfforddwyr gwaith er mwyn sicrhau y gallant weithio gyda phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn y ffordd fwyaf effeithiol.
132. Ers 2018, rydym wedi rhoi hyfforddiant i'n holl hyfforddwyr gwaith fel y gallant feithrin gwell dealltwriaeth o iechyd meddwl. Yn 2019, gwnaethom ehangu rôl yr Ymgynghorydd Gwaith i'r Anabl (DEA) a chreu rôl newydd Arweinydd DEAs⁸⁸. Mae'r rolau hyn yn hanfodol er mwyn meithrin sgiliau a gwybodaeth hyfforddwyr gwaith a chydweithwyr eraill, cefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, a dylanwadu ar lefelau ymgysylltu cyflogwyr mewn cymunedau lleol. Maent hefyd yn helpu staff i roi cymorth sydd wedi'i bersonoli'n fwy. Rydym yn cynyddu nifer y DEAs ledled Prydain Fawr o 685 i 1000 o fis Ebrill 2021 ymlaen. Gall pob hyfforddwr gwaith a phob canolfan waith elwa ar gymorth DEA.

133. Gwyddom y gall arbenigedd iechyd helpu hyfforddwyr gwaith i wella'r ffordd y maent yn gweithio gyda phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Yn ddiweddar, gwnaethom brofi sgysiau tair ffordd rhwng person anabl, gweithiwr proffesiynol ym maes gwaith ac iechyd, a hyfforddwr gwaith er mwyn gweld a allai arbenigedd ym maes iechyd galwedigaethol wella'r cymorth cyflogaeth a roddir gennym. Rydym yn parhau i ystyried sut y gall arbenigedd a gwybodaeth gweithwyr proffesiynol ym maes gwaith ac iechyd wella'r cymorth cyflogaeth a roddir gennym drwy ganolfannau gwaith.

Astudiaeth achos: Helpu Will i ddychwelyd i'r gwaith yn yr Alban⁸⁹

Mae Will yn 52 oed ac wedi bod yn gweithio am yr 20 mlynedd diwethaf fel pen-cogydd, ond collodd ei swydd oherwydd pandemig y coronafeirws. Roedd yn teimlo na allai ddychwelyd i'r sector lletygarwch oherwydd straen a phoen cefn difrifol.

Mae Will yn dioddef o broblemau iechyd meddwl ac mae ganddo hefyd broblemau yn ymwneud â defnyddio sylweddau. Hefyd, mae Will yn pryderu am ei rieni oedrannus. Mae gan ei dad ganser ac roedd ei fam yn ei chael hi'n anodd ymdopi ac yn dibynnu'n llwyr ar Will, a oedd yn peri gorbryder iddo. Roedd y broses o hawlio budd-daliadau yn ormod iddo a chafodd ei gyfeirio at DEA mewn canolfan waith yn Dumfires a Galloway i gael cymorth. Dywedodd ei DEA:

"Drwy gydol ein sgysiau, mynegodd Will ddiddordeb mewn gwaith ym maes cymorth a gofal, sef rhywbeth roedd wedi'i wneud flynyddoedd lawer yn ôl. Trefnais gymorth iechyd meddwl drwy Raglen Cymorth a Gwella Iechyd Co-Sync y GIG, yn ogystal â chymorth ar gyfer defnyddio sylweddau. Hefyd, cyfeiriais Will at mPower, sef gwasanaeth cymorth i bobl hŷn, a chafodd cyfeillachwr ei neilltuo i'w fam, er mwyn iddi allu siarad â rhywun arall heblaw Will. Rhoddodd hyn amser iddo ganolbwyntio ar ei gamau nesaf o ran cyflogaeth.

Esboniais i Will sut i wneud cais am rôl gweithiwr cymorth gyda Trust Housing. Cafodd Will wahoddiad i gael cyfweiliad a gwnaethom gyfweiliadau ffug dros y ffôn. Helpodd y Gronfa Cymorth Hyblyg (FSF) Will i gael dillad newydd ar gyfer ei gyfweiliad, a llwyddodd i gael y swydd.

Mae Will bellach wedi dechrau gweithio, ac mae wrth ei fodd."

Cwestiwn ymgynghori:

- Pa wybodaeth neu gymorth pellach a fyddai'n helpu hyfforddwyr gwaith i gael sgysiau mwy effeithiol â phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd?

Personoli Cymorth Cyflogaeth

134. Ers cyhoeddi Papur Gwyrdd Gwella Bywydau⁹⁰, rydym wedi buddsoddi mewn datblygu'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, gan gynnal treialon a phrofion i archwilio sut y gallwn wella'r cymorth cyflogaeth a gynigir gennym. Nid yw'r un ateb yn addas i bawb. Gwyddom fod angen i gymorth gael ei deilwra yn unol ag amgylchiadau pobl. Mae angen i gymorth effeithiol ystyried sgiliau, profiadau a dyheadau am waith pob person.
135. Hefyd, mae tystiolaeth o'r treialon^{91, 92} a gynhaliwyd gennym ac adborth o'r digwyddiadau Papur Gwyrdd wedi tynnu sylw at y ffaith bod cymorth cyflogaeth yn gweithio orau:
- Pan fo'n hyblyg ac wedi'i deilwra i'r unigolyn;
 - Pan fo'n dechrau cyn i berson ddechrau gweithio ac yn parhau tra bydd yn mewn gwaith;
 - Pan gaiff ei ddarparu gan rywun y mae'r person yn ymddiried ynddo sydd â'r sgiliau a'r profiad cywir;

- Pan fo amser i feithrin cydberthynas â'r person sy'n rhoi cymorth.

Rhoi cymorth wedi'i deilwra

136. Mae ein cymorth cyflogaeth yn hyblyg er mwyn diwallu amrywiaeth o anghenion, ac mae ar gael i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd mewn amrywiaeth o leoliadau. Ei nod yw helpu pobl i fagu hyder, sgiliau a phrofiad drwy hyfforddiant, ac i gymryd camau tuag at ganfod gwaith a dechrau gweithio lle bo modd. Mae'r rhan fwyaf o'n darpariaeth ar gael i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd ar sail wirfoddol.
137. Mae gwybodaeth am raglenni cymorth cyflogaeth y Llywodraeth i'w gweld yn Atodiad B. Yr hyn sy'n ganolog i'n cynnig yw'r cymorth un i un a roddir gan hyfforddwyr gwaith a'r cymorth ychwanegol a roddir gan DEAs drwy ein rhwydwaith Canolfan Byd Gwaith. Mae hyfforddwyr gwaith hefyd yn galluogi pobl i gael grantiau drwy'r Gronfa Cymorth Hyblyg sy'n gallu talu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dechrau gweithio, megis costau teithio a dillad. Gall hefyd ariannu hyfforddiant neu addysg addas ychwanegol er mwyn helpu person i symud yn nes at gael gwaith neu barhau i weithio.
138. Rydym yn rhoi cymorth arbenigol i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd drwy ein rhaglenni cymorth cyflogaeth cenedlaethol. Lansiwyd y Rhaglen Gwaith ac Iechyd yng Nghymru a Lloegr yn 2017 ac mae'n rhoi hyd at 15 mis o gymorth cyn gweithio wedi'i deilwra yn unol ag anghenion unigolion a chymorth mewn gwaith pellach am hyd at 6 mis. Drwy'r canolfannau gwaith, rydym hefyd yn cyfeirio pobl at raglenni cymorth cyflogaeth a gynhelir gan y gweinyddiaethau datganoledig, megis Fair Start Scotland, sef rhaglen Llywodraeth yr Alban sy'n cyfateb i'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd.

Astudiaeth achos: Helpu Marie i chwilio am waith⁹³

Ymunodd Marie â'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd er mwyn cael help i chwilio am waith ar Ynys Wyth. Mae gan Marie nam ar ei golwg ac roedd wedi bod yn ddi-waith ers sawl blwyddyn, felly roedd wedi colli hyder.

Roedd y nam ar olwg Marie yn ei gwneud hi'n anodd iddi chwilio am swydd a dod o hyd i'r cyflogwr gorau ar ei chyfer. Cafodd Marie help gan ei hymgyngorydd, Louise, i ystyried rolau y gallai eu cyflawni a'r sgiliau trosglwyddadwy a oedd ganddi, ac i wneud cais am swyddi gwag yn ei hardal leol. Gyda'i gilydd, gwnaethant ganolbwyntio ar yr hyn y gallai Marie ei wneud yn hytrach na'r hyn na allai ei wneud.

O'r cychwyn cyntaf ar ôl ymuno â'r rhaglen, bu Marie wrthi'n ddiwyd yn chwilio am swydd fel gweithiwr cymorth gan barhau i fod yn benderfynol o gyflawni hyn gyda chymorth gan Louise. Llwyddodd Marie i fagu hyder drwy nofio yn y môr.

Gyda chymorth, mae Marie bellach wedi cael swydd gyda Leonard Cheshire. Mae'r cyfle i ddysgu, datblygu a thyfu yn y rôl hon yn bwysig iawn i Marie.

139. Ar gyfer pobl â rhwystrau cymhleth y mae angen iddynt gael cymorth mwy dwys wedi'i bersonoli, gwnaethom gyflwyno rhaglen Cymorth Cyflogaeth Dwys wedi'i Bersonoli (IPES) yn 2019 yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn cynyddu nifer y lleoedd ar IPES. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd mwy o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn gallu cael cymorth priodol wedi'i deilwra, a hynny'n gyflym.

Astudiaeth achos: Cymorth wedi'i bersonoli i Ryan⁹⁴

Dywedodd Ryan, 'Gadewais y coleg dair blynedd yn ôl, cyn gwneud ychydig o wirfoddoli a gweithio mewn archfarchnad leol am gyfnod byr, ac roeddwn yn ddi-waith am tua dwy flynedd. Gwnaeth fy hyfforddwr gwaith, Paul, fy nghyfeirio at y rhaglen hon gan ddweud y bydd rhaglen IPES yn fy helpu i ddod o hyd i waith. Rwy'n dioddef o orbryder cymdeithasol ac iselder ac mae'r rhaglen hon wedi fy helpu i oresgyn hyn. Gwrandewais ar Suky [Gweithiwr Allweddol ac Ymgynghorydd Ymgysylltu â Chyflogaeth yn IPES] a helpodd fi i ddod o hyd i'r lleoliad gwaith yn Tesco. Rhoddodd gyngor i mi ar y

ffurflenni cais a chymorth i'w llenwi, rhoddodd gymorth ac arweiniad i mi er mwyn paratoi ar gyfer y cyfweiliad, a helpodd fi i wneud trefniadau teithio hefyd. Mae'r rhaglen hon wedi fy helpu i ddod o hyd i gyfleoedd gwaith na fyddwn wedi eu hystyried fel arall. Nid lleoliad gwaith yw hwn mwyach, gan fod Tesco wedi penderfynu cynnig contractau dros dro yn lle profiad gwaith.'

Llwyddodd Ryan i sicrhau contract dros dro yn gweithio i Tesco.

140. Gall cymorth a gaiff ei arwain a'i ddarparu'n lleol fod yn effeithiol wrth ystyried anghenion pobl yng nghyd-destun y farchnad lafur leol. Gall canolfannau gwaith a'n rhaglenni cenedlaethol helpu pobl i ddod o hyd i gymorth arall sydd ar gael yn lleol, a chael gafael arno.
141. Er mwyn gwneud yn siŵr bod y cymorth a roddir gennym mor effeithiol â phosibl, mae ein rhaglenni cenedlaethol presennol yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o raglenni blaenorol a'r sylfaen dystiolaeth sy'n bodoli eisoes o ran yr hyn sy'n gweithio. Caiff prosesau gwerthuso cadarn eu hymgorffori yn yr holl raglenni hyn fel y gallwn fonitro eu heffaith ar ganlyniadau wrth i gymorth gael ei roi.
142. Rydym am wneud yn siŵr bod y rhaglenni hyn yn datblygu ac yn gwella drwy'r amser, gan ystyried y dystiolaeth wrth iddi ddod i'r amlwg. Yn benodol, rydym am ystyried sut y gall darparu cyfnodau dwys o gymorth â ffocws pendant i bobl ag anghenion mwy cymhleth eu helpu i ddechrau gweithio.
143. Rydym am roi mwy o gymorth mewn gwasanaethau lleol y mae pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn ymddiried ynddynt ac yn eu defnyddio'n rheolaidd. Hefyd, rydym am barhau i adeiladu ar brofiad darparwyr lleol, gan gynnwys y sector gwirfoddol.

Cwestiynau ymgynghori:

- Sut brofiad rydych chi wedi'i gael o dderbyn cymorth cyflogaeth? Beth oedd yn dda am y cymorth? A oes gwelliannau pellach y gellid eu gwneud?
- Sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar wybodaeth a phrofiad sefydliadau lleol er mwyn helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i gael gwaith?

Rhoi cymorth mewn lleoliadau iechyd a chymorth lleol arall


144. Gwyddom fod cysylltiad rhwng gwaith da ac iechyd da⁹⁵. Oherwydd hyn, rydym am barhau i wreiddio cymorth cyflogaeth mewn gwasanaethau iechyd er mwyn rhoi cymorth mwy integredig a chyfannol. Ers 2015, gan weithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr, rydym wedi buddsoddi ar y cyd mewn cymorth cyflogaeth mewn lleoliadau iechyd sy'n cydgyssylltu cymorth lleol i bobl sydd mewn gwaith a phobl ddi-waith. Ymhlith y mentrau sy'n cyfuno gwasanaethau gwaith ac iechyd mae:
- Cyngor ar Gyflogaeth o fewn gwasanaeth Gwella Mynediad at Therapïau Seicolegol (IAPT) y GIG yn Lloegr. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu therapïau seicolegol seiliedig ar dystiolaeth i bobl â gorbryder ac iselder. Rydym wedi treblu nifer yr ymgynghorwyr cyflogaeth o fewn IAPT ac rydym yn eu hariannu'n uniongyrchol mewn tua 40% o wasanaethau IAPT ledled Lloegr ar hyn o bryd. Mae therapyddion ac ymgynghorwyr cyflogaeth yn cydweithio i ystyried ffyrdd o wella iechyd meddwl, helpu pobl i barhau i weithio a chael triniaeth ar yr un pryd, dychwelyd i'r gwaith, os byddant i ffwrdd yn sâl, neu ddod o hyd i waith, os byddant allan o waith. Mae mwy na hanner y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn mewn gwaith.
 - Lleoliad a Chymorth Unigol (IPS). Ymyriad seiliedig ar dystiolaeth yw hwn a ddefnyddir yn y GIG er mwyn cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl difrifol a rhoi cymorth dwys i sicrhau y gall pobl â chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol cyffredin, dibyniaeth ar alcohol a/neu gyffuriau gael swyddi, a'u helpu i aros yn y swyddi hynny. Rydym yn parhau i ariannu IPS yn

ein hardaloedd treialu presennol yn Lloegr yn ystod 2021/22⁹⁶. Un o nodau pwysig y gwasanaeth, yn ogystal â helpu pobl i ailddechrau gweithio, yw atal pobl rhag colli swyddi oherwydd salwch. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i brofi ffyrdd o integreiddio cymorth cyflogaeth IPS i bobl â chyflyrau iechyd meddwl cyffredin yn system iechyd Cymru.

- Ar gyfer pobl awtistig, pobl ag anableddau dysgu a phobl â chyflyrau iechyd difrifol, gwnaethom hefyd brofi Cyflogaeth Leol wedi'i Chynnal (LSE) mewn partneriaeth â naw awdurdod lleol. Mae LSE yn rhoi cymorth un i un dwys er mwyn helpu pobl i gael gwaith ac aros mewn gwaith. Rydym yn bwriadu ehangu LSE a gweithio gyda phobl sy'n cael gofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i gael cymorth gan y Ganolfan Byd Gwaith.

145. Y tu hwnt i lywodraeth ganolog, mae amrywiaeth o sefydliadau eraill yn rhoi cymorth cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae hyn yn cynnwys elusennau a mentrau cymdeithasol a all ddarparu gwasanaethau arbenigol i bobl â gwahanol gyflyrau iechyd ac anableddau; gwasanaethau statudol yn Lloegr (megis y GIG); a gwasanaethau a ariennir gan y gweinyddiaethau datganoledig ac awdurdodau lleol.

Cymorth Cyflogaeth i Bobl Anabl a Phobl â Chyflyrau Iechyd



146.

147. Ymhlith yr enghreifftiau o Gymorth Cyflogaeth sydd ar gael i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd mae:

- Cymorth y Ganolfan Byd Gwaith
 - Mae hyfforddwyr gwaith yn rhoi cymorth un i un i bobl er mwyn eu helpu i chwilio am swyddi a pharatoi ar gyfer gwaith; cyngor ar yrfaeodd; cyfleoedd i wirfoddoli.
 - Mae'r Gronfa Cymorth Hyblyg yn darparu cyllid er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau rhag gweithio a chymorth ychwanegol wedi'i deilwra yn unol ag anghenion pobl a'r ardal leol.
 - Mae Ymgynghorwyr Gwaith i'r Anabl yn rhoi cyngor ac arweiniad er mwyn helpu pobl anabl i ddod o hyd i swyddi a chymorth ychwanegol gan weithio ochr yn ochr â hyfforddwyr gwaith.
- Rhaglenni Cyflogaeth Cenedlaethol

- Mae'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd yn rhoi hyd at 15 mis o gymorth cyn gweithio wedi'i deilwra yn unol ag anghenion pobl a chymorth mewn gwaith pellach am hyd at 6 mis ar ôl hynny.
- Mae Cymorth Cyflogaeth Dwys wedi'i Bersonoli yn helpu pobl anabl sy'n wynebu rhwystrau cymhleth ac yr ystyrir eu bod fwy na 12 mis i ffwrdd o waith drwy roi cymorth arbenigol i'w helpu i gael gwaith ac aros mewn gwaith.
- Mae gan raglenni cenedlaethol fel Kickstart, Ailddrechrau, Cymorth wedi'i Dargedu i Gael Swydd, Rhaglen Academiâu Gwaith Seiliedig ar Sectorau (SWAP) a Chymorth i Ddod o Hyd i Swydd leoedd ar gael i gefnogi pobl anabl.
- Cymorth mewn lleoliadau iechyd
 - Mae Ymgynghorwyr Cyflogaeth yn gweithio ochr yn ochr â therapyddion fel rhan o wasanaeth Gwella Mynediad at Therapïau Seicolegol, gan helpu pobl i wella eu iechyd meddwl a chyflawni eu nodau o ran gwaith.
 - Model o gymorth dwys a ddarperir gan y GIG i bobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol yw Lleoliad a Chymorth Unigol (IPS), ac mae'n cael ei dreialu ar gyfer grwpiau newydd o bobl â chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol cyffredin, a phobl sy'n ddibynnol ar alcohol a chyffuriau.
- Cymorth gan y sector gwirfoddol a chymorth lleol a chenedlaethol arall
 - Amrywiaeth o gymorth a gwasanaethau cenedlaethol, lleol a rhanbarthol a ddarperir gan: elusennau a mentrau cymdeithasol; gwasanaethau statudol yn Lloegr megis y GIG; a gwasanaethau a ariennir gan y gweinyddiaethau datganoledig ac awdurdodau lleol.
 - Mae Mynediad at Waith yn rhoi cymorth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd er mwyn iddynt ddechrau gweithio neu barhau i weithio drwy gyfrannu at dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd, y tu hwnt i gostau addasiadau rhesymol.

Astudiaeth achos: Cymorth a roddwyd i Gordon ar gyfer gorbryder ac iselder drwy wasanaeth Gwella Mynediad at Therapïau Seicolegol (IAPT)⁹⁷

Cefais fy atgyfeirio at y gwasanaeth cyngor cyflogaeth fel rhan o fy nhriniaeth ar gyfer gorbryder ac iselder sy'n gysylltiedig ag iselder. Drwy gwnsela, rwyf wedi darganfod bod mwyafrif helaeth o'r hyn sy'n sbarduno fy ngorbryder yn gysylltiedig â gwaith. Cefais fy atgyfeirio ar ôl ailstrwythuro sylweddol yn fy ngweithle a'r broses o gael fy asesu ar gyfer dileu swydd. Roedd y syniad o fod yn ddi-waith yn codi ofn mawr arnaf, ar ôl profiad blaenorol o fod yn ddi-waith am gyfnod, ac effaith negyddol hynny ar fy llesiant.

Rwy'n falch o ddweud fy mod wedi sicrhau rôl newydd gyda fy nghyflogwr. Roedd y cymorth a gefais gan ymgynghorydd cyflogaeth IAPT yn bwysig dros ben, a chefais fy hyfforddi i ateb cwestiynau'r cyfweiliad ar gyfer fy rôl newydd heb i hynny sbarduno fy ngorbryder. Ni allaf orbwysleisio pa mor bwerus yw gallu trafod problemau iechyd meddwl yn y gweithle mewn ffordd onest ac agored ag ymgynghorydd yn ystod proses fel yr un rwyf newydd fod drwyddi; mae wir wedi gwneud gwahaniaeth i mi.

Cwestiwn ymgynghori:

- Beth yn rhagor y gallem ei wneud i weithio gyda sefydliadau eraill a darparwyr gwasanaethau, awdurdodau lleol, systemau iechyd a'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn rhoi cymorth cyflogaeth mewn lleoliadau iechyd a chydgyssylltu cymorth lleol?

Annog pobl yn y Grŵp Cymorth neu bob ag LCWRA i fanteisio ar gymorth

- Yn achos llawer o bobl sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd, megis pobl yng Ngrŵp Cymorth ESA a phobl sy'n hawlio UC sydd â gallu cyfyngedig i weithio a chymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith, gwyddom na fydd gwaith yn opsiwn realistig iddynt ar unwaith o bosibl, oherwydd effaith eu cyflwr iechyd. Fodd bynnag, dangosodd ein gwaith ymchwil gyda phobl yn y grwpiau hyn fod un o bob pum unigolyn (20%) yn awyddus i weithio ac yn meddwl y gallent weithio rywbryd yn y dyfodol, pe bai'r swydd gywir a'r cymorth cywir ar gael⁹⁸.
- Mae cymorth cyflogaeth ar gael i bobl sydd ymhellach i ffwrdd o waith drwy ganolfannau gwaith, ein rhaglenni cenedlaethol a rhaglenni a gynhelir gan y gweinyddiaethau datganoledig. I bobl yng Ngrŵp Cymorth ESA a phobl sy'n hawlio UC ag LCWRA, mae cymryd rhan mewn cymorth cyflogaeth yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, yn ymarferol, ychydig iawn o'r bobl hyn sy'n manteisio at ein cymorth cyflogaeth gwirfoddol, ac nid oes llawer ohonynt yn dechrau gweithio⁹⁹.
- Gwyddom fod bod yn ddi-waith yn cael effaith negyddol ar iechyd a llesiant pobl¹⁰⁰. Mae rhagolygon diweddar¹⁰¹ yn rhagweld cynnydd yn nifer y bobl o oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd. Gallai llawer o bobl sy'n rhoi'r gorau i weithio oherwydd cyflwr iechyd weithio mewn rôl newydd pe baent yn cael y cymorth cywir, gan gynnwys gofal iechyd ac addasiadau. Rydym am wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y gall pobl, gan gynnwys pobl yn y Grŵp Cymorth a phobl ag LCWRA gael y cymorth cyflogaeth cywir er mwyn achub ar gyfleoedd.
- Ym Mhenodau 4 a 5 byddwn yn ystyried newidiadau y gellid eu gwneud i asesiadau a'r system budd-daliadau a allai helpu ac annog pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn well i ddechrau gweithio ac aros a llwyddo mewn gwaith. Rydym am wneud newidiadau a fydd yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n fwy ar yr hyn y gall neu y gallai pobl ei wneud, yn hytrach na chanolbwyntio ar effaith negyddol cyflwr iechyd neu anabledd ar allu unigolyn i weithio.
- Yn 2020¹⁰², cyhoeddodd y Canghellor y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn helpu i greu cyfleoedd ledled y DU i bobl a lleoedd. Mae'r UKSPF yn ceisio helpu'r bobl sydd bellaf i ffwrdd o waith, megis pobl yn y grŵp LCWRA neu'r Grŵp Cymorth, i baratoi ar gyfer gwaith neu ddechrau gweithio.
- Rydym am wella'r cymorth cyflogaeth a gynigir gennym i bobl sydd ymhellach i ffwrdd o waith, gan adeiladau ar y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu, drwy gynnal profion pellach¹⁰³. Hoffem glywed beth yr hoffai pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i'r cymorth hwn ei gynnwys a sut y gallwn gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arno.

Cwestiynau ymgynghori:

- Beth y gallwn ei gynnig a fyddai'n annog pobl yn y Grŵp Cymorth neu bob ag LCWRA i fanteisio ar ein cymorth cyflogaeth?

Ystyried mathau digidol o gymorth cyflogaeth

- Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, dywedodd rhai pobl wrthym fod rhyngweithio'n ddigidol, er enghraifft drwy alwadau fideo, yn ddull cyfathrebu defnyddiol. Clywsom hefyd y gallai'r opsiwn i gael cymorth o bell fod yn fwy addas i rai pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Yn ystod pandemig y coronafeirws, mae ein hyfforddwyr gwaith wedi gwneud mwy o ddefnydd o ddulliau digidol fel dyddiadur ar-lein UC, ac wedi rhoi cymorth dros y ffôn yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

151. Fodd bynnag, gwyddom hefyd nad oes modd i rai pobl ddefnyddio gwasanaethau digidol, neu y gall fod yn anodd iddynt eu defnyddio. Rydym am ddysgu o'r ffordd rydym wedi rhoi cymorth cyflogaeth yn ystod y pandemig ac ystyried ffyrdd gwahanol o roi cymorth cyflogaeth. Lle nad yw cyfathrebu digidol, boed ar-lein, drwy alwadau fideo neu dros y ffôn, yn addas i bobl, mae gennym gyfle i wneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch. Felly, rydym am ystyried sut y gellid cynnig cymorth cyflogaeth fel rhan o gynnig cymysg sy'n cyfuno opsiynau digidol ac wyneb yn wyneb, ac ystyried pa mor effeithiol yw'r cymorth hwn.

Cwestiynau ymgynghori:

- Fyddech chi'n hapus i gael cymorth cyflogaeth yn ddigidol? Esboniwch eich rhesymau.
- Beth y dylem ei ystyried wrth ddatblygu cynnig cymorth digidol ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd?

Helpu pobl anabl ifanc i ddechrau gweithio

152. Rydym yn deall y gall fod yn anos i bobl ifanc anabl neu bobl ifanc â chyflyrau iechyd ddechrau gweithio o gymharu â phobl ifanc eraill. Yn 2020, gwnaethom gyflwyno cynllun Kickstart¹⁰⁴ a fydd yn rhoi lleoliadau gwaith chwe mis o hyd gyda chyflogwyr lleol i gannoedd o filoedd o bobl ifanc, wedi'u hariannu gan y Llywodraeth. Ar hyn o bryd, mae cynllun Kickstart ar gael i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, gan gynnwys pobl ifanc anabl a phobl ifanc â chyflyrau iechyd sy'n derbyn UC.
153. Gall dechrau gweithio fod yn arbennig o heriol i bobl ifanc ag anabledd dysgu. Mae interniaethau â chymorth yn rhoi cyfle i bobl ifanc ag anabledd dysgu ddysgu sgiliau gwerthfawr yn y gweithle er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer gwaith am dâl. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn gwneud yn siŵr y gall mwy o bobl ifanc gael cymorth i symud o fyd addysg i fyd gwaith, gan gynnwys drwy interniaethau â chymorth.
154. Mae'r adolygiad traws-lywodraethol o Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (AAAA), dan arweiniad yr Adran Addysg, wrthi'n ystyried sut i helpu pobl ifanc anabl yn llwyddiannus i symud o'r ysgol neu'r coleg i fyd gwaith, os gallant wneud hynny. Caiff ei gyhoeddi yn nes ymlaen eleni.

Astudiaeth achos: Iechyd, Llesiant a Chymhelliant yng Nghymru¹⁰⁵

Mae Samantha a Lawrence yn Ymgynghorwyr Gwaith i'r Anabl.

Drwy arolwg o bobl sy'n hawlio budd-daliadau a thrafodaethau â hyfforddwyr gwaith, gwelodd Samantha a Lawrence fod cynnydd yn nifer y bobl rhwng 18 a 24 oed sy'n dioddef gorbryder ac iselder sy'n gysylltiedig â theimlo'n ynysig oherwydd y pandemig.

Gwnaethant benderfynu bod angen mwy o gymorth ar bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn y grŵp oedran hwn i'w helpu i ailddechrau gweithio, a gwnaethant lunio achos busnes i ofyn am gymorth ychwanegol gan ddefnyddio cyllid o'r Gronfa Cymorth Hyblyg¹⁰⁶.

Byddai'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu'n rhithwir drwy Zoom ac yn cynnwys 12 o sesiynau grŵp. Roedd y sesiynau hyn yn ymdrin â phynciau gwahanol fel rheoli pryder a gorbryder, sgiliau cyfweiliad, ymddygiadau yn y gweithle ac agwedd gadarnhaol.

Yn ogystal â'r 12 o sesiynau grŵp ar Zoom, cafodd y bobl ifanc gyfle i gael tair galwad Zoom unigol i siarad am eu nodau fel unigolion, a thri mis o gyfarfodydd anffurfiol coffi a chlonc ar Zoom fel y gallai'r cyfranogwyr barhau i gefnogi ei gilydd.

Cafodd y cymorth hwn ei osod ar gcontract i ddarparwyr lleol drwy'r Gronfa Cymorth Hyblyg ac mae wedi cael ei ddefnyddio mewn naw canolfan gwaith ledled De Cymru.

Mae'r rhaglen wedi cael ei chroesawu gan bobl ifanc ac wedi helpu llawer ohonynt i fagu hyder wrth baratoi ar gyfer gwaith.

Cwestiwn ymgynghori:

- Sut y gallwn helpu pobl anabl ifanc sy'n gadael byd addysg i ddod o hyd i waith priodol?

Crynodeb

155. Gall cyflogaeth gael effaith gadarnhaol ar fywydau llawer o bobl, felly rydym am wneud mwy er mwyn helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i ddechrau gweithio mewn swydd briodol, ac aros a llwyddo yn y swydd honno lle bynnag y bo modd. Er mwyn bod yn gwbl effeithiol, gwyddom fod angen amrywiaeth o gyngor, o ymyrryd yn gynnar er mwyn atal pobl rhag rhoi'r gorau i weithio yn y lle cyntaf, i gymorth dychwelyd i'r gwaith effeithiol pan fydd hynny'n digwydd. Hefyd, mae gan gyflogwyr ran hollbwysig i'w chwarae drwy greu gweithleoedd cynhwysol lle y gall pobl ffynnu.
156. Am ein bod yn gwybod bod cysylltiad rhwng iechyd a chyflogaeth, rydym am wneud mwy i gydgysylltu cymorth cyflogaeth â gwasanaethau iechyd. Mae anableddau a chyflyrau iechyd yn effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol, felly mae hefyd yn amlwg bod angen personoli cymorth. Gwyddom fod angen i bobl allu ymddiried mewn cymorth a bod angen iddo gael ei ddarparu mewn lleoliad lle y bydd pobl yn teimlo'n gyfforddus yn ei gael. Dyna pam rydym am ystyried amrywiaeth o opsiynau, o barhau i wneud canolfannau gwaith yn lleoedd mwy croesawgar i ofyn beth yn rhagor y gellir ei wneud er mwyn annog pobl yn y Grŵp Cymorth a phobl ag LCWRA i fanteisio ar gymorth cyflogaeth gwirfoddol. Hoffem glywed sut y gallwn wella'r cymorth sydd ar gael i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.

Pennod 3: Gwella ein Gwasanaethau Presennol

Crynodeb o'r Bennod

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd yn cael profiad cadarnhaol. Lle nad yw hyn yn digwydd, rydym yn awyddus i glywed sut y gallwn wella'r sefyllfa. Yn y bennod hon, byddwn yn ymgynghori ar newidiadau i agweddau allweddol ar ein gwasanaethau presennol. Newidiadau y gellir eu rhoi ar waith yn y tymor byr yw'r rhain. Mae'r bennod hon yn ystyried sut y gallwn wneud y canlynol:


- Gwella'r system asesu bresennol, er enghraifft drwy ystyried ffyrdd gwahanol o gynnal asesiadau a chynnal llai o asesiadau diangen;
- Gwella ein penderfyniadau, gan gynnwys drwy wneud yn siŵr bod tystiolaeth ar gael yn gynharach yn y broses benderfynu;
- Rhoi gwell cymorth i bobl sy'n symud rhwng budd-daliadau i blant a budd-daliadau i oedolion;
- Rhoi gwell cymorth i bobl â chyflyrau iechyd difrifol, gan gynnwys pobl sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes.

Cyflwyniad

157. Dywed ymchwil wrthym fod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar ein gwasanaethau. Mae 75% o bobl sy'n hawlio ESA, 74% o bobl sy'n hawlio PIP a 79% o bobl sy'n hawlio UC¹⁰⁷ yn dweud eu bod yn 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn' ar eu profiad yn gyffredinol¹⁰⁸. Fodd bynnag, gwyddom hefyd fod lleiafrif sylweddol o bobl yn anfodlon. Er enghraifft, mae pobl wedi apelio yn erbyn 9% o benderfyniadau ynghylch PIP¹⁰⁹ drwy dribiwnlys. Rydym am sicrhau bod mwy o bobl yn cael profiad cadarnhaol.
158. Rydym bob amser yn anelu at ddarparu gwasanaethau gwell. Rydym yn gwneud gwaith ymchwil gyda'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac yn gofyn am eu hadborth yn rheolaidd. Mae hyn yn ein helpu i ganfod problemau a deall sut i'w datrys. Rydym hefyd yn monitro effaith y newidiadau a wnawn, fel y gallwn barhau i wneud gwelliannau.
159. Rydym hefyd wedi gweithio i addasu ein gwasanaethau'n gyflym er mwyn ymateb i bandemig y coronafeirws. Yn benodol, rydym wedi gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn cynnal asesiadau. Rydym am ddysgu o'r gwaith rydym wedi'i wneud, lle bo modd, er mwyn cynnig gwasanaethau gwell a fydd yn cynnig cymorth gwell. Hefyd, mae angen i ni ystyried sut mae gwelliannau'n effeithio ar wariant cyhoeddus ar fudd-daliadau, er mwyn sicrhau y bydd ein cymorth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn parhau i fod yn fforddiadwy yn y dyfodol.

Adborth o'r digwyddiadau Papur Gwyrdd: gwella ein gwasanaethau

160. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, a thrwy waith ymchwil¹¹⁰, dywedodd pobl wrthym pa agweddau ar ein gwasanaethau roedd angen eu gwella yn eu barn nhw. Dywedodd pobl nad oedd adroddiadau asesu yn gywir bob amser ac y gallai hyn arwain at wneud penderfyniadau gwael. Roedd ein prosesau gwneud cais ac asesu yn anodd ac yn peri straen i rai pobl. Weithiau, roedd yn rhaid i bobl roi'r un wybodaeth fwy nag unwaith yn ystod y broses asesu. Roedd pobl yn teimlo bod asesiadau WCA a PIP yn ailadroddus. Roedd pobl am gael mwy o lais o ran ble roedd eu hasesiadau'n cael eu cynnal. Roedd pobl yn teimlo bod ailgynnal asesiadau yn ddiangen lle bo ganddynt gyflwr na fyddai'n gwella.



161. Mae profiadau go iawn pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd wrth wraidd ein cynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Yn y bennod hon, byddwn yn ceisio barn pobl o ran beth yn rhagor y mae angen i ni ei wneud i fynd i'r afael â'r pwyntiau mae pobl wedi'u codi.

Gwella Asesiadau

162. Rydym yn defnyddio 'asesiadau gweithredol' er mwyn ein helpu i benderfynu ar hawl i gael budd-daliadau iechyd ac anabledd. Mae asesiad gweithredol yn ystyried effaith cyflwr iechyd ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau, yn hytrach na dim ond y cyflwr iechyd ei hun.
163. Ar hyn o bryd, mae'r Adran yn defnyddio dau asesiad gweithredol ar wahân ar gyfer budd-daliadau iechyd ac anabledd, sef asesiad PIP a'r WCA. Mae'r WCA yn helpu i benderfynu ar gymhwysedd i gael ESA yn ogystal â ph'un a oes gan rywun LCW neu LCWRA wrth dderbyn UC. Mae asesiad PIP a'r WCA yn defnyddio meini prawf asesu i asesu gallu unigolyn i gyflawni gweithgareddau a phenderfynu ar y lefel briodol o gymorth.
164. Rydym eisoes wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i asesiadau¹¹¹ a gwyddom fod llawer o bobl bellach yn cael profiad asesu da¹¹². Fodd bynnag, mae adborth o'r digwyddiadau Papur Gwyrdd, a thystiolaeth arall¹¹³, yn awgrymu bod asesiadau'n anodd ac yn peri straen i rai pobl o hyd. Hefyd, caiff nifer mawr o apeliadau eu cyflwyno i'r tribiwnlys yn dilyn asesiad¹¹⁴. Rydym am wneud ein gorau i sicrhau bod ansawdd asesiadau yn gwella drwy'r amser.

Yr hyn rydym wedi'i ddysgu am yr asesiadau presennol

165. O dan y system bresennol, mae bron hanner y bobl sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd yn hawlio ESA neu UC a chanddynt gyflwr iechyd yn ogystal â PIP neu, i raddau llai, DLA¹¹⁵. Yn 2019, gwnaethom gyhoeddi¹¹⁶ y byddem yn profi i weld a allai defnyddio un asesiad sy'n cyfuno'r asesiadau ar wahân ar gyfer WCA a PIP wella profiad pobl sy'n hawlio PIP ac ESA/UC.
166. Er bod llawer o bobl yn cael WCA ac asesiad PIP, mae ein gwaith wedi dangos na fyddai llawer o bobl wedi cael budd o gael un asesiad cyfunol o dan y system bresennol. Un rheswm dros hyn yw bod y rhan fwyaf o bobl yn cyflwyno eu hawliadau cychwynnol am y gwahanol fudd-daliadau ar adegau gwahanol. Yn 2016/2017, dim ond 4% o asesiadau cychwynnol WCA a PIP a gynhaliwyd o fewn 3 mis i hawliad am y budd-dal arall¹¹⁷. Hefyd, mae gan bob budd-dal reolau gwahanol o ran pryd y bydd angen adolygu lefel y taliad. Yn 2017/18, dim ond 1% o Adolygiadau Dyfarniad PIP ac asesiadau WCA ESA a gynhaliwyd o fewn tri mis i'w gilydd¹¹⁸. Mae hyn yn golygu nad yw'r amseriadau ar gyfer y gwahanol fathau o asesiadau yn cyd-daro.
167. Rheswm arall pam y byddai'n anodd cyfuno asesiadau WCA a PIP yn un asesiad yw am eu bod yn asesu ffyrdd gwahanol y mae anableddau a chyflyrau iechyd pobl yn effeithio arnynt. Mae asesiad PIP yn profi a yw unigolyn yn debygol o fynd i gostau ychwanegol, ond mae'r WCA yn profi effaith cyflwr unigolyn ar ei allu i weithio. Byddai profi'r ddau beth hyn mewn un asesiad o dan y system bresennol yn golygu y byddai'r asesiad cyfunol yn cymryd mwy o amser nag asesiad WCA neu PIP unigol.
168. Oherwydd y ffactorau hyn, daethom i'r casgliad y gallai cyflwyno un asesiad sy'n cyfuno asesiadau WCA a PIP, o dan y strwythur budd-daliadau presennol, wneud y broses asesu yn hwy ac yn fwy cymhleth. O ganlyniad i hynny, ni chredwn y byddai cyfuno'r ddau asesiad yn gwella profiad pobl o dan y system bresennol¹¹⁹. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried a ellid gwneud newidiadau i strwythur y budd-daliadau hyn, a allai olygu bod modd cynnal un asesiad, ym Mhennod 5.
169. Yn ystod pandemig y coronafeirws, gwnaethom nifer o newidiadau dros dro i'n gwasanaethau, gan gynnwys cyflwyno asesiadau dros y ffôn. Roedd y newidiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn cadw pobl yn ddiogel. Er nad oeddem yn bwriadu i'r newidiadau hyn fod yn rhai parhaol, mae llawer o bobl wedi'u croesawu. O ganlyniad i'n gwaith ar yr asesiad unigol a'r newidiadau dros dro a wnaed yn ystod pandemig y coronafeirws, rydym wedi canfod ffyrdd o wella asesiadau nawr ac yn y dyfodol.

Cyflwyno gwasanaeth asesu iechyd integredig newydd

170. Ym mis Mawrth 2019, gwnaethom gyhoeddi cynlluniau i ddatblygu gwasanaeth asesu iechyd integredig drwy ein Rhaglen Trawsnewid Iechyd¹²⁰. Mae'r gwasanaeth integredig hwn yn wahanol i'r gwaith ar yr asesiad unigol. Bydd y gwasanaeth integredig yn rhoi'r asesiadau ar gyfer PIP ac UC/ESA ar un system ddigidol. Bydd hyn yn helpu i wneud ein prosesau'n fwy effeithiol ac effeithlon, ac yn gwella profiad pobl. Er enghraifft, lle y bydd pobl yn fodlon cydsynio, bydd y system yn ein galluogi i rannu tystiolaeth feddygol yn haws. Bydd hyn yn helpu i leihau'r angen i bobl roi'r un wybodaeth fwy nag unwaith.
171. Byddwn yn datblygu'r gwasanaeth newydd hwn ar raddfa fach i ddechrau, mewn ardal fach o'r enw'r Ardal Trawsnewid Adrannol (DTA). Bydd y DTA yn amgylchedd diogel i brofi syniadau a phrosesau newydd, eu haddasu a dysgu ohonynt. Bydd y dull hwn yn ein galluogi i wella'r gwasanaeth a'r systemau newydd yn barhaus dan reolaeth. Wedyn, rydym yn bwriadu cyflwyno gwelliannau'n raddol ar raddfa fwy, gan gynnwys ymhlith darparwyr asesiadau. Mae'r DTA cyntaf yn Llundain ac fe'i lansiodd ar 21 Ebrill 2021.
172. Mae graddfa lawn yr hyn y gall y Rhaglen Trawsnewid Iechyd ei gyflawni yn dal i ddatblygu. Bydd yn helpu i wneud llawer o'r gwelliannau rydym wedi'u hamlinellu yn y Papur Gwyrdd hwn. Er enghraifft, ers peth amser, mae wedi bod yn bosibl gwneud recordiadau sain o asesiadau wyneb yn wyneb pobl sy'n mynd drwy WCA. Mae'r Rhaglen bellach wedi datblygu dull o sicrhau y gellir gwneud recordiadau sain o asesiadau wyneb yn wyneb PIP hefyd, os gwneir cais am hynny ymlaen llaw. Hefyd, rydym wedi dechrau cynnig gwneud recordiadau sain o asesiadau dros y ffôn ar gyfer ESA, UC a PIP. Credwn y bydd gwneud recordiadau sain o asesiadau yn helpu i wella ymddiriedaeth yn ein penderfyniadau. Mae camau hefyd yn cael eu cymryd i brofi asesiadau fideo drwy'r gwasanaeth asesu integredig, fel y nodir yn yr adran nesaf.

Ystyried ffyrdd gwahanol o gynnal asesiadau

173. Cyn pandemig y coronafeirws, lle nad oedd y dystiolaeth angenrheidiol ar gael, byddai asesiad wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal fel arfer er mwyn casglu'r dystiolaeth honno. Er mwyn datblygu ein gwasanaethau a gwella profiad pobl, rydym wedi bod yn ystyried ffyrdd gwahanol o gynnal asesiadau.

Defnyddio mwy o brosesau brysennu

173. Mewn rhai achosion¹²¹, gall pobl roi digon o dystiolaeth i olygu bod modd cynnal asesiad papur yn hytrach nag asesiad wyneb yn wyneb. Er mwyn gwneud mwy o benderfyniadau yn gyflym ac yn syml, a lleihau'r angen am asesiadau wyneb yn wyneb, rydym am ddefnyddio cynifer â phosibl o asesiadau papur a defnyddio mwy o brosesau brysennu. Hoffem ystyried a allwn wneud penderfyniadau mewn achosion syml heb fod angen cynnal asesiad, yn seiliedig ar argymhelliaid gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Os mai dim ond ychydig bach o dystiolaeth sydd ar goll, rydym am ystyried a all aseswyr wneud argymhellion cadarn drwy gymryd camau i gasglu'r dystiolaeth honno, er enghraifft drwy alwad ffôn, yn hytrach na bod angen cynnal asesiad wyneb yn wyneb. Rydym am brofi sut i frysennu hawliadau, fel mai dim ond lle mae asesiadau wyneb yn wyneb yn gwblu angenrheidiol y bydd angen i bobl eu cael.

Defnyddio asesiadau dros y ffôn ac asesiadau fideo

174. Yn ystod pandemig y coronafeirws, bu'n rhaid i ni addasu'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau, a hynny'n gyflym iawn. Ni fu'n bosibl i ni gynnal asesiadau wyneb yn wyneb drwy'r rhan fwyaf o'r cyfnod hwn. Felly, fel mesur dros dro, rydym wedi bod yn cynnal asesiadau dros y ffôn. Mae'r adborth ar asesiadau dros y ffôn wedi bod yn gadarnhaol hyd yn hyn¹²². Mewn arolwg diweddar, roedd y mwyafrif o'r bobl a gafodd asesiad dros y ffôn ar gyfer PIP neu eu WCA yn 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn'^{123, 124}.
175. Rydym am werthuso asesiadau dros y ffôn yn llawn. Mae'n bwysig bod pobl yn parhau i gael penderfyniadau cyson a chywir ni waeth pa fath o asesiad a gânt.
176. Rydym hefyd am ystyried ble y gallem gynnig asesiadau drwy alwadau fideo. Yn yr un arolwg, gofynnwyd i bobl pa mor gyfforddus y byddent yn teimlo yn cymryd rhan mewn asesiad fideo.

Dywedodd ychydig dros hanner (56%) y bobl y byddent yn teimlo'n 'gyfforddus' neu'n 'gyfforddus iawn' yn cael eu hasesiad WCA neu PIP drwy alwad fideo.

177. Mae mwy na 750 o bobl wedi cael asesiad fideo fel rhan o brawf a gynhaliwyd tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Yn amodol ar y broses werthuso, rydym bellach yn bwrw ymlaen â chynlluniau i gynyddu nifer yr asesiadau fideo fel rhan o gynllun peilot.
178. Hoffem glywed eich barn ar y gwahanol ffyrdd o gynnal asesiadau. Bydd hyn yn helpu i lywio ein gwasanaeth asesu iechyd yn y dyfodol.

Cwestiwn ymgynghori:

- Yn ystod pandemig y coronafeirws, gwnaethom gyflwyno asesiadau dros y ffôn a thrwy alwadau fideo fel mesur dros dro. Yn eich barn chi, pa gymysgedd o ddulliau y dylem eu defnyddio i gynnal asesiadau yn y dyfodol?
- Sut y gallem wella asesiadau dros y ffôn a thrwy alwadau fideo, gan gynnwys gwneud yn siŵr eu bod mor gywir â phosibl?

Llai o ailgynnal asesiadau

179. Gall effaith anabledd neu gyflwr iechyd newid dros amser. Rydym yn ailgynnal asesiadau¹²⁵ er mwyn deall a yw'r effaith hon wedi newid ac, os felly, sut. Mae ailgynnal asesiadau yn ein galluogi i sicrhau bod pobl yn parhau i gael y swm cywir o gymorth ariannol.
180. Mae ailgynnal llai o asesiadau ar gyfer pobl anabl os yw'n annhebygol y bydd eu cyflwr yn newid yn sylweddol yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth¹²⁶. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, mae pobl anabl wedi dweud wrthym y dylem wneud rhagor i ailgynnal llai o asesiadau. Mae hyn i'w weld yn yr astudiaeth achos isod.

Astudiaeth achos: Yr angen i ailgynnal llai o asesiadau lle bo cyflwr yn annhebygol o newid¹²⁷

Mae gan Gulnar sawl problem iechyd gan gynnwys canser a chyflyrau ar ei chalon. Gofynnwyd iddi lenwi ffurflen adolygu am fod ei dyfarniad PIP blaenorol yn dod i ben.

Oherwydd ei chyflyrau, mae Gulnar yn treulio llawer o amser yn mynd i apwyntiadau meddygol. Mae hefyd yn ei chael hi'n anodd cyrraedd canolfan asesu. O ganlyniad i hynny, roedd yn anfodlon iawn ar y syniad o orfod mynd drwy asesiad PIP eto. Cyflwynodd ei meddygon ymgynghorol dystiolaeth na fyddai ei chyflwr yn gwella. Teimlai y dylai hyn fod wedi bod yn ddigon i adnewyddu ei dyfarniad PIP.

Yn ddiweddarach, dyfarnwyd PIP i Gulnar yn dilyn asesiad.

181. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da o ran ailgynnal llai o asesiadau. Er enghraifft, drwy ddefnyddio'r meini prawf Cyflyrau Difrifol, rydym wedi rhoi'r gorau i ailgynnal asesiadau ESA/UC ar gyfer pobl â'r cyflyrau mwyaf difrifol a chyflyrau gydol oes¹²⁸.
182. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau er mwyn helpu i sicrhau bod yr asesiadau PIP y mae angen i rai pobl eu cael yn cael eu hailgynnal yn llai aml. Rydym wedi sicrhau y bydd pobl sy'n cael y lefel uchaf o gymorth na fydd eu hanghenion yn gwella, a'r rhan fwyaf o bobl dros Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, yn cael dyfarniad PIP parhaus gydag adolygiad llai manwl ar ôl 10 mlynedd. Gellir cynnal adolygiad yn gynharach os bydd anghenion unigolyn yn newid.
183. Roedd Maniffesto'r Llywodraeth yn 2019 yn ymrwmo i ailgynnal llai o asesiadau ar gyfer pobl anabl, pan fo'u cyflwr yn annhebygol o newid. Rydym wedi penderfynu y bydd gwell brysbennu a threialu'r Grŵp Anabledd Difrifol (a drafodir ym Mhennod 3) yn cyflawni'r ymrwymiad hwn yn fwy effeithiol na chyflwyno isafswm hyd dyfarniad o fewn PIP.


184. Ar ben hynny, hoffem glywed beth yn rhagor y gallem ei wneud i sicrhau na fydd asesiadau'n cael eu hailgynnal yn ddiangen ar gyfer pobl pan fydd eu cyflwr yn annhebygol o newid yn sylweddol.

Cwestiwn ymgynghori:

- Beth yn rhagor y gallem ei wneud i ailgynnal llai o asesiadau, lle bo gan rhywun gyflwr sy'n annhebygol o newid?

Gwella Prosesau Gwneud Penderfyniadau

185. Bydd y broses asesu'n dechrau pan fydd unigolyn yn cyflwyno hawliad, hynny yw, pan fydd yr unigolyn yn gwneud cais am y budd-dal ac yn cyflwyno tystiolaeth i ategu ei hawliad. Nesaf, bydd arbenigwr gwaith ac iechyd a elwir yn aseswr yn cynnal asesiad¹²⁹. Ar y cam hwn, bydd yr aseswr yn llunio adroddiad yn seiliedig ar asesiad wyneb yn wyneb neu adolygiad papur os oes digon o dystiolaeth.
186. Wedyn bydd swyddog penderfyniadau yn ystyried yr adroddiad ar yr asesiad a thystiolaeth arall er mwyn gwneud penderfyniad. Yna, caiff yr unigolyn wybod beth yw'r penderfyniad. Er mwyn gwella'r cam hwn, rydym yn rhoi dull newydd ar waith er mwyn rhoi mwy o amser i swyddogion penderfyniadau gasglu tystiolaeth. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallem wella ansawdd y dystiolaeth a gyflwynir.
187. Os bydd unigolyn yn anghytuno â'r penderfyniad, gall ofyn iddo gael ei ailystyried mewn proses a elwir yn ailystyriaeth orfodol. Er mwyn gwella'r cam hwn, rydym wedi rhoi'r un dull ar waith i roi mwy o amser i swyddogion penderfyniadau gasglu tystiolaeth, sy'n golygu bod nifer yr apeliadau wedi lleihau.
188. Apêl yw'r cam olaf. Yn dilyn ailystyriaeth orfodol, os bydd unigolyn yn dal i anghytuno â'r penderfyniad, gall apelio i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Er mwyn gwella'r cam hwn, gallwn newid y penderfyniad yn seiliedig ar unrhyw dystiolaeth newydd er mwyn atal yr apêl rhag mynd rhagddi.



189. Gwyddom o'r digwyddiadau Papur Gwyrdd nad yw pawb yn teimlo eu bod wedi cael y penderfyniad cywir ar ôl asesiad iechyd. Gall hyn arwain at broses hir ac anodd gan gynnwys apêl i dribiwnlys. Rydym wedi gweithio i wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau, ond hoffem wneud rhagor i wella profiad pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd a, thrwy hynny, feithrin eu hymddiriedaeth.
190. Mae ailystyriaeth orfodol yn rhan allweddol o'n proses gwneud penderfyniadau. Os bydd rhywun yn anghytuno â phenderfyniad ynghylch budd-dal, bydd ganddo hawl gyfreithiol i ofyn am ailystyriaeth orfodol. Mae hyn yn golygu y bydd tîm gwahanol o swyddogion penderfyniadau yn ailystyried y penderfyniad er mwyn gweld a ddylid ei newid. Mae ailystyriaeth orfodol yn rhoi cyfle cynnar i herio ein penderfyniadau, sy'n golygu y bydd llai o benderfyniadau yn destun apêl.

Effaith gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyfannol

191. Fel rhan o'n hymdrechion i ddysgu'n barhaus er mwyn deall sut i wella ein prosesau gwneud penderfyniadau a lleihau nifer yr apeliadau a gyflwynir, gwnaethom gasglu gwybodaeth gan

Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLiThEM), staff yr Adran Gwaith a Phensiynau, pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd a sefydliadau i bobl anabl. Awgrymai'r wybodaeth hon fod angen casglu tystiolaeth o ansawdd yn gynharach yn y broses gwneud penderfyniadau.

192. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, yn 2019 gwnaethom ddechrau gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyfannol. Cyflwynwyd ar gyfer PIP ar y cam ailystyriaeth orfodol i ddechrau. Mae gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyfannol yn galluogi ein staff i dreulio amser ychwanegol, os bydd angen, yn gwneud penderfyniad ynghylch hawl i fudd-dal yn dilyn asesiad iechyd. Yn aml, mae'r amser ychwanegol hwn wedi bod yn fodd i gyflwyno mwy o dystiolaeth i ategu'r broses gwneud penderfyniadau. Mae hefyd wedi rhoi mwy o amser i'n staff wrando ar bobl sy'n hawlio budd-daliadau a helpu pobl i ddeall y rhesymau dros y penderfyniadau a wneir.
193. Ers i ni gyflwyno'r dull newydd hwn mae canran y penderfyniadau ynghylch PIP y byddwn yn eu newid ar y cam ailystyriaeth orfodol wedi dyblu bron¹³⁰. Hefyd, mae canran yr apeliadau a gyflwynir yn dilyn ailystyriaeth orfodol wedi gostwng¹³¹. Mae hyn yn well i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, gan fod y broses apelio yn aml yn anodd ac yn peri straen iddynt. Mae hefyd yn fwy fforddiadwy i'r Adran am ei fod yn golygu y caiff llai o arian ei wario ar apeliadau.
194. Ers hynny, mae dull cyfannol o wneud penderfyniadau wedi cael ei gyflwyno ar y cam ailystyriaeth orfodol ar gyfer ESA ac UC ac rydym bellach yn ei ddefnyddio i wneud y penderfyniad cyntaf ynghylch hawl yn dilyn asesiad iechyd ar gyfer ESA, PIP ac UC. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn golygu y bydd yn llai tebygol y bydd angen i bobl ddefnyddio ailystyriaeth orfodol ac apeliadau. Rydym am barhau i wella ein prosesau gwneud penderfyniadau a hoffem glywed pa newidiadau pellach y gallem eu gwneud.

Astudiaeth achos: Gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyfannol ynghylch ailystyriaethau gorfodol¹³²

Un person sydd wedi cael budd o'n dull cyfannol o wneud penderfyniadau yw rhywun nad yw wedi gweithio ers sawl blwyddyn am ei bod yn gofalu am ei rhieni oeddrannus. Nid yw wedi hawlio ESA o'r blaen, ac roedd yn cael ei Hasesiad Gallu i Weithio (WCA) cyntaf. Yn yr asesiad, dywedodd na allai ymdopi'n dda â gweithgareddau beunyddiol. Argymhellodd adroddiad yr asesiad ei bod yn gallu gweithio.

Fodd bynnag, nid oedd yr anogwr gwaith na'r rheolwr achos yn cytuno â'r penderfyniad hwn. Roeddent o'r farn bod gan yr unigolyn broblemau iechyd hirsefydlog nad oedd yn cael cymorth ar eu cyfer, a bod ganddi ddiffyg dealltwriaeth o'i gallu i ymdopi. Gwnaethant dynnu sylw'r swyddog penderfyniadau at hyn. Pan ffoniodd y swyddog penderfyniadau'r unigolyn i gael sicrwydd ynghylch y penderfyniad, datgelodd yr unigolyn fod rhai o'i ffrindiau wedi'i hannog i geisio cymorth pellach ar gyfer ei hiechyd meddwl yn ddiweddar a'i bod wedi cael rhif ffôn y gwasanaethau cymdeithasol i'w ffonio am nad oedd yn ymdopi. Roedd ei chyflwr meddyliol yn ymddangos yn anarferol iawn yn ystod yr alwad ac roedd yn bryderus iawn, yn wahanol i'r asesiad cychwynnol. O ystyried y dirywiad yn ei chyflwr meddyliol, teimlai'r swyddog penderfyniadau y gallai unrhyw bwysau pellach, fel cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith, arwain at ddirywiad pellach.

Yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth a oedd ar gael, daeth y swyddog penderfyniadau i'r casgliad y byddai risg sylweddol i iechyd meddwl neu iechyd corfforol yr unigolyn pe bai'n penderfynu nad oedd ganddi allu cyfyngedig i weithio a chymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith. Felly, dyfarnwyd ESA iddi a chafodd ei rhoi yn y Grŵp Cymorth. Arweiniodd y dull cyfannol o wneud penderfyniadau at y canlyniad cywir.

Gwella'r broses o ddarhod apeliadau

195. Rydym hefyd wedi parhau i wella'r broses a ddilyni'r pan fydd pobl yn apelio yn erbyn ein penderfyniadau. Os daw tystiolaeth neu wybodaeth newydd i'r amlwg ar ôl i apêl gael ei

chyflwyno, ond cyn iddi gael ei gwrandawrio mewn tribiwnlys, gallwn newid penderfyniad a chynyddu'r dyfarniad lle bo hynny'n briodol. Darfod apêl yw'r enw ar hyn. Byddwn yn ystyried darfod apêl lle bo modd fel na fydd angen i bobl aros i fynd drwy straen gwrandawriad tribiwnlys.

196. Mewn achosion lle na fydd y penderfyniad newydd yn rhoi'r dyfarniad roedd pobl wedi gobeithio amdano, ond sy'n dal i roi mwy na'r penderfyniad blaenorol, byddwn yn siarad â'r unigolyn neu ei gynrychiolydd¹³³ cyn newid y penderfyniad. Os bydd yr unigolyn yn derbyn y penderfyniad newydd, daw'r apêl i ben. Bydd yn dal yn bosibl apelio yn erbyn y penderfyniad newydd ar ôl iddo gael ei dderbyn, ond bydd yr amser aros am apêl yn dechrau eto¹³⁴. Fel arall, os bydd pobl yn anfodlon ar y penderfyniad newydd pan fyddwn yn ei esbonio, ni fyddwn yn newid y penderfyniad a bydd yr apêl yn parhau.
197. Rydym wedi llunio canllawiau newydd i staff ar ddarfod apelïadau. Rydym hefyd yn gweithio gydag elusennau i wella'r ffordd rydym yn rhannu penderfyniadau newydd â phobl fel bod pobl yn gwbl ymwybodol o'r ffordd y cafodd y penderfyniad newydd ei wneud a beth yw eu hawliau o ran apelio. Hoffem glywed awgrymiadau pellach o ran sut i wella'r broses o ddarfod apelïadau.

Cwestiynau ymgynghori:

- Gellir newid penderfyniadau ar ôl i apêl gael ei chyflwyno ond cyn i'r gwrandawriad tribiwnlys gael ei gynnal. Sut y gallwn wella'r ffordd rydym yn rhannu'r penderfyniad newydd yn y sefyllfa hon?
- Pa newidiadau eraill y gallem eu gwneud i wella'r broses gwneud penderfyniadau?

Cefnogi Pobl sy'n Symud Rhwng Budd-daliadau i Blant a Budd-daliadau i Oedolion

198. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, a thrwy fforymau eraill, mae pobl wedi dweud wrthym y gall fod yn anodd symud rhwng budd-daliadau a gwasanaethau i blant a budd-daliadau a gwasanaethau i oedolion. Un enghraifft o hyn yw pan gaiff pobl ifanc sy'n hawlio DLA i Blant eu gwahodd i wneud cais am PIP yn 16 oed.
199. Mae DLA i Blant a PIP yn fudd-daliadau gwahanol sydd â rheolau gwahanol o ran hawl. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fydd gan unigolyn ifanc sy'n derbyn DLA hawl i gael PIP yn yr un ffordd bob amser.
200. Os bydd unigolyn ifanc sy'n hawlio DLA i Blant yn gwneud cais am PIP, bydd angen iddo ddilyn yr un broses â phobl sy'n hawlio PIP am y tro cyntaf, a chaiff ei drin yn yr un ffordd â nhw. Bydd hyn yn aml yn cynnwys cael asesiad.
201. Hoffem glywed pa newidiadau a allai helpu i wella profiad pobl ifanc a'u teuluoedd. Er enghraifft, gallem lunio canllawiau newydd i'r sefydliadau a'r unigolion sy'n cefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd, megis sefydliadau hawliau lles.

Cwestiwn ymgynghori:

- Sut y gallem wella'r profiad a gaiff pobl sy'n hawlio DLA i Blant pan gânt eu gwahodd i neud cais am PIP?

Cymorth i Bobl â Chyflyrau Iechyd Difrifol

Newid y Rheolau Arbennig ar gyfer Salwch Angheuol (SRTI)

202. Ar hyn o bryd, pan fydd unigolyn yn annhebygol o fyw am fwy na chwe mis, caiff ei gais am fudd-dal ei roi ar y trywydd cyflym ac ni fydd angen iddo gael asesiad wyneb yn wyneb. Bydd y mwyafrif o bobl hefyd yn cael y lefel uchaf o fudd-dal¹³⁵.

203. Gwnaethom gynnal gwerthusiad¹³⁶ o'r ffordd y mae'r system budd-daliadau'n cefnogi pobl sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes, lle y clywsom farn pobl yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, eu teuluoedd a'u ffrindiau, y sefydliadau sy'n eu cefnogi a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol¹³⁷ sy'n rhan o'u gofal. Roedd consensws o blaid newid y rheol chwe mis a chryn dipyn o weithwyr gofal iechyd proffesiynol o blaid cyflwyno rheol 12 mis mewn achosion diwedd oes.
204. Felly, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i newid y rheol chwe mis fel y gall pobl y credir eu bod ym mlwyddyn olaf eu hoes gyflwyno hawliadau i'r system budd-daliadau drwy'r trywydd cyflym. Bydd hyn yn helpu i sicrhau system deg a thosturiol. Bydd hefyd yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddir gan y GIG yn Lloegr i wybod pan fydd pobl yn nesáu at ddiwedd eu hoes (yn ogystal â dulliau eraill tebyg a ddefnyddir yn y GIG mewn rhannau eraill o'r DU). Credwn y bydd y newid yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r system budd-daliadau ac yn gwneud y rheolau'n haws eu deall. Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd o symleiddio'r broses gwneud cais i bobl sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes.
205. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod mwy o bobl yn cael cymorth hanfodol yn gyflymach. Hefyd, dylai cysoni dull presennol y GIG ei gwneud hi'n symlach i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ganfod pobl a allai gael y cymorth hwn drwy'r system budd-daliadau. Dylai ei gwneud hi'n haws gwella ymwybyddiaeth pobl o'r cymorth sydd ar gael. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn helpu i wella cysondeb rhwng y gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes.

Profi Grŵp Anabledd Difrifol (SDG)

206. Mae'n bosibl y bydd gan bobl nad ydynt yn bodloni'r rheolau arbennig ar gyfer salwch angheuol gyflyrau difrifol a chyflyrau gydol oes na fyddant yn gwella. Mae'n annhebygol y bydd y bobl hyn yn gweithio byth eto a bydd angen cymorth ariannol ychwanegol arnynt bob amser i fyw'n annibynnol. Mae diwallu anghenion pobl â chyflyrau o'r fath yn bwysig dros ben.
207. Rydym am brofi Grŵp Anabledd Difrifol (SDG) newydd fel y gall y bobl hyn gael budd o broses wedi'i symleiddio heb fod byth angen iddynt lenwi ffurflen gais fanwl na mynd drwy asesiad. Bydd hyn yn adeiladu ar fesurau llwyddiannus sydd eisoes ar waith, megis y Meini Prawf Cyflyrau Difrifol¹³⁸ ar gyfer ESA/UC.
208. Mae'r astudiaeth achos isod yn esbonio pam rydym am wneud newidiadau i'r broses asesu, fel y gall pobl â'r anableddau a'r cyflyrau iechyd mwyaf difrifol hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael drwy broses symlach.

Astudiaeth achos: I bwy y gallai cyflwyno Grŵp Anabledd Difrifol fod o gymorth?¹³⁹

Mae Ashley wedi cael diagnosis bod ganddi Glefyd Niwronau Motor. Symudodd o dderbyn Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) i dderbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP). Cafodd ei synnu'n fawr o gael gwybod y byddai angen iddi ddechrau'r broses o wneud cais am PIP o'r dechrau. Mae Clefyd Niwronau Motor yn gyflwr niwrolegol cynyddol a dirywiol na fydd byth yn gwella. Oherwydd effaith ei chyflwr, roedd Ashley eisoes wedi cael asesiad lle y penderfynwyd ei bod yn gymwys i gael DLA ar y cyfraddau uchaf. Credai Ashley, gan fod yr Adran eisoes yn ymwybodol o'i diagnosis, y byddai trosglwyddo o dderbyn DLA i dderbyn PIP yn broses syml o roi 'sêl bendith' ar ei chymhwysedd.

Fodd bynnag, nid felly y bu. Roedd yn ofynnol i Ashley lenwi ffurflenni hirfaith a chyflwyno tystiolaeth ategol ychwanegol. Cymerodd sawl mis i gwblhau'r broses gyfan hon, a bu'n rhaid i aseswr ymweld ag Ashley yn ei chartref i gasglu rhagor o wybodaeth i ategu ei hawliad. Roedd y profiad hwn yn un llawn straen i Ashley. Ni allai ddeall pam roedd angen yr asesiad yn y cartref gan fod tystiolaeth a dogfennau ategol eisoes wedi cael eu cyflwyno.

209. Rydym yn disgwyl y bydd y penderfyniad i roi rhywun yn yr SDG yn seiliedig ar wybodaeth gan weithwyr meddygol proffesiynol. Gallai'r SDG fod yn berthnasol i bobl sy'n derbyn PIP, ESA ac UC.

210. Rydym yn gweithio gyda grŵp o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn ein helpu i ddatblygu'r meini prawf ar gyfer yr SDG a phennu'r dystiolaeth a fyddai'n ofynnol i'w bodloni. Byddwn yn ymgynghori ag elusennau a sefydliadau i bobl anabl ynghylch y meini prawf. Byddwn hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i ddatblygu'r gwasanaeth, gan brofi'r dull gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn arwain at y gwelliannau rydym am eu gwneud. Bydd y prawf yn ystyried a yw'r SDG yn cyflawni ei nodau gan sicrhau bod pobl yn cael y lefel gywir o fudd-dal. Byddwn yn ystyried canlyniadau'r prawf ochr yn ochr â'r ymatebion i'r Papur Gwyrdd hwn wrth benderfynu a ddylid rhoi'r polisi ar waith ymhellach.

Crynodeb

211. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael profiad cadarnhaol o hawlio budd-daliadau. Lle na chaiff pobl brofiad cadarnhaol, rydym yn gwrandao ar adborth ac yn gweithredu arno fel bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu dibynnu ar yr Adran hon.
212. Rydym yn gobeithio y bydd y newidiadau rydym eisoes wedi'u gwneud yn golygu y bydd pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn cael profiad gwell o asesiadau iechyd ac yn fwy hyderus y gallant ymddiried yn ein penderfyniadau. Rydym hefyd wedi ceisio barn pobl ar newidiadau pellach.
213. Dim ond y dechrau yw'r gwelliannau hyn. Gwyddom fod angen i ni gymryd camau mwy beiddgar er mwyn helpu pobl i fyw bywydau cwbl annibynnol a dechrau gweithio ac aros a llwyddo mewn gwaith.

Pennod 4: Ailystyried Asesiadau yn y Dyfodol er mwyn Helpu i Sicrhau Canlyniadau Gwell

Crynodeb o'r Bennod

Gall canlyniad asesiad gael effaith enfawr ar fywyd rhywun. Yn y bennod hon, byddwn yn esbonio sut yr hoffem fynd ymhellach i wneud newidiadau i asesiadau yn y dyfodol, fel y gallwn helpu mwy o bobl i fyw bywydau annibynnol a gweithio, lle bo modd. Roedd y bennod ddiwethaf yn ystyried newidiadau byrdymor i asesiadau er mwyn gwella profiad pobl, ond bydd y bennod hon yn ystyried:

- Pam rydym am ailystyried asesiadau iechyd, a'r adborth a'r dystiolaeth sy'n ategu hyn;
- Yr amcanion a'r egwyddorion ar gyfer asesiadau yn y dyfodol;
- Cynigion ar gyfer asesiadau yn y dyfodol.

Cyflwyniad

214. Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y posibilrwydd o wneud newidiadau i asesiadau iechyd yn y dyfodol. Newidiadau yn y tymor hwy yw'r rhain, a byddai rhai ohonynt yn gofyn am wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol. Byddwn yn rhannu gwybodaeth rydym wedi'i chasglu gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Rydym hefyd wedi bod yn gwrando ar elusennau, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, melinau trafod ac academyddion. Yn sgil yr adborth hwn, a thystiolaeth o waith ymchwil a dadansoddi, rydym wedi datblygu amcanion a chynigion ar gyfer asesiadau yn y dyfodol.
215. Gwnaethom ymgynghori ar ddiwygio'r WCA ym Mhapur Gwyrdd Gwella Bywydau 2016¹⁴⁰. Dywedodd y rhan fwyaf o bobl y dylem wneud newidiadau, ond nid oedd cytundeb ynghylch y newidiadau y dylid eu gwneud. Ers hynny, fel y nodir ym Mhennod 3, rydym wedi gwella asesiadau ac rydym yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, credwn fod angen gwneud newidiadau pellach o hyd. Hoffem glywed eich barn ynghylch beth yn rhagor y dylem ei wneud.

Adborth a Safbwyntiau ar Asesiadau

216. Er mwyn ein helpu i ddeall y problemau a wynebir gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, rydym wedi bod yn casglu adborth ar asesiadau. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- Creu Fforwm Polisi Asesiadau. Mae'r fforwm yn cynnwys nifer bach o academyddion, melinau trafod ac elusennau i bobl anabl. Mae wedi ystyried amcanion ac wedi rhoi ei farn ar gynigion ar gyfer newid asesiadau. Cyfarfu'r grŵp hwn naw gwaith rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mai 2021.
 - Casglu syniadau drwy gynnal sesiynau datblygu polisiâu penodol a digwyddiadau Papur Gwyrdd. Mae hyn wedi ein galluogi i glywed barn pobl anabl ac elusennau i bobl anabl, yn

ogystal â barn staff yr Adran Gwaith a Phensiynau ac aseswyr sy'n darparu'r gwasanaeth presennol.

217. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael profiad da o asesiadau¹⁴¹. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau i asesiadau ar gyfer y lleiafrif o bobl na chânt brofiad da. Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos yr ofn y gall rhai pobl ei deimlo wrth fynd drwy asesiad, ailystyriaeth orfodol ac apêl. Mae'n dangos yr angen am newid yn y dyfodol.
218. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, clywsom y canlynol:
- **Mae pobl am gael mwy o hyblygrwydd:** Dywedodd rhai pobl fod asesiadau'n rhy haearnaidd. Nid oedd yr asesiadau hyn yn ystyried sut y gall cyflyrau newid dros amser ac, yn aml, roeddent yn ystyried pethau nad oeddent yn berthnasol i gyflwr neu amgylchiadau unigolyn.
 - **Mae angen mwy o ymddiriedaeth a hyder mewn penderfyniadau asesu:** Roedd rhai pobl o'r farn na chafodd eu hymatebion eu cofnodi'n gywir ac nad oedd effaith cyflyrau fel salwch meddwl yn cael ei chydabod yn llawn bob amser. Hefyd, dywedodd rhai pobl nad y WCA oedd y ffordd orau o fesur gallu rhywun i weithio bob amser.

Tystiolaeth ar gyfer Gwneud Newidiadau i Asesiadau

219. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn mynd drwy eu hasesiadau PIP ac ESA heb broblemau sylweddol, ond nid yw hynny'n wir am leiafrif sylweddol¹⁴². Dengys ymchwil fod gan bobl sy'n hawlio PIP safbwyntiau cymysg ar asesiadau¹⁴³. Mae pobl hefyd wedi gofyn pam mae'r asesiad yn ailadrodd yr un cwestiynau a ofynnir yn y ffurflenni y bydd pobl yn eu llenwi cyn yr asesiad¹⁴⁴.
220. Mae nifer y bobl y penderfynir bod ganddynt LCWRA ac a roddir yng Ngrŵp Cymorth ESA yn dilyn WCA wedi cynyddu dros amser, ac mae'n parhau i dyfu¹⁴⁵. Ym mis Tachwedd 2020, roedd 1.9m o bobl yng Ngrŵp Cymorth ESA neu ag LCWRA UC. Mae hyn yn golygu bod 75% o'r holl bobl sy'n hawlio ESA neu'r bobl sy'n derbyn UC a chanddynt gyflwr iechyd yn y Grŵp Cymorth neu'r grŵp LCWRA¹⁴⁶. Fel y trafodwyd ym Mhennod 2, gall pobl yng Ngrŵp Cymorth ESA wirfoddoli i gael cymorth cyflogaeth, ond nid oes llawer o bobl yn gwneud hynny. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd a thrwy waith ymchwil, dywedodd pobl mai pryder ynglŷn â pharatoi ar gyfer gwaith oedd y rheswm dros hyn. Mae rhai pobl yn ofni y bydd paratoi ar gyfer gwaith yn sbarduno ailasesiad WCA neu'n golygu y byddant yn colli budd-daliadau¹⁴⁷.
221. Canfu gwaith ymchwil a wnaed gyda phobl yn y Grŵp Cymorth (a'r grŵp cyfatebol ar gyfer UC, sef LCWRA) fod 20% o'r bobl yn y grwpiau hyn yn credu y gallent weithio yn y dyfodol¹⁴⁸. Rydym am newid y broses asesu bresennol fel ei bod yn canolbwyntio'n well ar hyn y gall pobl ei wneud, yn hytrach na chyfyngiadau'r anabledd neu'r cyflwr iechyd.
222. Nid yw pobl bob amser yn ymddiried yng nghanlyniad eu hasesiad iechyd. Er enghraifft, rhwng cyflwyno PIP yn 2013 a mis Medi 2020, cyflwynodd 9% o'r bobl a gafodd benderfyniad PIP cychwynnol¹⁴⁹ apêl i dribiwnlys. Er mwyn gwella profiad pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, rydym am ystyried gwneud newidiadau i asesiadau fel y bydd gan bobl fwy o hyder yn ein penderfyniadau a'u bod yn llai tebygol o deimlo'r angen i apelio yn erbyn penderfyniad a wneir ar ôl asesiad.

Ein hamcanion ar gyfer asesiadau yn y dyfodol

223. Rydym wedi datblygu cyfres o amcanion ar gyfer diwygio asesiadau, gyda mewnbwn gan y Fforwm Polisi Asesiadau. Credwn y dylai asesiadau yn y dyfodol wneud y canlynol:
- **Meithrin ymddiriedaeth drwy fod yn dryloyw ac yn gyson:** Mae'n bwysig ein bod yn cynnal asesiadau y gall pobl ymddiried ynddynt. Rhaid i asesiadau arwain at y

penderfyniadau a'r canlyniadau cywir. Hefyd, rhaid i benderfyniadau a chanlyniadau gael eu rhannu mewn ffordd sy'n gefnogol ac yn hawdd i bobl ei deall.

- **Bod yn rhan o wasanaeth wedi'i bersonoli:** Rydym am wneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth sydd ar gael er mwyn deall anghenion unigolyn. Rydym am sicrhau bod asesiadau'n ymateb i gyflyrau iechyd sy'n newid.
- **Cynnig profiad gwell:** Rydym am wneud mwy i sicrhau na fydd yn rhaid i bobl roi gwybodaeth fwy nag unwaith na chael ailasesiadau diangen.
- **Gwella canlyniadau o ran cyflogaeth a byw'n annibynnol:** Rydym am annog pobl i fanteisio ar gymorth wedi'i bersonoli lle bo modd. Hefyd, dylai proses asesu well ein helpu i wneud penderfyniadau gwell am yr hyn y mae'n rhaid i unigolyn ei wneud yn gyfnewid am fudd-dal, lle bo angen.

224. Rydym hefyd am sicrhau bod asesiadau'n cynnig gwerth am arian. Rydym am wella gwerth am arian drwy symleiddio prosesau a darparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael yr hyn y mae ganddynt hawl i'w gael, a'u bod yn gwybod pryd i roi gwybod am newidiadau. Bydd y gwasanaethau hyn yn sicrhau bod cymorth yn targedu'r bobl sydd â'r angen mwyaf amdano.

Gwahanu'r asesiadau ar gyfer cymorth ariannol a chymorth cyflogaeth

225. Ym Mhapur Gwyrdd Gwella Bywydau 2016, gwnaethom ymgynghori ar wneud newidiadau i'r WCA. Gwnaethom ofyn a ddylem wahanu'r asesiadau ar gyfer cymorth ariannol a chymorth cyflogaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwnnw yn cytuno y byddai'n syniad da gwahanu'r ddwy elfen hyn, ond nid oedd cytundeb ynghylch sut y dylid gwneud hynny.

226. Credwn y byddai gwahanu'r ddwy elfen hyn yn arwain at ddwy fantais amlwg:

- Gall pobl deimlo'n fwy hyderus ynglŷn â chymryd rhan mewn cymorth cyflogaeth o wybod na fydd yn effeithio ar swm y budd-dal a gaiff ei dalu.
- Mae penderfynu pwy a ddylai gael taliadau ychwanegol oherwydd effaith cyflwr iechyd neu anabledd, a faint y dylai'r taliadau hyn fod, yn wahanol iawn i benderfynu pa gymorth cyflogaeth sydd ei angen ar unigolyn. Mae ceisio gwneud y ddau beth drwy un asesiad yn her.

227. Yn yr ymatebion i Bapur Gwyrdd Gwella Bywydau, dywedodd rhai pobl wrthym eu bod hefyd yn pryderu am y ffordd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud ac a allai hyfforddwy'r gwaith bennu'r gofynion cywir o ran chwilio am waith a pharatoi ar gyfer gwaith. Rydym wedi defnyddio'r adborth hwn i'n helpu i ddatblygu ein cynigion.

Ffordd Newydd o Weithredu: Cynigion ar gyfer Asesiadau yn y Dyfodol

228. Nod ein cynigion ar gyfer asesiadau yn y dyfodol yw meithrin mwy o ymddiriedaeth a gwella ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau. Ym Mhennod 3, gwnaethom esbonio ein bod am ystyried datblygu meini prawf ar gyfer Grŵp Anabledd Difrifol (SDG) newydd er mwyn canfod pobl â'r anableddau a'r cyflyrau iechyd mwyaf difrifol a allai gael budd o broses wedi'i symleiddio ac na fydd angen iddynt gael asesiad i bennu eu cymhwysedd i gael budd-daliadau o bosibl. Yn yr adran hon, rydym am ganolbwyntio ar ddau gwestiwn allweddol:

- Sut y gallwn wella'r ffordd rydym yn asesu hawl i gael cymorth ariannol? Mae hyn yn cynnwys ystyried newidiadau i'r meini prawf asesu, y ffordd rydym yn defnyddio tystiolaeth a rôl aseswyr.

- Sut y gallwn benderfynu'n well pa gymorth cyflogaeth a chymorth iechyd y bydd unigolyn yn eu cael, gan gynnwys yr hyn y bydd yn rhaid i unigolyn sy'n cael UC neu ESA ei wneud i chwilio am waith neu baratoi ar gyfer gwaith?

Asesu er mwyn pennu cymorth ariannol

229. Rydym am i'r broses asesu ar gyfer cymorth ariannol fod mor syml â phosibl. Dylai hyn helpu i sicrhau y gall pobl ddeall yn glir y rheswm dros gynnal asesiad, a'r ffordd y caiff ei gynnal, pa dystiolaeth i'w chyflwyno a'r canlyniad a roddir.
230. Ar hyn o bryd, mae ESA/UC a PIP yn defnyddio'r hyn a elwir yn 'asesiadau gweithredol'. Asesiad sy'n ystyried anghenion unigolyn oherwydd ei gyflwr iechyd neu ei anabledd, yn hytrach na'r cyflwr iechyd neu'r anabledd ei hun, yw asesiad gweithredol.
231. Y nod yw ystyried sut mae cyflyrau iechyd ac anableddau yn effeithio ar allu unigolyn i weithio (ar gyfer ESA/UC) neu fyw'n annibynnol (ar gyfer PIP). Mae ystyried yr anghenion sy'n deillio o gyflwr iechyd neu anabledd unigolyn yn un o nodweddion allweddol asesiadau. Fodd bynnag, rydym wedi clywed yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd a digwyddiadau eraill na fydd y meini prawf a ddefnyddir mewn asesiadau gweithredol bob amser yn adlewyrchu sut mae anabledd neu gyflwr iechyd yn effeithio ar fywyd beunyddiol neu'r gallu i ddod o hyd i waith o bosibl.
232. Mae angen i bobl allu esbonio sut mae eu cyflwr yn effeithio arnynt, neu gyflwyno tystiolaeth o hynny, nid yn unig ar adeg yr asesiad, ond o ddydd i ddydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gallwn fod yn hyderus ein bod yn rhoi cymorth i'r bobl sydd â'r angen mwyaf amdano.
233. Mae'n bwysig ystyried effaith cyflwr neu anabledd unigolyn ar ei allu i weithio neu fyw'n annibynnol. Credwn y dylai hyn barhau i fod yn rhan o asesiadau yn y dyfodol.

Gwneud newidiadau i'r meini prawf asesu

234. Mae llawer wedi newid ers i'r meini prawf asesu ar gyfer WCA a PIP gael eu datblygu'n wreiddiol. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, dywedodd pobl wrthym hefyd nad yw'r disgrifyddion a'r gweithgareddau a ddefnyddir yn yr asesiadau WCA¹⁵⁰ a PIP¹⁵¹ bob amser yn casglu gwybodaeth gystal am rai mathau o gyflyrau iechyd neu anableddau o gymharu â mathau eraill. Felly, rydym am ystyried a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r meini prawf asesu ar gyfer WCA a PIP.
235. Mae asesiadau'r WCA a PIP yn defnyddio disgrifyddion i asesu gallu unigolyn i gyflawni gweithgareddau. Mae'r disgrifyddion yn rhestru amrywiaeth o weithredoedd o fewn pob gweithgaredd y gall pobl eu cyflawni gyda chymorth neu hebdo o bosibl. Gyda'i gilydd, y gweithgareddau a'r disgrifyddion sy'n ffurfio'r meini prawf asesu.
236. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y gweithgareddau'n casglu gwybodaeth gyfartal am effaith pob cyflwr iechyd ac anabledd ar fywydau beunyddiol pobl, gan gynnwys cyflyrau cyfnewidiol. Rydym hefyd am sicrhau bod y diffiniadau a'r disgrifyddion a ddefnyddir yn y meini prawf asesu yn glir.
237. Ers i'r meini prawf asesu gael eu cyflwyno, mae'n bosibl bod rhai o'r gweithgareddau y cyfeirir atynt wedi dod yn llai o rwystr rhag byw'n annibynnol a gweithio. Er enghraifft, mae technoleg gynorthwyol newydd ar gael bellach.
238. Mewn perthynas â'r WCA, mae'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl wedi lleihau rhwng 2014 a 2019 (er y bu cynnydd bach ers 2020)¹⁵². O ganlyniad i bandemig y coronafeirws, mae mwy o bobl yn gweithio'n hyblyg, gan gynnwys gweithio gartref. Gall hyn olygu bod rhwystrau rhag gweithio wedi lleihau.
239. Hoffem i'n gwasanaeth asesu presennol fod yn fwy effeithlon a syml, felly byddai angen i ni wneud unrhyw newidiadau mewn ffordd na fyddai'n cymhlethu nac yn ymestyn y broses asesu.

Ein nod canolog yw sicrhau bod asesiadau'n deg a bod pobl yn cael y lefel o fudd-dal y mae ganddynt hawl i'w chael.

Cwestiynau ymgynghori:

- A oes unrhyw agwedd ar weithgareddau a disgrifyddion presennol PIP y dylid ei newid? (Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod)
 - Os Oes, pa newidiadau i weithgareddau a disgrifyddion PIP y dylem eu hystyried?
- A oes unrhyw agwedd ar weithgareddau a disgrifyddion presennol y WCA y dylid ei newid? (Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod)
 - Os Oes, pa newidiadau i weithgareddau a disgrifyddion y WCA y dylem eu hystyried?

Wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, dylech ystyried:

- Beth yw'r ffordd orau o gasglu gwybodaeth am effeithiau cyflyrau iechyd sy'n newid neu'n amrywio?
- Sut y gallwn sicrhau bod y gweithgareddau a'r disgrifyddion yn casglu gwybodaeth am effaith yr holl gyflyrau iechyd ac anableddau mewn ffordd deg?
- Sut y gallem symleiddio'r meini prawf asesu?
- A oes gweithgareddau PIP neu WCA nad ydynt yn rhwystr mwyach neu sy'n llai o rwystr rhag byw'n annibynnol neu weithio, oherwydd arferion gwaith modern a datblygiadau ym maes technoleg gynorthwyol?

Tystiolaeth ategol ar gyfer asesiadau

Rôl dystiolaeth mewn asesiadau WCA a PIP

240. Mae cael y dystiolaeth gywir ar yr adeg gywir yn allweddol i bob cam o'r broses asesu. Mae'r dystiolaeth gywir yn golygu y gellir gwneud penderfyniadau cadarn y tro cyntaf, gan gynyddu hyder pobl yn y penderfyniadau a lleihau nifer y penderfyniadau a gaiff eu herio drwy'r broses ailystyriaeth orfodol a'r broses apelio. Fodd bynnag, gall fod yn anodd casglu'r dystiolaeth gywir. Caiff asesiadau eu defnyddio werthuso'r anghenion sy'n deillio o gyflwr iechyd neu anabledd ond, ar hyn o bryd, nid oes ffynhonnell safonol o dystiolaeth y gellir ei defnyddio i gadarnhau'r anghenion hyn ar wahân i'r asesiad ei hun.
241. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth feddygol a gesglir ar hyn o bryd yn ein galluogi i gadarnhau cyflwr meddygol unigolyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd hyn yn ddigon i ni allu gwneud penderfyniad heb asesiad. Mae dystiolaeth bellach gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ddefnyddiol (er enghraifft, gan weithiwr cymdeithasol neu ffisiotherapydd). Fodd bynnag, ceir llawer o bobl nad ydynt yn rhyngweithio â gweithwyr proffesiynol o'r fath.
242. Y math mwyaf cyffredin o dystiolaeth a ddefnyddir ar gyfer pobl sy'n derbyn UC neu ESA ar ddechrau eu hawliad yw nodyn ffitrwydd. Tystiolaeth yw'r nodyn hwn, gan feddyg teulu unigolyn fel arfer, sy'n dangos bod gan unigolyn gyflwr iechyd sy'n golygu na all weithio na chyflawni ei ddyletswyddau arferol.
243. Gall defnyddio'r nodyn ffitrwydd fel rhan o broses WCA beri dryswch. Gallai unigolyn gael nodyn ffitrwydd gan ei feddyg teulu yn nodi nad yw mewn cyflwr i weithio, ond wedyn gael penderfyniad gennym ni yn dilyn y WCA yn nodi ei fod yn gallu chwilio am waith. Gall hyn ddigwydd am fod y WCA yn asesu gallu unigolyn i gyflawni *unrhyw* fath o waith yn seiliedig ar y gweithgareddau a'r disgrifyddion penodol yn y meini prawf asesu a nodir yn y gyfraith. Nid yw meddygon teulu'n gyfarwydd â'r meini prawf hyn bob amser. Yn lle hynny, bydd meddygon teulu'n aml yn seilio eu cyngor ar b'un a all unigolyn wneud ei swydd *bresennol* ai peidio, gan ystyried ei gyflwr iechyd.

244. Mae'r astudiaeth achos isod yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael y dystiolaeth feddygol gywir ar yr adeg gywir ac mor gynnar â phosibl yn y broses. Gall hyn helpu i osgoi'r angen i bobl fynd drwy ailystyriaeth orfodol ac apeliadau.

Astudiaeth achos: Yr heriau sy'n gysylltiedig â chael tystiolaeth feddygol¹⁵³

Mae Eldon yn dioddef o iselder cronig, gorbryder a pharanoia. Roedd ei gais am Daliad Annibyniaeth Personol yn llwyddiannus ar y dechrau. Gwaethygodd ei iselder a'i orbryder.

Roedd Eldon yn gyndyn o ofyn i'w feddyg teulu am dystiolaeth am ei fod yn teimlo nad oedd meddygon teulu yn gydymdeimladol. Roedd ei feddyg teulu wedi llunio rhestr o'i gyflyrau a'i feddyginiaethau rheolaidd o'r blaen, ond nid oedd hynny wedi bod o fudd iddo.

Cafodd Eldon gymorth gan Cyngor ar Bopeth i ofyn am ragor o dystiolaeth feddygol. Roedd hyn yn cynnwys asesiad roedd tîm anghenion cymhleth eisoes wedi'i gynnal, a oedd yn bwysig er mwyn deall sut mae cyflwr Eldon yn effeithio ar ei allu i ymdopi â gofynion gweithgareddau beunyddiol. Yn seiliedig ar y dystiolaeth feddygol ychwanegol, cyflwynodd Eldon apêl lwyddiannus mewn perthynas â'i hawl i gael PIP.

245. Rydym am ystyried pa dystiolaeth sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau, a deall pryd y dylid casglu'r dystiolaeth a chan bwy.

Cwestiynau ymgynghori:

- A ddylem geisio tystiolaeth gan bobl eraill, megis gweithwyr iechyd proffesiynol eraill neu sefydliadau cymorth?
- Pa fath o dystiolaeth fyddai fwyaf defnyddiol er mwyn gwneud penderfyniadau yn dilyn asesiad WCA neu PIP, ac a ddylai fod ffordd safonol o'i chasglu?
- Sut y gallem sicrhau bod y dystiolaeth a gesglir gennym cyn asesiad WCA neu PIP yn ymwneud yn uniongyrchol â gallu unigolyn i wneud pethau penodol?

Rôl aseswyr yn y broses o benderfynu ar gymorth ariannol

246. Mae rôl aseswyr wedi cael ei phwysleisio mewn gwaith ymchwil¹⁵⁴, ac mae'r adborth rydym wedi'i gael wedi cyfeirio ati'n aml hefyd. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, clywsom y canlynol:

- Roedd rhai pobl o'r farn nad oedd gan yr aseswr ddigon o wybodaeth am rai cyflyrau i allu eu hasesu'n gywir;
- Teimlai rhai pobl nad oedd yr aseswyr wedi cofnodi'r hyn a ddigwyddodd yn yr asesiad yn gywir;
- Roedd rhai pobl yn pryderu nad oedd eu haseswr wedi gwrando ar eu hatebion bob amser.

247. Mae pobl wedi dweud wrthym yr hoffent gael aseswyr arbenigol sy'n briodol i'w cyflwr. Byddai hyn yn anodd am nifer o resymau. Yn gyntaf, efallai na fydd arbenigwyr ar gael. Yn ail, mae gan lawer o'r bobl sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd fwy nag un cyflwr.

248. Mae aseswyr eisoes yn gallu cael cymorth arbenigol fel y gallant gael cyngor ar asesiadau os bydd angen. Fodd bynnag, hoffem ystyried a oes amgylchiadau lle y gallai fod yn ddefnyddiol galw ar arbenigwyr ychwanegol i gefnogi aseswyr a swyddogion penderfyniadau. Hoffem ddeall a fyddai hyn yn gwella canlyniadau ac yn gwella ymddiriedaeth a hyder pobl yn y penderfyniad a wneir.

Cwestiwn ymgynghori:

- Sut y gallem wella asesiadau neu'r cymorth arbenigol sydd ar gael i aseswyr a swyddogion penderfyniadau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o effaith cyflwr unigolyn ar ei allu i weithio neu fyw'n annibynnol?

Adolygu cymorth ariannol

249. Bydd llawer o gyflyrau iechyd yn newid dros amser. Mae angen i ni fwrw golwg dros yr hyn y mae gan bobl hawl i'w gael er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn briodol o hyd. Gallai hyn arwain at ddyfarniad uwch neu is, yn dibynnu ar b'un a yw effaith cyflwr unigolyn wedi gwella neu waethgu.
250. Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod wedi rhoi'r gwiriadau cywir ar waith i sicrhau ein bod yn talu'r symiau cywir o arian i bobl ar gyfer eu hamgylchiadau penodol. Rydym am annog pobl i sicrhau bod eu hawliadau'n gyfredol. Bydd hyn yn helpu i leihau'r risg y bydd pobl yn cael gormod neu'n cael rhy ychydig mewn budd-daliadau.
251. Rydym wedi clywed y gall ailgynnal asesiadau beri pryder i bobl sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd. Ym Mhenod 3, gwnaethom ystyried ffyrdd o ailgynnal llai o asesiadau ar gyfer pobl. Yn y bennod hon, rydym am ystyried a oes ffyrdd eraill o adolygu cymorth ariannol a fyddai'n peri llai o straen ac yn galluogi pobl i gyflwyno darlun o unrhyw newid yn eu cyflwr dros amser.
252. Rydym am ystyried defnyddio Cofnod Effaith ar Iechyd (HIR) i wneud hyn fel y gall pobl gofnodi effaith eu cyflwr drwy gydol eu hawliad, yn arbennig pan fydd rhywbeth wedi newid. Gallai hyn fod yn fodd i rywun hunanasesu ei gyflwr/ei gyflyrau a'i anghenion cymorth. Gallai pobl eraill yn rhwydwaith cymorth unigolyn, a gweithwyr iechyd proffesiynol o bosibl, gyfrannu at yr HIR, yn ogystal â'r sawl sy'n gwneud yr hawliad.

Cwestiwn ymgynghori:

- Sut y gallwn ei gwneud hi'n haws i bobl roi gwybod i ni os bydd eu cyflwr neu eu hamgylchiadau wedi newid fel y gellir cynnal adolygiad o'u hawl ar yr adeg gywir?

Profi trafodaeth cyflogaeth ac iechyd

253. Rydym wedi esbonio y gallai gwahanu'r asesiad ar gyfer cymorth ariannol oddi wrth y broses o ystyried cymorth cyflogaeth a mathau eraill o gymorth olygu y bydd mwy o bobl yn fodlon manteisio ar gymorth. Gallai hyn arwain at ganlyniadau gwell o ran cyflogaeth a byw'n annibynnol.
254. Hoffem ystyried a allai trafodaeth ar wahân am gyflogaeth ac iechyd helpu pobl i baratoi ar gyfer gwaith neu ddechrau gweithio os gallant wneud hynny. Hefyd, gall gwaith fod yn rhan o amcanion byw'n annibynnol llawer o bobl sy'n hawlio PIP, felly gellid cynnig y cymorth hwn iddyn nhw. Gallai'r drafodaeth hon gael ei harwain gan arbenigwr gwaith ac iechyd. Sgwrs am effaith cyflwr unigolyn ar ei allu i baratoi ar gyfer gwaith fyddai'r drafodaeth hon. Hefyd, gallai'r arbenigwr gwaith ac iechyd a'r unigolyn gytuno ar weithgareddau i'w cyflawni er mwyn goresgyn heriau. Byddai'r drafodaeth yn canolbwyntio ar yr hyn y gall yr unigolyn ei wneud, yn hytrach na'r hyn na all ei wneud. Gallai ystyried nodau gyrfa, cymorth yn y gweithle a chyfeirio at fathau eraill o gymorth.
255. Rydym yn rhagweld y byddai'r drafodaeth hon yn arwain at lunio cynllun gweithredu. Gallai'r cynllun hwn nodi camau gweithredu y gellid eu rhannu â chyflogwyr yn y dyfodol neu â rhwydwaith cymorth uniongyrchol yr unigolyn. Gallai gynnwys pethau fel addasiadau yn y gweithle, lle bo hynny'n briodol. Hefyd, gallai gynnwys gweithwyr cymorth er mwyn rhoi anogaeth i weithredu ar y camau cadarnhaol a amlinellir yn y cynllun.

256. Fel cam cyntaf i ddeall sut y gallai trafodaeth cyflogaeth ac iechyd weithio, rydym yn ystyried a ddylid profi hyn o fewn y system bresennol. Bydd y prawf hwn yn ystyried a oes modd cynnal y drafodaeth hon yn effeithiol ac a fyddai'n cynnig gwerth am arian. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos sut y gall cyngor gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arbenigol wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Astudiaethau achos: Cymorth gan Weithwyr Iechyd Galwedigaethol Proffesiynol

Astudiaeth achos 1¹⁵⁵

Ar ôl cael WCA, gofynnodd anogwr gwaith Suzanne yn y Ganolfan Byd Gwaith iddi gyfarfod â gweithiwr iechyd galwedigaethol proffesiynol. Pan gafodd Suzanne ei chyflwyno i Abby, sy'n weithiwr iechyd galwedigaethol proffesiynol, roedd yn y broses o gael cyfres o brofion am broblemau posibl ar y galon neu arthrits gwynegol. Roedd symudedd Suzanne yn gyfyngedig iawn ac roedd yn ei chael hi'n anodd cyflawni tasgau gofal personol beunyddiol. Aeth Suzanne gyda'i gŵr ac roedd y ddau ohonynt yn ofidus pan ddaethant i weld Abby. Fodd bynnag, llwyddodd Abby yn gyflym iawn i gynnig cymorth a chefnogaeth i Suzanne a fyddai'n gwella ei bywyd o ddydd i ddydd.

Gwelodd Abby fod angen i Suzanne gael cymorth gan wasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a rhoddodd y ddau mewn cysylltiad â'i gilydd. O fewn pum diwrnod, trefnodd y gwasanaeth i aelod o'i staff ymweld â chartref Suzanne a gwneud addasiadau i'w chartref fel y gallai ofalu amdani ei hun yn haws. Roedd hyn yn cynnwys newid ei seddi er mwyn rhoi mwy o annibyniaeth iddi. Hefyd, cafodd Suzanne gymorth gan Anne i gysylltu â sefydliad a roddodd gyngor iddi ar aros yn ei chartref presennol a chysylltu â'r cyngor i ofyn am gartref mwy hygyrch.

Dywedodd Suzanne: "Roedd hi'n [Abby] llawn gwybodaeth ac mae ei gwybodaeth wedi gwneud bywyd yn llawer haws i mi. Mae hi wedi gwneud gwahaniaeth enfawr."

Astudiaeth achos 2¹⁵⁶

Cafodd Annabel gymorth gan weithiwr iechyd galwedigaethol proffesiynol a'i helpodd i bennu nodau a dechrau gweithio.

Dechreuodd Annabel hawlio UC ar ôl bod yn ddi-waith am 12 mis. Roedd ganddi orbryder ac iselder ac roedd yn ymdopi â bywyd cartref anodd iawn. Roedd Annabel yn treulio llawer o'i hamser yn ceisio rhoi cymorth i'w mam a oedd yn dioddef o iselder clinigol ac yn ddibynnol ar alcohol, yn ogystal â'i brawd iau a oedd yn gaeth i gyffuriau. Teimlai Annabel na allai ganolbwyntio arni hi ei hun ac ar yr hyn roedd angen iddi ei wneud i wella ansawdd ei bywyd ei hun.

Cyflwynodd anogwr gwaith Annabel hi i therapydd galwedigaethol am fod Annabel yn teimlo y gall cael swydd fod yn ddefnyddiol drwy roi rhywfaint o sefydlogrwydd iddi yn ei bywyd a gwella ei hunan-barch.

Gofynnodd y therapydd galwedigaethol i Annabel gwblhau ymarfer mapio meddwl lle roedd angen iddi ystyried y pethau roedd yn eu hoffi a'r pethau nad oedd yn eu hoffi a pha syniadau a oedd ganddi ar gyfer symud yn ei blaen. Cafodd Annabel ail gyfarfod gyda'r therapydd galwedigaethol i drafod yr ymarfer ac yna rhoddodd y therapydd galwedigaethol lawer o gyngor ymarferol iddi ar gyrsiau roedd ganddi ddiddordeb ynddynt. Gyda'i gilydd, aethant ati i bennu nodau clir er mwyn Annabel i symud yn ei blaen.

Rhoddodd y cymorth ychwanegol hwn hyder i Annabel wneud cais am le ym Mhrifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn i astudio gradd sylfaen. Hefyd, diweddarodd ei CV a dechreuodd wneud cais am swydd. Yn fuan, cafodd gynnig rôl yn y sector manwerthu a dechreuodd weithio 19 awr yr wythnos. Rhoddodd Annabel wybod i'w hanogwr gwaith ei fod yn falch iawn o fod wedi rhoi cynllun ar waith ar gyfer y dyfodol. Roedd yn teimlo'n gadarnhaol ei bod wedi llwyddo i newid ei bywyd er gwell a bod ganddi'r amser i gyflawni ei huchelgeisiau ei hun.

Cwestiynau ymgynghori:

- Beth y gellid ei gynnwys mewn trafodaeth er mwyn datblygu cynllun cymorth cyflogaeth ac iechyd sydd wedi'i bersonoli'n fwy?
- Pa sgiliau a phrofiad a ddylai fod gan y sawl sy'n cynnal trafodaeth cyflogaeth ac iechyd?

Crynodeb

257. Yn y bennod hon, rydym wedi esbonio pam mae angen gwneud newidiadau pellach i asesiadau ac wedi ystyried cynigion beiddgar ar gyfer newid. Rydym wedi:

- Disgrifio'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud gyda phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, elusennau anabledd ac eraill i glywed am asesiadau a phennu amcanion ar gyfer asesiadau yn y dyfodol;
- Ystyried sut i symleiddio a gwella'r asesiadau ar gyfer cymorth ariannol;
- Ystyried trafodaeth ar wahân ar gyfer cymorth cyflogaeth ac iechyd.

Pennod 5: Ystyried Ffyrdd o Wella Dyluniad y system budd-daliadau

Crynodeb o'r Bennod

Rydym yn ymrwymedig i wella bywydau pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae'r cynnydd mewn gwariant ar fudd-daliadau iechyd ac anabledd yn awgrymu bod mwy y gallwn ei wneud i alluogi pobl i fyw'n annibynnol a gweithio. Rydym am ystyried gwneud newidiadau mwy i'r system budd-daliadau a fydd yn gwella canlyniadau i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd ac a fydd hefyd yn golygu y bydd y system yn fwy fforddiadwy yn y dyfodol.

Yn y bennod hon, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Ystyried newidiadau mawr rydym eisoes wedi'u gwneud i'r budd-daliadau y bydd pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn eu hawlio;
- Amlinellu heriau yn y system bresennol a'u hystyried yng nghyd-destun y ffordd y mae graddau a natur anabledd yn newid;
- Ystyried enghreifftiau o'r ffyrdd y mae gwledydd eraill yn rhoi cymorth i bobl anabl;
- Ystyried newidiadau pellach a mwy o faint sydd â'r potensial i wella canlyniadau a mynd i'r afael â'r cynnydd mewn gwariant ar fudd-daliadau. Mae'r rhain yn newidiadau hirdymor a fydd yn gwneud y canlynol:
- Helpu i symleiddio'r system;
- Helpu mwy o bobl i ddechrau gweithio, a hynny'n well, lle y bo'n briodol;
- Helpu pobl i reoli newidiadau yn eu hawl i fudd-daliadau;
- Rhoi cymorth mwy effeithiol i bobl dalu eu costau ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys ystyried opsiynau amgen yn hytrach na chymorth ariannol a allai alluogi pobl i fyw'n annibynnol yn well.

Rydym am roi cymorth i oresgyn heriau sy'n gysylltiedig â byw'n annibynnol, gan gynnwys drwy alluogi mwy o bobl i ddechrau gweithio a symud ymlaen mewn gwaith lle bo modd. Ochr yn ochr â helpu mwy o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i fwynhau manteision cyflogaeth, bydd hyn yn sicrhau bod y system budd-daliadau iechyd ac anabledd yn fforddiadwy yn y dyfodol, fel y gallwn barhau i roi cymorth i'r bobl sydd â'r angen mwyaf amdano.

Cyflwyniad

258. Mae'r system budd-daliadau yn ffynhonnell bwysig o gymorth ariannol i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Hefyd, mae'n rhoi cymorth hanfodol pan effeithir ar allu unigolyn i weithio. Mae cyfanswm o 3.5 miliwn o bobl o oedran gweithio sy'n hawlio UC a chanddynt gyflwr iechyd yn derbyn ESA, PIP neu DLA¹⁵⁷.

259. Rydym am i'n budd-daliadau helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i fyw bywydau annibynnol. Dylai'r system budd-daliadau helpu ac annog pobl i ddechrau gweithio ac aros llwyddo mewn gwaith lle bo modd. Hefyd, dylai gynnig rhwyd diogelwch i bobl na allant weithio oherwydd effaith anabledd neu gyflwr iechyd. Mae hefyd yn bwysig bod ein cymorth yn effeithiol ac wedi'i dargedu. Ar ben hynny, rydym am wella'r ffordd y byddwn yn rhoi pobl mewn cysylltiad â'r cymorth ehangach sydd ei angen arnynt, megis helpu i reoli iechyd a llesiant. Bydd hyn yn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd a sicrhau bod gwariant cyhoeddus ar fudd-daliadau yn fforddiadwy yn y tymor hir.
260. Yn y bennod hon, byddwn yn amlinellu'r newidiadau blaenorol a wnaed i'r system budd-daliadau ac yn ystyried eu heffaith. Byddwn hefyd yn ystyried beth yn rhagor y gallwn ei wneud i wella'r system ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Hoffem glywed a oes angen i ni wneud mwy o newidiadau i'n budd-daliadau er mwyn gwneud newidiadau pellach. Os bydd angen gwneud newidiadau, hoffem glywed beth y dylent fod.

Newidiadau Blaenorol i Fudd-daliadau

261. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu dau brif fath o fudd-dal i bobl o oedran gweithio sy'n anabl ac sydd â chyflyrau iechyd, sef:

- Budd-daliadau sy'n rhoi arian i bobl nad ydynt mewn gwaith neu sy'n gyflogedig ar gyflog isel. Gellir dyfarnu cymorth ariannol ychwanegol i bobl sy'n debygol o dreulio mwy o amser yn ddi-waith oherwydd eu hanabledd neu gyflwr iechyd. Caiff y mathau hyn o fudd-daliadau eu galw'n fudd-daliadau sy'n disodli incwm ac yn eu plith mae UC ac ESA. Mae cymhwysedd i gael UC ac ESA yn seiliedig ar incwm (ESA(IR)) yn gwbl seiliedig ar enillion a chynilion unigolyn. Mae'n bosibl y gall pobl â chynilion gwerth mwy nag £16,000 hawlio ESA cyfrannol (ESA Newydd) os ydynt wedi talu i mewn i'r system i gael cymorth¹⁵⁸.
 - Budd-daliadau i roi arian er mwyn helpu pobl i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd neu gyflwr iechyd. Ar gyfer pobl o oedran gweithio, bydd hyn drwy PIP yn bennaf, ond bydd rhai pobl yn dal i dderbyn DLA. Ni fydd incwm nac arbedion unigolyn yn effeithio ar ei gymhwysedd i gael budd-daliadau costau ychwanegol. Ni fydd p'un a yw unigolyn yn gweithio ai peidio na faint y mae wedi'i dalu i mewn i'r system, er enghraifft drwy gyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn effeithio ar y cymhwysedd hwn chwaith.
262. Mae dau newid mawr i fudd-daliadau iechyd ac anabledd wedi cael eu cyflwyno yn ystod y 10 mlynedd diwethaf¹⁵⁹. Rydym wedi bod yn cyflwyno PIP yn lle DLA i oedolion. Rydym hefyd wedi creu UC i ddisodli chwe budd-dal gwahanol sy'n seiliedig ar incwm (gan gynnwys ESA (IR))¹⁶⁰. Nid yw UC wedi disodli ESA cyfrannol. Mae'r budd-dal hwn yn bodoli o hyd, ochr yn ochr ag UC, a chaiff ei alw'n ESA Dull Newydd bellach.
263. Cyflwynwyd y newidiadau hyn er mwyn cyflawni nodau penodol a mynd i'r afael â'r heriau a oedd yn gysylltiedig â'r budd-daliadau a oedd yn cael eu disodli. Wrth ystyried a fydd angen gwneud newidiadau pellach, mae'n bwysig myfyrio ar nodau ac effaith y newidiadau a wnaed hyd yma.

Cyflwyno PIP

264. Cyflwynwyd PIP i ddisodli DLA a'i nod oedd gwella:

- Cysondeb: er mwyn bod yn fwy gwrthrychol, caiff hawliadau PIP eu hasesu yn seiliedig ar feini prawf penodedig gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol annibynnol. Bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n hawlio PIP cael asesiad er mwyn pennu'r lefel gywir i'w dyfarnu iddynt. Dim ond 5% o'r bobl a oedd yn hawlio DLA oedd yn cael asesiad. Byddai'r rhan fwyaf o benderfyniadau ynghylch DLA yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gais, yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth feddygol. Mae asesiadau'n galluogi pobl i roi esboniad cliriach o effaith eu cyflwr iechyd. Gallant hefyd helpu i dynnu sylw at broblemau na fyddai'n cael eu canfod fel arall o bosibl.

- Cynaliadwyedd: sicrhau mai'r bobl hynny sydd â'r lleiaf o allu i gymryd rhan mewn cymdeithas sy'n cael cymorth yn bennaf. Caiff asesiadau eu hailgynnal yn rheolaidd ar gyfer PIP er mwyn sicrhau y bydd pobl yn parhau i gael y lefel gywir o gymorth. Roedd mwy na 70% o'r bobl a oedd yn derbyn DLA yn cael dyfarniad parhaus. Caiff y rhan fwyaf o ddyfarniadau PIP eu gwneud am gyfnod penodol. Fodd bynnag, rhoddir dyfarniad parhaus i rai pobl, gan gynnal adolygiad llai manwl ar ôl 10 mlynedd.
 - Tegwch: canolbwyntio ar yr anghenion sy'n deillio o gyflwr iechyd unigolyn yn hytrach na'r cyflwr ei hun. Nod PIP yw trin gwahanol fathau o gyflyrau iechyd yn gyfartal.
265. O ran i ba raddau y gwnaeth PIP sicrhau'r newidiadau roeddem yn eu bwriadu, ceir rhai meysydd amlwg lle y bu llwyddiant, a meysydd eraill lle y ceir heriau o hyd.
266. Fel yr esboniwyd ym Mhennod 4, mae asesiadau WCA a PIP yn defnyddio meini prawf i asesu gallu unigolyn i gyflawni gweithgareddau a phenderfynu ar y lefel briodol o gymorth ariannol. Mae'r meini prawf asesu a ddefnyddir ar gyfer PIP wedi'u diffinio'n fwy clir na'r meini prawf ar gyfer DLA. Rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau y caiff effaith cyflyrau iechyd ei chydabod yn well. O dan PIP, mae cyfran y bobl â chyflwr iechyd meddwl sy'n derbyn budd-dal ar y gyfradd uchaf bron chwe gwaith yn uwch na'r gyfran gyfatebol o dan DLA¹⁶¹.
267. Fodd bynnag, fel y trafodwyd ym Mhennod 4, ceir nifer o heriau sy'n gysylltiedig ag asesiadau. Mae llawer o'r rhain yn gysylltiedig ag asesiad PIP a'r WCA, a ddefnyddir ar gyfer ESA ac UC. Er enghraifft, gwyddom o'r digwyddiadau Papur Gwyrdd nad yw rhai pobl yn meddwl bod y system bresennol o ailgynnal asesiadau yn briodol ar gyfer pobl â chyflyrau sy'n annhebygol o newid. Mae'r Adran hefyd yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â chynnal y nifer angenrheidiol o asesiadau. Yn achos PIP, mae hyn yn rhannol am fod nifer yr hawliadau newydd yn uwch na'r nifer cyfatebol o hawliadau newydd a wnaed am DLA cyn i PIP gael ei gyflwyno¹⁶² Rheswm arall pam ei bod yn heriol cynnal y nifer angenrheidiol o asesiadau PIP yw bod dyfarniadau PIP, yn wahanol i'r rhan fwyaf o ddyfarniadau ESA ac UC, fel arfer yn cael eu gwneud am gyfnod penodol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, bydd angen ailgynnal asesiad fel arfer (a elwir yn 'adolygiad dyfarniad' ar gyfer PIP) er mwyn atal yr hawliad rhag dirwyn i ben.
268. Hefyd, mae PIP wedi wynebu nifer o heriau cyfreithiol llwyddiannus. Er ei bod yn arferol i'r llysoedd brofi deddfwriaeth newydd, mae nifer yr heriau a'r gyfradd lwyddo yn awgrymu y byddai wedi bod yn fuddiol profi rhai o feini prawf asesu PIP ymhellach cyn i PIP gael ei gyflwyno. Amcangyfrifir bod gwariant ar PIP wedi cynyddu £1-2bn y flwyddyn o gymharu â DLA¹⁶³. Mae'r gost o wneud y newidiadau gofynnol ar ôl achosion cyfreithiol llwyddiannus yn un o'r nifer o resymau pam mae cost PIP wedi cynyddu.

Cyflwyno Credyd Cynhwysol

269. Cyflwynwyd UC er mwyn symleiddio'r system budd-daliadau. Ei nod oedd helpu pobl i ddechrau gweithio a symud ymlaen mewn gwaith, gan gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed hefyd. Mae UC yn disodli amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys ESA(IR).
270. Mae ESA(IR) ac UC yn rhoi cymorth sy'n dibynnu ar brawf modd i bobl ar incymau isel sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio. Dyluniwyd ESA yn seiliedig ar dri phrif amcan: helpu pobl i aros mewn gwaith pan fyddant yn mynd yn sâl neu'n anabl; cynyddu nifer y bobl sy'n rhoi'r gorau i gael budd-daliadau er mwyn dechrau gweithio; a mynd i'r afael ag anghenion pobl y mae angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol arnynt yn well.
271. Mae'r dull gweithredu ar gyfer pobl sy'n hawlio UC a chanddynt gyflwr iechyd yn debyg i'r dull a ddefnyddir ar gyfer ESA. Caiff gallu unigolyn i weithio a'i gymhwysedd i gael taliad atodol sy'n gysylltiedig ag iechyd ei bennu yn seiliedig ar ganlyniad WCA. Caiff llawer o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r WCA eu hystyried ym Mhennod 4. Yn achos UC, caiff y taliad atodol hwn ei roi i bobl y penderfynir bod ganddynt LCWRA ac mae'n werth £343 yn ychwanegol y mis.
272. O gymharu â budd-daliadau hyn, mae gan UC lawer o nodweddion sydd â'r nod o'i gwneud hi'n haws i bobl ddechrau gweithio. Mae wedi'i fwriadu ar gyfer pobl sy'n ddi-waith a phobl sydd

mewn gwaith ar incwm isel. Nid oes angen i bobl sy'n derbyn UC newid rhwng budd-daliadau gwahanol pan fyddant yn dechrau gweithio neu'n rhoi'r gorau i weithio, yn gweithio oriau gwahanol nac yn ennill cyflog gwahanol mwyach. Mae hyn yn golygu y gall pobl deimlo'n hyderus ynglŷn â gallu rhoi cynnig ar weithio wrth dderbyn UC, heb boeni am golli eu holl fudd-daliadau ar unwaith.

273. Nod UC yw gwneud i waith dalu. Gall pobl gael budd o lwfans gwaith sy'n golygu y gallant ennill mwy cyn i'w budd-dal leihau. Pan fydd yr enillion yn fwy na'r lwfans gwaith, caiff y budd-dal ei dapro, sy'n golygu ei fod yn lleihau mewn ffordd gyson. Am bob £1 a enillir, caiff 63c ei dynnu o fudd-dal unigolyn, yn hytrach na'r £1 lawn. Mae hyn yn golygu y bydd hi'n well ar bobl os byddant yn gweithio, hyd yn oed am ychydig o oriau, lle bo modd. Gall rhai pobl, gan gynnwys pobl sy'n anabl neu bobl sydd â chyflwr iechyd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio, gael lwfans gwaith. Mae hyn yn golygu y bydd pobl yn cadw £293 neu £515 o'r arian y byddant yn ei ennill cyn i'r budd-dal gael ei dapro.
274. Gwnaethom roi'r gorau i dderbyn ceisiadau newydd am ESA(IR) ym mis Ionawr 2021¹⁶⁴. Ym mis Tachwedd, roedd 952,260 ^[ii] o bobl yn dal i hawlio ESA(IR). Gall y bobl hyn gyflwyno hawliad newydd am UC os byddant yn dymuno gwneud hynny, neu os bydd eu hamgylchiadau'n newid i'r graddau y gallant hawlio UC. Ar hyn o bryd, nid oes modd cymharu pobl sy'n cael UC a chanddynt gyflwr iechyd â phobl sy'n cael ESA. Y rheswm dros hyn yw bod llawer o wahaniaethau rhwng y bobl sy'n hawlio'r budd-daliadau gwahanol, megis ers faint o amser y maent wedi bod yn hawlio'r budd-dal.

Pam Mae Angen Newid Pellach

275. Mae'r enghreifftiau a amlinellir uchod yn dangos y gall gwneud newidiadau i fudd-daliadau arwain at gyfleoedd ac at heriau hefyd. Mewn penodau blaenorol, rydym wedi ystyried meysydd posibl i'w gwella yn y system budd-daliadau bresennol. Rydym yn hyderus y bydd bwrw ymlaen â'r gwelliannau hyn yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion yn well. Fodd bynnag, gwyddom mai dim ond 'hyn a hyn' y gall newidiadau yn y system bresennol ei gyflawni, a bod angen ffordd newydd o weithredu¹⁶⁵.
276. Mae'r adran hon yn crynhoi'r hyn rydym wedi'i glywed gan bobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi. Mae'n cynnwys tystiolaeth bellach o ba mor effeithiol rydym yn helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i ddechrau gweithio. Hefyd, ystyriwn y pwysau ychwanegol a fydd ar y system budd-daliadau yn y dyfodol.
277. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, clywsom y canlynol:
- Gall diben y budd-daliadau gwahanol beri dryswch. Weithiau, bydd hyn yn golygu nad yw pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael;
 - Bydd rhai pobl yn poeni na fyddant yn cael eu budd-daliadau mwyach os byddant yn paratoi i weithio;
 - Dylai fod mwy o hyblygrwydd i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd sy'n dechrau gweithio a/neu'n rhoi'r gorau i gael budd-daliadau;
 - Gall deimlo fel petai'r system budd-daliadau'n ceisio rhoi'r 'un ateb i bawb' wrth geisio diwallu anghenion pobl. Mae rhai pobl am weld mwy o hyblygrwydd yn y system.
278. Rydym am wneud mwy er mwyn helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i ddechrau gweithio ac aros a llwyddo mewn gwaith. Dros y blynnyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni ein nod o sicrhau bod miliwn yn rhagor o bobl anabl mewn gwaith erbyn 2027¹⁶⁶. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod cyfradd cyflogaeth pobl anabl wedi cynyddu 8.4% ers 2014¹⁶⁷. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfradd cyflogaeth pobl anabl a chyfradd gyflogaeth pobl nad ydynt yn anabl, a elwir yn fwch cyflogaeth i bobl anabl, yn 28.6% o hyd¹⁶⁸. Mae Pennod 2 yn ystyried sut y gallwn wella'r cymorth cyflogaeth sydd ar gael i


bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Yn y bennod hon, rydym am ystyried newidiadau mwy er mwyn helpu i wella canlyniadau cyflogaeth.

279. Mae nifer cynyddol o bobl yn cael asesiad sy'n pennu bod ganddynt LCWRA wrth gael UC neu'n cael eu rhoi yng Ngrŵp Cymorth ESA. Nid yw'n ofynnol i'r bobl hyn chwilio am waith na pharatoi ar gyfer gwaith. Yn 2012, rhagwelwyd y byddai cyfanswm o 0.3m o bobl yn y Grŵp Cymorth erbyn 2017/18 (15% o'r holl bobl a oedd yn derbyn ESA). Fodd bynnag, yn 2018 roedd 1.6m o bobl yn y Grŵp Cymorth (67% o'r holl bobl a oedd yn cael ESA). Ers hynny, mae'r ffigur wedi cynyddu i 1.9m o bobl (75% o'r holl bobl sy'n cael ESA neu'r bobl sy'n cael UC a chanddynt gyflwr iechyd) yn y Grŵp Cymorth neu ag LCWRA¹⁶⁹.
280. Mae gwaith ymchwil gyda phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn dangos yr hoffai rhai pobl ag LCWRA sy'n cael UC neu sydd yng Ngrŵp Cymorth ESA weithio, pe bai'r swydd gywir a'r cymorth cywir ar gael¹⁷⁰. Fodd bynnag, roedd rhai pobl yn pryderu y gallai gwneud gwaith am dâl olygu eu bod mewn perygl o golli eu budd-daliadau neu y byddai'n rhaid iddynt wneud cais am fudd-daliadau eto pe na baent yn aros yn y swydd. Hefyd, roedd rhai pobl yn poeni am fod heb incwm yn ystod y cyfnod ar ôl i'w budd-daliadau ddod i ben a chyn iddynt gael eu cyflog cyntaf mewn swydd newydd¹⁷¹.
281. Mae'n debygol bod rhai o'r pryderon hyn (a ddaeth i'r amlwg yn ein gwaith ymchwil ac yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd) yn ymwneud â budd-daliadau hŷn, megis ESA(IR). Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, nod cyflwyno UC yw mynd i'r afael â sawl un o'r problemau hyn er mwyn rhoi gwell cymorth i bobl sy'n gallu gweithio ac yn awyddus i wneud hynny.
282. Gwyddom nad dim ond yn ariannol y mae gwaith yn fuddiol i bobl. Caiff y dystiolaeth y gall gwaith priodol arwain at fuddiannau iechyd a llesiant ei chydabod yn eang. Dengys tystiolaeth fod pobl sydd mewn gwaith, ar gyfartaledd, yn nodi lefelau uwch o lesiant na phobl sy'n ddi-waith¹⁷². Hefyd, mae bod yn ddi-waith yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ganlyniadau iechyd gwael¹⁷³. Oherwydd hyn, rydym am i fwy o bobl brofi buddiannau gweithio, lle bo hynny'n briodol.
283. Mae angen i ni hefyd sicrhau bod yr arian a gaiff ei wario gennym ar fudd-daliadau yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Yn 2019/20, gwnaethom wario dros £30bn ar fudd-daliadau iechyd ac anabledd i bobl o oedran gweithio er mwyn cefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd¹⁷⁴. Mae'r swm hwn yn cynnwys gwariant ar fudd-daliadau sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth yr Alban. Fel y dangosir yn y siart isod, bydd gwariant ar fudd-daliadau iechyd ac anabledd i bobl o oedran gweithio yn cynyddu o £31bn i £40bn, sef cynnydd o 20% mewn termau real, erbyn 2025/26¹⁷⁵.

Gwariant ar Fudd-daliadau Iechyd ac Anabledd i Bobl o Oedran Gweithio

£biliwn

Termau real, prisiau 2021/22



284. O roi'r graff mewn testun plaen: wedi'i addasu'n unol â phrisiau 2020/21 mewn termau real, y gwariant cyfunol ar fudd-daliadau disodli incwm a budd-daliadau costau ychwanegol yn 1980/81 oedd tua £8 biliwn – £0.5 biliwn ar fudd-daliadau costau ychwanegol a £7.5 biliwn ar fudd-daliadau disodli incwm. Mae'r ddau ffigur wedi cynyddu'n raddol i gyfanswm o £31 biliwn erbyn 2020/21 – £13 biliwn ar fudd-daliadau costau ychwanegol a £18 biliwn ar fudd-daliadau disodli incwm. Rhagwelir y bydd y ddau ffigur yn parhau i gynyddu, gan gyrraedd cyfanswm o £40 biliwn erbyn 2025/26 – £19 biliwn ar fudd-daliadau costau ychwanegol a £21 biliwn ar fudd-daliadau disodli incwm.
285. Disgwylir i £5 biliwn o'r cynnydd mewn termau real¹⁷⁶ yn y gwariant a ragwelir gael ei wario ar PIP a DLA. Mae'r £4 biliwn sy'n weddill o'r cynnydd mewn gwariant mewn termau real yn deillio o wariant uwch na'r disgwyl ar ESA a phobl yn hawlio UC a chanddynt gyflwr iechyd¹⁷⁷.
286. Mae gwariant ar fudd-daliadau iechyd ac anabledd yn tyfu am nifer o resymau. Mae nifer y bobl sy'n rhoi gwybod bod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd wedi cynyddu^{178, 179}. Mae gwelliannau cyffredinol mewn gofal iechyd yn golygu bod diagnosis a thriniaethau ar gyfer cyflyrau iechyd wedi gwella ac wedi arwain at fyw llai o flynyddoedd ag anabledd ar bob oedran o gymharu ag 1990¹⁸⁰. Fodd bynnag, mae nifer y bobl hyn o oedran gweithio wedi cynyddu ac, yn nodweddiadol, bydd iechyd pobl yn dirywio wrth iddynt heneiddio. Mae hyn yn golygu y gallwn ddisgwyl gweld mwy o bobl o oedran gweithio sy'n anabl neu sydd â chyflwr iechyd. Bydd y gallu i gael triniaeth yn parhau i fod yn allweddol er mwyn gwella iechyd pobl a helpu i reoli effaith cyflwr iechyd.
287. Fodd bynnag, nid yw newidiadau yn oedran a maint y boblogaeth o oedran gweithio yn esbonio'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd yn llawn. Mae'n debygol bod llawer o ffactorau'n gyfrifol am hyn, gan gynnwys y cynnydd yn y gyfran o bobl sy'n

dweud bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl^{181, 182}. Ar hyn o bryd, cyflwr iechyd meddwl yw prif gyflwr tua hanner y bobl sy'n cael budd-daliadau iechyd ac anabledd i bobl o oedran gweithio. Ar gyfer pobl sy'n cael PIP neu DLA, mae cyfran y bobl sy'n nodi mai anhwylder meddwl ac ymddygiad yw eu prif gyflwr wedi cynyddu o 25% yn 2002 i 41% yn 2020¹⁸³. Hefyd, dengys tystiolaeth fod cysylltiad agos rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Mae gan tua 30% o bobl â chyflwr iechyd corfforol hirdymor gyflwr iechyd meddwl hefyd¹⁸⁴.


288. Mae newidiadau ehangach i'r system budd-daliadau wedi cyfrannu at y cynnydd mewn gwariant. Mae newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn golygu bod pobl a fyddai wedi hawlio budd-daliadau i bobl o oedran pensiwn o'r blaen bellach yn hawlio budd-daliadau i bobl o oedran gweithio. Yn achos PIP, gall pobl barhau i dderbyn y budd-dal hwn y tu hwnt i oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r newidiadau hyn yn awgrymu y bydd y system budd-daliadau'n wynebu mwy o alw gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn y dyfodol.
289. Mae angen i ni sicrhau y caiff pobl eu helpu i fyw bywydau annibynnol, gan ddechrau gweithio a symud ymlaen mewn gwaith lle bo modd. Mae sicrhau bod y system budd-daliadau yn galluogi hyn mewn ffordd effeithiol a fforddiadwy yn hollbwysig o ystyried maint yr her, nawr ac yn y dyfodol. Hefyd, mae angen i'r system budd-daliadau addasu i newidiadau yn anghenion pobl anabl, er enghraifft drwy ymateb i'r cynnydd yn nifer y bobl â chyflwr iechyd meddwl. Gwyddom hefyd y bydd angen i rai pobl gael cymorth sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y gall yr Adran hon ei ddarparu, megis cymorth gan wasanaethau iechyd.

Cymharu ein Budd-daliadau Iechyd ac Anabledd â'r Rhai a Geir Mewn Gwledydd Eraill

290. Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried sut mae gwledydd eraill yn cefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd drwy'r system budd-daliadau. Ceir astudiaethau achos rhyngwladol yn Atodiad C. Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos yr amrywiaeth o ddulliau sy'n cael eu defnyddio ledled y byd. Rydym wedi eu cynnwys er mwyn annog ffyrdd o feddwl y tu hwnt i'n system budd-daliadau bresennol.
291. Ym mhob un o'r astudiaethau achos hyn, mae'n bwysig cofio nad oes mo'r fath beth â system 'berffaith'. Mae gwledydd eraill yn wynebu llawer o'r un heriau â ni ac mae dulliau gwahanol yn cyflwyno eu heriau eu hunain.
292. Mae'r gwledydd rydym wedi edrych arnynt yn amrywio'n fawr o ran yr asesiadau a gynhelir ganddynt i weld pwy sydd â hawl i gael budd-daliadau, a'r ffordd y caiff y budd-daliadau hyn eu talu. Hefyd, mae gan bob gwlad system wahanol sydd â blaenoriaethau gwahanol o ran sut i gynnig cymorth. Er enghraifft, mae llawer o wledydd yn defnyddio systemau sy'n seiliedig ar yswiriant. Yn y gwledydd hyn, bydd angen i bobl dalu cyfraniadau i mewn i'r system er mwyn gallu cael cymorth pan fydd ei angen arnynt. Mae hyn yn rhoi mwy o ffocws ar wobrwyo cyfraniadau yn y gorffennol, a gallai olygu y bydd pobl nad ydynt wedi 'talw i mewn' yn cael llai o gymorth. Mewn cyferbyniad â hynny, ym Mhrydain Fawr yn 2019/20, dim ond 16% o gyfanswm yr arian a wariwyd ar fudd-daliadau iechyd ac anabledd i bobl o oedran gweithio a dalwyd drwy fudd-daliadau yn seiliedig ar gyfraniadau¹⁸⁵.

A Ddylem Symleiddio'r System Budd-daliadau?

293. Fel y gwelir yn y diagram isod, mae tua 1.6 miliwn o bobl o oedran gweithio yn hawlio cymorth ar gyfer disodli incwm (pobl sy'n hawlio UC a chanddynt gyflwr iechyd ac ESA) a chostau ychwanegol (drwy PIP ac, i raddau llai, DLA). Mae hyn yn golygu bod tua hanner y bobl hyn yn hawlio'r ddau fath o fudd-dal. Mae cyfran y bobl sy'n hawlio PIP neu DLA sydd hefyd yn hawlio ESA neu'n hawlio UC a chanddynt gyflwr iechyd wedi cynyddu ers 2013¹⁸⁶.



294. O roi'r diagram sy'n dangos nifer y bobl o oedran gweithio sy'n hawlio ESA/UC a chanddynt gyflwr iechyd yn unig, PIP/DLA yn unig a'r rhai sy'n hawlio'r ddau fath o fudd-dal mewn testun plaen: Roedd cyfanswm o 3.5 miliwn o bobl (ym mis Tachwedd 2020) yn derbyn PIP a/neu DLA ac ESA, neu'n derbyn UC a chanddynt gyflwr iechyd. O'r rhain, mae miliwn o bobl yn cael ESA neu'n cael UC a chanddynt gyflwr iechyd yn unig, mae 0.9 miliwn yn cael PIP neu DLA yn unig ac mae 1.6 miliwn yn cael PIP neu DLA ac ESA a chanddynt gyflwr iechyd. Mae hyn hefyd yn golygu bod 2.6 miliwn o bobl yn cael ESA neu UC a chanddynt gyflwr iechyd a bod 2.5 miliwn o bobl yn cael PIP neu DLA.
295. Ar hyn o bryd, bydd pobl sy'n cael PIP a hefyd yn hawlio naill ai ESA neu UC a chanddynt gyflwr iechyd yn mynd drwy ddwy broses gwneud cais ac asesu ar wahân. Mae hyn yn golygu y bydd pobl weithiau'n teimlo bod gofyn iddynt roi'r un wybodaeth ddwywaith. Hefyd, nid yw dibenion gwahanol y budd-daliadau ar wahân bob amser yn glir i bobl sy'n eu hawlio. Mae rhai pobl wedi dweud wrthym ei bod yn gallu bod yn ddryslyd ac yn anodd mynd drwy ddwy broses ar wahân, fel y gwelir yn yr astudiaeth achos isod.

Astudiaeth achos: Profiadau o'r system bresennol¹⁸⁷

Mae Teodora yn dioddef o orbryder, iselder difrifol a pharanoia yn dilyn marwolaeth ei phlentyn.

O ganlyniad i hynny, cyflwynodd teulu Teodora hawliad am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP) er mwyn ei helpu i dalu rhai o'r costau ychwanegol y mae'n eu hwynebu. Gwnaethant hefyd gyflwyno hawliad am Gredyd Cynhwysol (UC), gan fod cyflyrau iechyd Teodora'n cyfyngu ar ei gallu i weithio.

Roedd y broses o lenwi'r ffurflenni yn peri llawer iawn o ofid i bartner Teodora oherwydd y golled roeddent wedi'i dioddef, ac roedd yn teimlo ei fod yn ailadrodd ei hun ar y ddwy ffurflen. Roedd y broses yn peri gofid i Teodora hefyd am fod rhaid iddi fynd i gael dau asesiad wyneb yn wyneb.

296. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, dywedodd pobl wrthym fod angen symleiddio'r broses gwneud cais ac asesu. Roedd rhai pobl o'r farn y byddai cael un budd-dal iechyd ac anabledd yn helpu i gyflawni hyn. Roedd pobl eraill yn pryderu y byddai eu holl gymorth ariannol yn dibynnu ar ganlyniad un asesiad.

297. Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, rydym wedi ystyried defnyddio un asesiad ar gyfer y ddau fath o fudd-dal. Mae hyn wedi dangos na fyddai'n fuddiol cyflwyno asesiad unigol i'r system bresennol¹⁸⁸. Mae'r budd-daliadau wedi cael eu dylunio ar wahân ac mae'r naill asesiad a'r llall yn ystyried meini prawf gwahanol. Fodd bynnag, yn y dyfodol, gallem ystyried creu budd-dal unigol newydd. Gallai'r budd-dal hwn roi cymorth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd sydd ar incwm isel ac sy'n wynebu costau ychwanegol. Fel arall, gallai fod gan fudd-dal newydd flaenoriaethau gwahanol neu amcanion gwahanol i'n system bresennol. Gellid rhoi mwy o ffocws ar helpu pobl i dalu eu costau ychwanegol, neu ar helpu pobl i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith. Mae gwledydd gwahanol yn blaenoriaethu'r nodau hyn yn wahanol.
298. Er enghraifft, gwyddom fod system budd-daliadau'r Swistir yn rhoi llai o gymorth ar gyfer y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd. Hefyd, mae'n rhoi mwy o ffocws ar helpu pobl ar incymau isel i ailddechrau gweithio. Mae'n gwneud hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys addasiadau i'r gweithle, cyrsiau hyfforddi a chymorth ariannol (gweler astudiaeth achos 1 yn Atodiad C).
299. Pe baem yn cyflwyno budd-dal unigol newydd, yn dibynnu ar y ffordd y byddai'n cael ei ddylunio a'i amcanion, gallai fod yn bosibl defnyddio asesiad unigol. Fel arall, efallai y gallem symleiddio mynediad at y budd-dal newydd hwn mewn rhyw ffordd arall.

Cwestiwn ymgynghori:

- Sut y gallem symleiddio'r system i bobl sy'n gwneud cais am fwy nag un budd-dal iechyd ac anabledd?

Sut y Gallwn Helpu Pobl yn Well i Ddechrau Gweithio ac Addasu i Newidiadau?

300. Mae'r system budd-daliadau iechyd ac anabledd bresennol yn darparu lefelau gwahanol o gymorth ariannol yn dibynnu ar effaith cyflwr iechyd unigolyn. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y bennod hon, ar gyfer ESA ac UC, caiff hyn ei asesu gan ddefnyddio'r WCA. Mae pobl y penderfynir bod ganddynt LCWRA ar gyfer UC neu a gaiff eu rhoi yn y Grŵp Cymorth ar gyfer ESA yn gymwys i gael dyfarniad budd-dal ychwanegol ac nid yw'n ofynnol iddynt chwilio am waith na pharatoi ar gyfer gwaith. Nid yw pobl y penderfynir bod ganddynt LCW ar gyfer UC neu a roddir yn yr WRAG ar gyfer ESA yn cael unrhyw fudd-dal ychwanegol o gymharu â phobl sy'n gwneud cais heb fod ganddynt gyflwr iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i bobl y penderfynir bod ganddynt LCA neu a roddir yn yr WRAG chwilio am waith nawr, ond bydd angen iddynt gymryd camau i baratoi ar gyfer gwaith.
301. Ar gyfer PIP, mae'r asesiad yn ystyried sut mae cyflwr iechyd unigolyn yn effeithio ar ei allu i gyflawni tasgau beunyddiol penodol. Gwneir hyn er mwyn pennu'r lefel o gymorth ariannol a gaiff unigolyn er mwyn helpu i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Ceir wyth canlyniad posibl ar gyfer talu dyfarniadau PIP sydd â'r nod o gyfrannu at dalu costau ychwanegol. Caiff y rhain eu talu mewn symiau penodedig ac ar ffurf taliadau rheolaidd drwy gydol y dyfarniad.
302. Nod y gwahanol lefelau hyn o daliadau yw sicrhau bod cymorth ariannol yn canolbwyntio ar y bobl sydd â'r angen mwyaf amdano. Fodd bynnag, gall olygu bod pobl yn pryderu y bydd lefel eu budd-dal yn newid ar ôl asesiad. Er enghraifft, gallai swm y budd-dal a delir i unigolyn sy'n hawlio UC gael ei leihau £343 y mis os byddwn yn gweld nad yw'r unigolyn yn gymwys i gael y cymorth ychwanegol a geir drwy fod ag LCWRA mwyach. Bydd y newid hwn mewn amgylchiadau ariannol hefyd yn digwydd pan fydd pobl yn symud rhwng cyfraddau o fewn PIP.
303. Yn Ffrainc (gweler astudiaeth achos 2 yn Atodiad C), defnyddir 'cyfnodau gras' i fynd i'r afael â hyn. Caiff y cyfnodau hyn eu defnyddio pan fydd hawl unigolyn i fudd-daliadau yn newid, ac maent yn rhoi amser i bobl addasu a pharatoi ar gyfer gwaith os bydd angen. Yn ystod cyfnod

gras, bydd pobl yn parhau i dderbyn budd-daliadau ar yr hen gyfraddau er mwyn ei gwneud hi'n haws iddynt addasu.

304. Pan fydd pobl yn cael budd-daliadau oherwydd eu gallu cyfyngedig i weithio, gwyddom y byddant yn annhebygol iawn o roi'r gorau i gael y budd-dal a dechrau gweithio. Mae data ESA yn dangos mai dim ond 1-2% o'r bobl yn yr WRAG a llai nag 1% o'r bobl yn y Grŵp Cymorth sy'n rhoi'r gorau i gael y budd-dal bob mis¹⁸⁹.
305. Rydym am i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd deimlo eu bod yn cael eu cefnogi i baratoi ar gyfer gwaith a dechrau gweithio lle bo modd. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y bennod hon, cynlluniwyd UC gyda'r nod o annog hyn. Caniateir i bawb sy'n cael UC ac ESA, gan gynnwys pobl y penderfynir bod ganddynt LCWRA neu a roddir yn y Grŵp Cymorth, wneud rhywfaint o waith gan barhau i gael budd-dal. Gall unigolyn sy'n cael ESA weithio hyd at 16 awr neu ennill hyd at £143 (ar ôl treth) yr wythnos cyn colli unrhyw ran o'i fudd-dal. Nid oes cyfyngiad ar oriau gwaith pobl sy'n cael UC o gwbl. Hefyd, rhoddir lwfans gwaith i bobl y penderfynir bod ganddynt LCW neu LCWRA. Yn achos UC, bydd enillion uwchlaw'r terfynau hyn yn cael eu tapro fel y trafodwyd yn gynharach. Mae hyn yn golygu y bydd pobl bob amser yn cadw cyfran o'u budd-daliadau yn ychwanegol at eu henillion wrth wneud gwaith am dâl.
306. Fel y trafodwyd o'r blaen, awgryma ein gwaith ymchwil fod rhai pobl sydd ag LCWRA neu sydd yn y Grŵp Cymorth yn poeni y gallai dechrau gweithio gael effaith sylweddol ar eu sefyllfa ariannol neu olygu bod rhaid ailgynnal asesiad. Mae pobl hefyd yn pryderu am eu gallu i gael budd-daliadau eto yn gyflym os na fyddant yn aros yn y swydd¹⁹⁰.
307. Lle y gall pobl weithio o bosibl, hoffem eu hannog i wneud hynny. Rydym am ystyried a oes ffyrdd gwell o anelu cymorth ariannol at bobl sydd â'r anghenion mwyaf fel na fydd pobl yn cael eu hanghymell rhag rhoi cynnig ar waith.

Cwestiynau ymgynghori:

- Mae gan UC lawer o nodweddion, megis y lwfans gwaith a'r trefniadau tapro, sydd â'r nod o'i gwneud hi'n haws i bobl ddechrau gweithio. Sut y gallwn sicrhau bod pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn ymwybodol o'r nodweddion hyn, ac annog pobl i roi cynnig ar waith wrth gael UC?
- Sut y gellid newid strwythur presennol budd-daliadau er mwyn goresgyn pryderon ariannol pobl ynglŷn â pharatoi ar gyfer gwaith?
- Sut y gellid gwella strwythur presennol budd-daliadau fel y gall pobl reoli newidiadau yn eu hawl i fudd-daliadau yn well?

Sut y Gallwn Helpu Pobl i Dalu eu Costau Ychwanegol yn Fwy Effeithiol?

308. Nod PIP yw rhoi cyfraniad ariannol tuag at dalu'r costau ychwanegol y gall pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd fynd iddynt. Mae'r asesiad yn ystyried gallu unigolyn i ymdopi ag amrywiaeth o weithgareddau beunyddiol. Mae PIP yn ystyried dau gategori, neu ddwy elfen. Yr elfen gyntaf yw byw o ddydd i ddydd, sy'n cynnwys gweithgareddau megis paratoi bwyd ac ymolchi a chael bath. Yr ail yw symudedd, sy'n cynnwys cynllunio a gwneud siwrneiau a symud o gwmpas. Caiff dyfarniadau eu pennu yn seiliedig ar nifer y pwyntiau a gaiff eu sgorio am bob gweithgaredd. Caiff dyfarniadau PIP eu talu mewn symiau penodedig ac ar ffurf taliadau rheolaidd drwy gydol hyd y dyfarniad. Mae pobl yn rhydd i wario eu dyfarniad PIP heb ddim cyfyngiadau.

309. Mae gwledydd eraill yn helpu pobl i dalu costau ychwanegol mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, mae Seland Newydd (gweler astudiaeth achos 3 yn Atodiad C) yn edrych yn fanylach ar y costau gwirioneddol yr eir iddynt ac yn helpu pobl drwy roi'r union symiau o gymorth ariannol sydd eu hangen i dalu'r costau hyn. Mae gwledydd eraill, fel Awstralia (gweler astudiaeth achos 4 yn Atodiad C), yn defnyddio asesiad mwy cyfannol sy'n ystyried anghenion ehangach pob unigolyn ac yn ystyried pa gymorth ehangach a allai helpu pobl i gyflawni eu nodau.
310. Rydym am ystyried sut y gall y system budd-daliadau helpu pobl i fyw bywydau annibynnol yn well. Gallai hyn fod drwy wella ymwybyddiaeth o gymhorthion, cyfarpar a gwasanaethau a/neu'r gallu i'w cael. Gallai hyn helpu i wella iechyd pobl neu wella eu gallu i reoli effaith anabledd neu gyflwr iechyd. O ystyried y cynnydd yng ngwariant y Llywodraeth ar fudd-daliadau iechyd ac anabledd, mae'n bwysig ein bod yn gwneud hyn mewn ffordd effeithlon sydd wedi'i thargedu.
311. Ar hyn o bryd, cynllun Motability, a gynhelir gan yr elusen annibynnol Motability, yw'r unig opsiwn lle mae'r Llywodraeth yn caniatáu i bobl anabl ddefnyddio rhywfaint o'u budd-daliad i gael nwyddau neu wasanaeth. Mae hyn yn galluogi pobl sy'n cael cyfradd uwch elfen symudedd PIP i gyfnewid yr holl fudd-dal neu ran ohono i logi cerbyd drwy gynllun annibynnol Motability.
312. Gallem ystyried ei gwneud hi'n haws i bobl gael cymhorthion, cyfarpar a gwasanaethau drwy ganiatáu i bobl gyfnewid eu budd-dal cyfan, neu ran ohono, am y rhain o'u gwirfodd. Gallai hyn greu gwasanaeth sydd wedi'i bersonoli'n fwy na phan gaiff budd-daliadau eu talu fel cymorth ariannol yn unig.
313. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, dywedodd pobl wrthym y dylai cyfnewid budd-dal am nwyddau neu wasanaethau fod yn ddewisol bob amser. Y rheswm dros hyn yw am fod budd-dal yn caniatáu i bobl ddewis sut i ddiwallu eu hanghenion penodol.
314. Mae rhai pethau allweddol i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid symud i system sy'n cynnig cymorth ymarferol. Ym Mhennod 1, clywsom y gall y system fod yn gymhleth ac yn ddryslyd i bobl anabl. Gallai cynnig mwy o opsiynau wneud y system yn fwy cymhleth, yn enwedig os caiff cymorth ymarferol ei gynnig gan awdurdodau lleol neu'r GIG hefyd. Mae'n bosibl mai dim ond os bydd gan lawer o bobl anabl ddiddordeb mewn mathau tebyg o gymorth y bydd modd cyflawni hyn. Pe bai'r rhan fwyaf o bobl yn parhau i ddewis taliad ariannol, efallai na fyddai modd i ni gynnig cymorth ymarferol mewn ffordd gosteifeithiol.

Cwestiynau ymgynghori:

- Gan barhau i sicrhau mai'r bobl sydd â'r angen mwyaf amdano sy'n cael cymorth ariannol yn bennaf, sut y gallem helpu pobl anabl yn fwy effeithiol i dalu eu costau ychwanegol a byw'n annibynnol?
- A ddylem ystyried opsiynau i'w gwneud hi'n haws i bobl anabl gael cymorth ymarferol megis cymhorthion, cyfarpar neu wasanaethau, a pham?
- Pa fathau penodol o gymorth ymarferol y dylem helpu pobl anabl i'w cael?

Crynodeb

315. Yn y bennod hon, rydym wedi gofyn am eich barn ar y ffordd y dylai budd-daliadau iechyd ac anabledd gael eu darparu yn y dyfodol. Mae hyn yn adeiladu ar ddadansoddiad cadarn o ystadegau a gwaith ymchwil mewn perthynas â budd-daliadau iechyd ac anabledd yn ogystal â sgysiau rydym wedi bod yn eu cael â phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd.
316. Byddwn yn ystyried effaith unrhyw newidiadau posibl i'r system budd-daliadau ar y budd-daliadau eraill a'r mathau eraill o gymorth a roddir gennym i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Er enghraifft, gallai newidiadau i PIP, UC neu ESA effeithio ar fudd-daliadau megis Lwfans Gofalwr

a Lwfans Gweini. Byddwn yn ystyried unrhyw newidiadau a wnawn mewn ffordd gyfannol er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

317. Rydym yn ymrwymedig i wneud unrhyw newidiadau ar y cyd, gan weithio gyda'r bobl sy'n derbyn ein budd-daliadau ac yn dibynnu arnynt, a gwrando ar y bobl hynny. Caiff ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu defnyddio i lywio dyfodol y budd-daliadau a gaiff eu hawlio gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.

Casgliad

318. Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i drawsnewid bywydau pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Dyma pam rydym yn cyhoeddi'r Strategaeth Anabledd Genedlaethol, er mwyn cymryd camau ym mhob rhan o'r llywodraeth a chymdeithas i fynd i'r afael â heriau sy'n cyfyngu ar gyfleoedd pobl. Mae'r Papur Gwyrdd yn rhan o'r cynllun ehangach hwn i drawsnewid rhagolygon pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Wth i ni ailgodi'n gryfach o bandemig y coronafeirws, mae'n bwysicach nag erioed bod y system budd-daliadau'n cefnogi pobl pan fydd angen hynny arnynt fwyaf. Drwy ymgynghori ar gynlluniau uchelgeisiol y Llywodraeth ar gyfer newid, mae'r Papur Gwyrdd hwn wedi ceisio dechrau sgwrs sy'n canolbwyntio ar bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.
319. Gwyddom fod llawer o bobl yn fodlon ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu¹⁹¹ ond rydym am wneud mwy. Rydym wedi gofyn am eich barn ar sut i wella cymorth iechyd ac anabledd i bobl o oedran gweithio. Drwy'r digwyddiadau Papur Gwyrdd, rydym wedi casglu gwybodaeth werthfawr. Mae hyn wedi ein galluogi i nodi sut y credwn y dylai'r system budd-daliadau wneud y canlynol: galluogi pobl i fyw'n annibynnol; gwella canlyniadau cyflogaeth a gwella profiad pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.
320. Yn y digwyddiadau Papur Gwyrdd, clywsom fod pobl yn ei chael hi'n anodd rhyngweithio â ni weithiau. Gall pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd deimlo'n ofnus ynglŷn â'r system budd-daliadau, ac nid ydynt bob amser yn ymddiried mewn asesiadau iechyd na'r penderfyniadau sy'n deillio ohonynt ac, o ganlyniad i hynny, gallant fod yn anfodlon derbyn cymorth cyflogaeth a gaiff ei gynnig iddynt a theimlo'n bryderus ynglŷn â dechrau gweithio. Rydym wedi nodi'r hyn rydym am ei wneud er mwyn gwneud gwelliannau yn y dyfodol ac wedi gofyn am awgrymiadau ynglŷn â'r newidiadau y dylem eu gwneud.
- Rydym wedi ystyried beth yn rhagor y gallwn ei wneud i roi'r cymorth cywir er mwyn helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i ganfod eu ffordd drwy'r system budd-daliadau.
 - Rydym wedi amlinellu sut yr hoffem barhau i wella cymorth cyflogaeth ac annog mwy o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i fanteisio ar y cymorth hwn.
 - Gwyddom y bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael profiad cadarnhaol gyda'r Adran hon. Lle na fydd hynny'n wir, rydym wedi ystyried beth yn rhagor y gallem ei wneud i wella ein gwasanaethau presennol, megis asesiadau a gwneud penderfyniadau.
 - Rydym wedi ystyried a ellid gwneud newidiadau mwy sylfaenol i asesiadau iechyd yn y dyfodol, er mwyn helpu mwy o bobl i ddod o hyd i waith a byw bywydau annibynnol.
 - Yn olaf, er mwyn cyflawni canlyniadau gwell, ac am ein bod am i'r cymorth a roddir gennym fod yn fforddiadwy yn y dyfodol, rydym wedi ystyried newidiadau i strwythur y system budd-daliadau ei hun.

Gweithio gyda Phobl Anabl a Phobl â Chyflyrau Iechyd

321. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau. Gwnaed gwaith ymchwil annibynnol gyda miloedd o bobl sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o elusennau'n rheolaidd. Ar gyfer y Papur Gwyrdd hwn, gwnaethom hefyd gynnal digwyddiadau Papur Gwyrdd er mwyn clywed yn uniongyrchol gan bobl anabl. Cafodd nifer o'r digwyddiadau hyn eu harwain gan elusennau anabledd. Ceir rhagor o fanylion am y digwyddiadau hyn yn Atodiad A.

322. Gwyddom ei bod yn hollbwysig gweithio mewn partneriaeth â'r bobl y mae ein penderfyniadau'n cael effaith uniongyrchol arnynt er mwyn sicrhau canlyniadau gwell. Rydym am gynnwys mwy o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd wrth lywio ein ffordd o weithio. Byddwn yn parhau i wrando er mwyn gwella ein ffordd o weithio yn y dyfodol, fel y gallwn barhau i wneud newidiadau a fydd yn gwella bywydau pobl.

Crynodeb o'r Cwestiynau Ymgynghori

Pennod 1: Rhoi'r Cymorth Cywir

- Beth yn rhagor y gallem ei wneud i wella addasiadau rhesymol er mwyn gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n hygyrch i bobl anabl?
- Pa wybodaeth, cyngor neu brosesau cyfeirio ychwanegol sydd eu hangen, a sut y dylid darparu hyn?
- Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion rydym wedi'u nodi ar gyfer cymorth eirioli?
- Sut y gallem ganfod pobl a fyddai'n cael budd o eiriolaeth?
- Pa fathau o gymorth y byddai pobl am ei gael, ac yn ei ddisgwyl, drwy eiriolaeth?
- A ydym yn diwallu anghenion symudedd pobl anabl? Esboniwch eich rhesymau.

Pennod 2: Gwella Cymorth Cyflogaeth

- Beth yn rhagor y gallem ei wneud i helpu cyflogwyr ymhellach i wella cyfleoedd gwaith i bobl anabl drwy raglenni Mynediad at Waith a Hyderus o ran Anabledd?
- Sut y gallwn helpu pobl sydd wedi rhoi'r gorau i weithio i ganfod ac ystyried gwaith amgen addas cyn eu Hasesiad Gallu i Weithio?
- Pa wybodaeth neu gymorth pellach a fyddai'n helpu hyfforddwyr gwaith i gael sgysiau mwy effeithiol â phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd?
- Sut brofiad rydych chi wedi'i gael o dderbyn cymorth cyflogaeth? Beth oedd yn dda am y cymorth? A oes gwelliannau pellach y gellir eu gwneud?
- Sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar wybodaeth a phrofiad sefydliadau lleol er mwyn helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i gael gwaith?
- Beth yn rhagor y gallem ei wneud i weithio gyda sefydliadau a gwasanaethau eraill, megis awdurdodau lleol, systemau iechyd a'r gwasanaethau iechyd a gynigir yn y gweinyddiaethau datganoledig, er mwyn darparu a chydgysylltu cymorth cyflogaeth mewn lleoliadau iechyd?
- Beth y gallwn ei gynnig a fyddai'n annog pobl yn y Grŵp Cymorth neu bobl ag LCWRA i fanteisio ar ein cymorth cyflogaeth?
- Fyddech chi'n hapus i gael cymorth cyflogaeth yn ddigidol? Esboniwch eich rhesymau.
- Beth y dylem ei ystyried wrth ddatblygu cynnig cymorth digidol ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd?
- Sut y gallwn helpu pobl anabl ifanc a phobl ifanc â chyflyrau iechyd sy'n gadael byd addysg i ddod o hyd i waith priodol?

Pennod 3: Gwella ein Gwasanaethau Presennol

- Yn ystod pandemig y coronafeirws, gwnaethom gyflwyno asesiadau dros y ffôn a thrwy alwadau fideo fel mesur dros dro. Yn eich barn chi, pa gymysgedd o ddulliau y dylem eu defnyddio i gynnal asesiadau yn y dyfodol?

- Sut y gallem wella asesiadau dros y ffôn a thrwy alwadau fideo, gan wneud yn siŵr eu bod mor gywir â phosibl?
- Beth yn rhagor y gallem ei wneud i ailgynnal llai o asesiadau, lle bo gan rywun gyflwr sy'n annhebygol o newid?
- Gellir newid penderfyniadau ar ôl i apel gael ei chyflwyno ond cyn i'r gwrandawriad tribiwnlys gael ei gynnal. Sut y gallwn wella'r ffordd rydym yn rhannu'r penderfyniad newydd yn y sefyllfa hon?
- Pa newidiadau eraill y gallem eu gwneud i wella'r broses gwneud penderfyniadau?
- Sut y gallem wella'r profiad a gaiff pobl sy'n hawlio DLA i Blant pan gânt eu gwahodd i neud cais am PIP?

Pennod 4: Ailystyried Asesiadau yn y Dyfodol er mwyn Helpu i Sicrhau Canlyniadau Gwell

- A oes unrhyw agwedd ar weithgareddau a disgrifyddion presennol PIP y dylid ei newid? (Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod)
 - Os Oes, pa newidiadau i weithgareddau a disgrifyddion PIP y dylem eu hystyried?
- A oes unrhyw agwedd ar weithgareddau a disgrifyddion presennol y WCA y dylid ei newid? (Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod)
 - Os Oes, pa newidiadau i weithgareddau a disgrifyddion y WCA y dylem eu hystyried?

Wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, dylech ystyried:

- Beth yw'r ffordd orau o gasglu gwybodaeth am effeithiau cyflyrau iechyd sy'n newid neu'n amrywio?
- Sut y gallwn sicrhau bod y gweithgareddau a'r disgrifyddion yn casglu gwybodaeth am effaith yr holl gyflyrau iechyd ac anableddau mewn ffordd deg?
- Sut y gallem symleiddio'r meini prawf asesu, ac,
- A oes gweithgareddau PIP neu WCA nad ydynt yn rhwystr mwyach neu sy'n llai o rwystr rhag byw'n annibynnol neu weithio, oherwydd arferion gwaith modern a datblygiadau ym maes technoleg gynorthwyol?
- A ddylem geisio tystiolaeth gan bobl eraill, megis gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a sefydliadau cymorth?
- Pa fath o dystiolaeth fyddai fwyaf defnyddiol er mwyn gwneud penderfyniadau yn dilyn asesiad WCA neu PIP, ac a ddylai fod ffordd safonol o'i chasglu?
- Sut y gallem sicrhau bod y dystiolaeth a gesglir gennym cyn asesiad WCA neu PIP yn ymwneud yn uniongyrchol â gallu unigolyn i wneud pethau penodol?
- Sut y gallem wella asesiadau neu'r cymorth arbenigol sydd ar gael i aseswyr a swyddogion penderfyniadau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o effaith cyflwr unigolyn ar ei allu i weithio neu byw'n annibynnol?
- Sut y gallwn ei gwneud hi'n haws i bobl roi gwybod i ni os bydd eu cyflwr neu eu hamgylchiadau wedi newid fel y gellir cynnal adolygiad o'u hawl ar yr adeg gywir?
- Beth y gellid ei gynnwys mewn trafodaeth er mwyn datblygu cynllun cymorth cyflogaeth ac iechyd sydd wedi'i bersonoli'n fwy?
- Pa sgiliau a phrofiad a ddylai fod gan y sawl sy'n cynnal trafodaeth cyflogaeth ac iechyd?

Pennod 5: Ystyried Ffyrdd o Wella Dyluniad y system budd-daliadau

- Sut y gallem symleiddio'r system i bobl sy'n gwneud cais am fwy nag un budd-dal iechyd ac anabledd?
- Mae gan Gredyd Cynhwysol (UC) lawer o nodweddion, megis y lwfans gwaith a'r trefniadau tapro, sydd â'r nod o'i gwneud hi'n haws i bobl ddechrau gweithio. Sut y gallwn sicrhau bod pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn ymwybodol o'r nodweddion hyn, ac annog pobl i roi cynnig ar waith wrth gael UC?
- Sut y gellid newid strwythur presennol budd-daliadau er mwyn goresgyn pryderon ariannol pobl ynglŷn â pharatoi ar gyfer gwaith?
- Sut y gellid gwella strwythur presennol budd-daliadau fel y gall pobl reoli newidiadau yn eu hawl i fudd-daliadau yn well?
- Gan barhau i sicrhau mai'r bobl sydd â'r angen mwyaf amdano sy'n cael cymorth ariannol yn bennaf, sut y gallem helpu pobl anabl yn fwy effeithiol i dalu eu costau ychwanegol a byw'n annibynnol?
- A ddylem ystyried opsiynau i'w gwneud hi'n haws i bobl anabl gael cymorth ymarferol megis cymhorthion, cyfarpar neu wasanaethau, a pham?
- Pa fathau penodol o gymorth ymarferol y dylem helpu pobl anabl i'w cael?

Atodiad A: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – Digwyddiadau Papur Gwyrdd

Cefndir

Ar 25 Mehefin 2019, gwnaethom gyhoeddi y byddem yn lansio Papur Gwyrdd er mwyn ystyried ffyrdd o wella cymorth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Dywedodd sefydliadau a chynrychiolwyr pobl anabl wrthym eu bod am gydweithio'n agos â ni i ddatblygu'r Papur Gwyrdd. Gwnaethant hefyd ddweud y dylid annog pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau i rannu eu profiadau a'u blaenoriaethau ar gyfer newid. O ganlyniad i hynny, mae pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, wedi helpu i lywio'r Papur Gwyrdd hwn. Mae'r atodiad hwn yn disgrifio'r ffyrdd yr aeth pobl ati i roi eu barn¹⁹².



Digwyddiadau Wyneb yn Wyneb

Ar 4 Gorffennaf 2019, gwnaethom gynnal digwyddiad yn Llundain gyda chynrychiolwyr elusennau, sefydliadau i bobl anabl, cymdeithasau, melinau trafod ac academyddion, er mwyn dechrau'r sgwrs am y themâu y dylai'r Papur Gwyrdd hwn ymdrin â nhw.

Hydref 2019 – Mawrth 2020: Clywsom gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd ym Mryste, Leeds, Milton Keynes, Birmingham, Whitehaven, Pontypridd a Wisbech.

Rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020, gwnaethom drefnu cyfres o saith digwyddiad wyneb yn wyneb er mwyn cynnal sgysiau rhwng staff yr Adran Gwaith a Phensiynau, pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, eu cynrychiolwyr a gweithwyr elusennol o amrywiaeth o sefydliadau lleol a chenedlaethol.

Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn mewn amrywiaeth o leoliadau fel y gwelir yn y map uchod. Siaradodd pobl o brofiad (naill ai profiad o ddefnyddio ein gwasanaethau neu brofiad o helpu eraill i'w defnyddio) er mwyn nodi'r hyn a wnaethom yn dda a gwneud awgrymiadau ynglŷn â'r hyn y gallem ei wella.

Trefnwyd y digwyddiadau mewn ffordd a oedd yn sicrhau bod pawb yn gyfforddus ac yn cael cyfle i rannu eu barn a'u syniadau. Siaradodd pobl am eu profiadau o ryngweithio â ni, o'r broses gwneud cais i'r asesiad a'r cymorth parhaus. Wedyn, gwnaethom ofyn i bobl drafod y materion hyn mewn grwpiau, er mwyn nodi profiadau cyffredin a thynnu sylw at y da a'r drwg. Yn olaf, gwnaethom annog pobl i ganolbwyntio ar agweddau gorau a gwaethaf y profiadau cyffredin hynny a'u datblygu'n syniadau ar gyfer gwella. Roedd gan bobl lawer o syniadau, yn fawr ac yn fach.

Ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019, gwnaethom hefyd gynnal tri gweithdy yn Llundain a Birmingham. Yn bresennol yn y rhain roedd ein staff sy'n gweithio gyda phobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Yn y digwyddiadau hyn, clywsom am y problemau sy'n effeithio ar eu gwaith. Roedd hyn yn gyfle i ni wneud yn siŵr bod profiadau ein staff yn cael eu hadlewyrchu yn y Papur Gwyrdd.

Digwyddiadau Rhithwir

O ganlyniad i bandemig y coronafeirws a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020, nid oedd yn ddiogel cynnal rhagor o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb. Gwnaethom barhau i glywed gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd mewn cyfres o ddigwyddiadau rhithwir a arweiniwyd gan y Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith.

Ym mis Medi 2020, gwnaethom gynnal dau ddigwyddiad i staff elusennau sy'n gweithio yn Llundain a'r Alban. Gwnaethom hefyd gynnal 13 o ddigwyddiadau rhithwir a arweiniwyd gan yr elusennau canlynol. Trefnodd yr elusennau hyn i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn a rhannu eu profiadau â ni:

- Scope, 21 Gorffennaf 2020;
- Cymdeithas MS, 30 Medi 2020;
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB), 12 Hydref 2020;
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol i Bobl Fyddar (RNID), 13 Hydref 2020;
- Mind, 14 Hydref 2020;
- Macmillan, 20 Hydref 2020;
- Mencap, 21 Hydref 2020;
- Cyngor ar Bopeth, 3 Tachwedd 2020;
- Ambitious About Autism, 16 Tachwedd 2020;
- Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor (MNDA), 17 Tachwedd 2020;
- Sense, 14 Ionawr 2021;
- Marie Curie, 3 Mawrth 2021;
- Headway, 24 Mawrth 2021.

Gwnaethom weithio gyda'r elusennau hyn i greu digwyddiadau a oedd yn gwbl hygyrch i'r bobl a oedd yn bresennol. Ymhlith y prif bynciau a drafodwyd roedd canfod eich ffordd drwy'r system budd-daliadau, asesiadau a chymorth cyflogaeth. Gofynnodd rhai elusennau am i'r digwyddiadau gynnwys adrannau arbennig ar bynciau eraill megis ein hymateb i bandemig y coronafeirws a gwelliannau i raglen Mynediad at Waith.

Gwnaeth sawl un o'r digwyddiadau hyn ddod â phobl ynghyd sydd â'r un cyflwr iechyd neu anabledd. Bu hyn yn help i ni ddeall yr ystod lawn o brofiadau y bydd pobl yn eu cael o'r system budd-daliadau, a sut y gallem wella'r system er mwyn diwallu anghenion penodol pobl yn well.

Roedd rhwng 5 a 15 o bobl anabl yn bresennol ym mhob un o'r digwyddiadau hyn. Rhoddodd hyn fwy o amser i bobl esbonio eu profiadau yn llawn. Pan oedd pobl yn awyddus i roi adborth ond yn methu â bod yn bresennol, gwnaethom ofyn iddynt rannu eu safbwyntiau â ni yn ysgrifenedig, ac aethom ati wedyn i'w dwyn ynghyd â'r adborth a gafwyd o'r digwyddiad.

Ar 20 Gorffennaf 2020, gwnaethom drafod y Papur Gwyrdd â'r Consortiwm Elusennau Anabledd (DCC), sy'n dod â chynrychiolwyr ynghyd o sefydliadau anabledd cenedlaethol mwyaf y DU.

Ar 1 Rhagfyr 2020, gwnaethom gynnal digwyddiad gydag Anthony Mangnall AS, a drefnodd i gynrychiolwyr o elusennau a sefydliadau sy'n gweithredu yn ei etholaeth yn Totness i fod yn bresennol a rhannu eu barn. Ym mis Chwefror 2021, ysgrifennodd y Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith at bob Aelod Seneddol i gynnig cyfle iddynt drefnu digwyddiadau tebyg ar gyfer eu hetholwyr. Rydym wedi cynnal 14 o ddigwyddiadau i gyd, ac yn bwriadu cynnal naw arall.

Ar 8 Rhagfyr 2020, gwnaethom gynnal digwyddiad gyda chynrychiolwyr darparwyr asesiadau iechyd. Diben y digwyddiad hwn oedd clywed barn darparwyr ar ffyrdd o wella asesiadau ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.

Ym mis Ionawr 2021, gwnaethom hefyd gynnal tri digwyddiad rhithwir arall gyda'r aelodau o'n staff sy'n gweithio'n agos gyda phobl anabl fel rhan o'u rôl. Gwnaeth y digwyddiadau hyn ein helpu i ddeall yn well ble y gallem wneud gwelliannau a fyddai'n cefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn well.

Rhwydwaith Rhanddeiliaid Rhanbarthol

Mae'r Rhwydwaith Rhanddeiliaid Rhanbarthol yn cynnwys 225 o bobl anabl, y sefydliadau sy'n eu cefnogi, eu rhieni a'u gofalwyr. Caiff y rhain eu grwpio ym mhob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr a'u harwain gan gadeiryddion rhanbarthol. Mae'r rhwydwaith hwn yn galluogi pobl i rannu eu barn ar y polisiau a'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Mae hefyd yn ffordd i sefydliadau ledled Lloegr roi eu barn ar flaenoriaethau a pholisïau'r Llywodraeth sy'n effeithio ar bobl anabl. Rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021, gwnaethom gyfarfod â phob un o'r grwpiau rhanbarthol i drafod y Papur Gwyrdd a chlywed eu barn ar yr hyn sydd angen newid.

Sut y gwnaethom ddefnyddio adborth o'r digwyddiadau Papur Gwyrdd

Rhoddodd y digwyddiadau Papur Gwyrdd hyn gyfle i ni wrando a chlywed o lygad y ffynnon am yr agweddau hynny ar ein gwasanaethau sy'n peri anhawster i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, a gweithio gyda phobl i ystyried sut y gallwn wella.

Ar ôl y digwyddiadau, aethom ati i fwrw golwg dros yr holl dystiolaeth, gwybodaeth a syniadau, a chrynhofi'r themâu allweddol fel y gellid eu hystyried yn y Papur Gwyrdd. Gwnaethom hefyd rannu'r wybodaeth â staff sy'n gweithio ym mhob rhan o'r Adran er mwyn sicrhau y gellid ystyried y wybodaeth a gasglwyd wrth wneud newidiadau ehangach i'n gwasanaethau.

Atodiad B: Ein Rhaglenni Cymorth Cyflogaeth

Rhaglen / menter	Disgrifiad
Rhaglenni Cymorth Cyflogaeth	
Y Rhaglen Gwaith ac Iechyd (WHP)	Erbyn dechrau 2018, lansiodd WHP ledled Cymru a Lloegr. Erbyn mis Hydref 2022, bydd y rhaglen wedi rhoi cymorth i tua 220,000 o bobl anabl. Mae rhywfaint o'r cymorth hwn wedi'i ddatganoli i'n Partneriaid Llywodraeth Leol yn Llundain a Manceinion. Nod WHP yw defnyddio arbenigedd sefydliadau lleol ac mae'n cynnig hyd at 16 mis o gymorth cyn gwaith sydd wedi'i deilwra yn unol ag anghenion unigolion. Hefyd, mae cymorth mewn gwaith ar gael am hyd at chwe mis, os bydd angen. Daw atgyfeiriadau i ben ym mis Hydref 2022, a bydd opsiwn i ymestyn am hyd at ddwy flynedd. Rydym yn ystyried beth yw'r ffordd orau o adeiladu ar y rhaglen, gan gynnwys edrych dros dystiolaeth o werthusiad llawn.
Cymorth Cyflogaeth Dwys wedi'i Bersonioli (IPES)	Mae IPES yn darparu lefel ychwanegol o gymorth dwys i bobl anabl sy'n wynebu rhwystrau cymhleth rhag gweithio y mae hyfforddwyr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r farn eu bod fwy na 12 mis i ffwrdd o waith. Gellir rhoi cymorth am hyd at 21 mis, gan gynnwys chwe mis o gymorth dwys mewn gwaith. Bydd IPES yn helpu 10,000 o bobl anabl i ddod o hyd i waith dros bedair blynedd. Bydd 25% yn rhagor o leoedd ar gael o dan IPES o fis Gorffennaf 2021 ymlaen er mwyn ateb y cynnydd mewn galw.
Cyflogaeth Leol wedi'i Chynnal (LSE)	Datblygwyd LSE er mwyn profi ffyrdd o weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi pobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu. Rydym yn bwriadu ehangu ein cynnig ar gyfer LSE drwy gynllun arloesi. Bydd hyn yn adeiladu ar gydb berthnasau sydd eisoes yn bodoli â phobl sy'n cael gofal cymdeithasol drwy eu hawdurdod lleol. Bydd yn galluogi grŵp ehangach o bobl nad ydynt yn mynd i ganolfannau gwaith yn rheolaidd i gael cymorth.
Cynllun ar gyfer Swyddi	Er mwyn cefnogi adferiad economaidd y DU yn dilyn pandemig y coronafeirws, mae'r Llywodraeth wedi lansio'r Cynllun ar gyfer Swyddi ¹⁹³ . Ystod o fesurau yw'r cynllun, sydd â'r nod o sicrhau y bydd mwy o bobl yn cael cymorth wedi'i deilwra i ddod o hyd i waith, gan gynnwys pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae'n cynnwys rhaglenni fel Kickstart, Ailgychwyn, Cymorth wedi'i Dargedu i Gael Swydd (JETS), Rhaglen Academiâu Gwaith Seiliedig ar Sectorau a Chymorth i Ddod o Hyd i Swydd (JFS), sydd â lleoedd ar gael i gefnogi pobl anabl.
Lleoliad a Chymorth Unigol (IPS)	Model o gymorth dwys sy'n rhoi pobl mewn gwaith ac yn eu helpu i aros yno yw IPS. Rydym wedi bod yn treialu IPS ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol cyffredin, a phobl sy'n ddibynol ar gyffuriau ac alcohol. Byddwn yn parhau i ariannu IPS yn ein hardaloedd treialu presennol yn ystod 2021/2022, ac yn ehangu IPS ar gyfer pobl sy'n ddibynol ar gyffuriau a/neu alcohol i gynnwys mwy o ardaloedd awdurdodau lleol.
Cyngor ar Gyflogaeth o fewn	Mae gwasanaeth IAPT y GIG yn Lloegr yn darparu therapiâu seicolegol seiliedig ar dystiolaeth i bobl â gorbryder ac iselder. Rydym yn rhoi cyngor ar gyflogaeth o fewn IAPT. Ar hyn o bryd, rydym yn ariannu hyn yn uniongyrchol mewn tua 40%

gwasanaeth Gwella Mynediad at Therapiau Seicolegol (IAPT)	o wasanaethau IAPT ledled Lloegr. Mae therapyddion ac ymgynghorwyr cyflogaeth yn cydweithio i ystyried ffyrdd o wella iechyd meddwl, helpu pobl i barhau i weithio a chael triniaeth ar yr un pryd, dychwelyd i'r gwaith, os byddant i ffwrdd yn sâl, neu ddod o hyd i waith, os byddant allan o waith.
Ymateb i ymgyngoriad Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb	Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei hymateb i ymgynghoriad Mae Iechyd yn Fusnes i Bawb, a oedd yn canolbwyntio ar roi cymorth cynharach a gwell i gyflogwyr a chyflogaion er mwyn helpu mwy o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i aros mewn gwaith.
Gwaith Grŵp	Cwrs hyfforddi arbenigol ar sgiliau chwilio am waith yw Gwaith Grŵp, a'i nod yw helpu pobl i ddychwelyd i waith o safon a diogelu iechyd meddwl a llesiant y bobl dan sylw. Dros gyfnod o wythnos, bydd arweinwyr grwpiau hyfforddedig yn cynnal pum modiwl pedair awr o hyd ar sgiliau swyddi i grŵp o 10 i 20 o bobl. Gwnaethom dreialu'r dull hwn rhwng 2017 a 2018. Mae gwerthusiad o'r treial wedi canfod effeithiau cadarnhaol o ran cyflogaeth ac iechyd i bobl sydd dan fwy o anfantais yn y farchnad lafur, megis pobl â lefelau uwch o orbryder. Bydd llawer o'r effeithiau cadarnhaol hyn yn parhau 12 mis ar ôl y cwrs. ¹⁹⁴
Mynediad at Waith	Yn 2019/20, cyrhaeddodd y cymorth a roddwyd gan gynllun Mynediad at Waith ei lefel uchaf erioed, wrth i fwy na 43,000 o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd gael cymorth hyblyg wedi'i deilwra i'w helpu i wneud eu gwaith. Mae Mynediad at Waith wedi parhau i gefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl â chyflyrau iechyd meddwl. Yn 2019/20, cafodd 8,710 o bobl â chyflyrau iechyd meddwl gymorth gan Mynediad at Waith, sydd ddwywaith yn fwy na nifer y bobl a gafodd gymorth y flwyddyn flaenorol. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ehangu cyrhaeddiad y cynllun, gwella profiad pobl sy'n cael arian a defnyddio'r cynllun i annog arloesedd. Mae Mynediad at Waith yn addasu ei gynnydd ac yn ei wneud yn fwy hyblyg. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno cynnydd hyblyg newydd er mwyn galluogi pobl anabl i weithio o fwy nag un lleoliad ac addasu i drefniadau gweithio newydd. Mae nifer o welliannau wedi cael eu gwneud i wasanaeth Mynediad at Waith, gan gynnwys cyflwyno proses gwneud cais ar-lein sydd ar gael drwy'r dydd bob dydd er mwyn galluogi pobl anabl a chyflogwyr i wneud cais ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw, cyflwyno proses adnewyddu ddigidol ynghyd â gwasanaeth atgoffa drwy neges destun neu e-bost er mwyn sicrhau parhad cymorth, darparu cymorth cyfathrebu cwbl ddigidol ar gam cyfweiliad taith y cwsmer, a diweddarau'r canllawiau i staff Mynediad at Waith gan ymgorffori adborth gan randdeiliaid a defnyddio iaith model cymdeithasol drwyddynt draw. Mae newidiadau hefyd wedi cael eu gwneud i symleiddio taith y cwsmer a lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gwsmeriaid dderbyn taliadau.
Hyderus o ran Anabledd	Mae cynllun Hyderus o ran Anabledd yn parhau i annog cyflogwyr i feddwl yn wahanol am gyflogi pobl anabl. Nod y cynllun yw sicrhau bod cyflogwyr yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i ddenu, recriwtio a chadw pobl anabl yn y gweithle, a'u helpu i symud ymlaen yn eu gyrfa. Ar 30 Ebrill 2021, roedd dros 20,000 o gyflogwyr wedi ymuno â'r cynllun, gan gwmpasu dros 11 miliwn o gyflogaion.

Atodiad C: Astudiaethau Achos Rhyngwladol

Astudiaeth Achos 1: Y Swistir

Mae'n ofynnol i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn y Swistir gyfrannu at gynllun 'Yswiriant Anabledd', gan gynnwys pobl nad ydynt yn gweithio, hyd yn oed. Cyhyd â'i fod wedi gwneud gwerth tair blynedd o gyfraniadau, a'i fod yn bodloni meini prawf cymhwysedd eraill hefyd, mae'n bosibl i unigolyn anabl â chyflwr hirdymor gael pensiwn anabledd. Bydd faint o bensiwn a delir i unigolyn yn dibynnu'n bennaf ar ba mor ddifrifol yw ei anabledd.

Y dewis olaf pan fetho popeth arall yw'r pensiwn anabledd. Yn hytrach na'r pensiwn, rhoddir mwy o ffocws yn y Swistir ar fesurau ymyrryd yn gynnar. Gwneir pob ymdrech i helpu pobl anabl gynnal neu wella eu gallu i weithio a/neu gyflawni tasgau pob dydd. Y nod yw i bobl allu parhau i weithio neu gyflawni tasgau beunyddiol (megis gwaith tŷ) cymaint â phosibl. Ymhlith y mesurau adsefydlu mae pethau fel addasiadau i'r gweithle, cyrsiau hyfforddi a budd-daliadau arian parod dyddiol.

Yn y Swistir, ceir budd-dal arian parod sydd â'r nod o gyfrannu at dalu costau ychwanegol o'r enw 'lwfans diymadferthedd'. Fel PIP, mae wedi'i fwriadu ar gyfer pobl sy'n wynebu costau ychwanegol oherwydd eu hanabledd a chaiff ei fesur yn seiliedig ar eu gallu i gyflawni tasgau beunyddiol penodol heb gymorth, fel gwisgo, codi o'r gwely neu fwyta. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y caiff lwfans diymadferthedd ei dalu, a dim ond i bobl y mae angen cymorth personol neu ofal rheolaidd arnynt i gyflawni'r tasgau beunyddiol hynny. Dim ond 10% o bobl â phensiwn anabledd sy'n cael lwfans diymadferthedd.

Astudiaeth Achos 2: Ffrainc

Mae gwledydd eraill yn helpu pobl i ddechrau gweithio ac aros mewn gwaith mewn ffyrdd gwahanol. Yn Ffrainc, gall pobl sy'n rhan o'r system seiliedig ar gyfraniadau barhau i gael budd-daliadau am chwe mis ar ôl dechrau gweithio, ni waeth faint fo'u henillion. Ar ôl hynny, os na fydd enillion yr unigolyn wedi cyrraedd yr un lefel â'r hyn roedd yn ei ennill cyn rhoi'r gorau i weithio, gall barhau i gael budd-daliadau, yn ychwanegol at ei enillion. Bydd y taliad hwn yn lleihau wrth i'r enillion gynyddu. Dyma enghraifft o'r ffordd y gall systemau budd-daliadau gefnogi pobl wrth i'w hawl i fudd-daliadau newid, gan helpu i wneud y cyfnod pontio rhwng bod yn ddi-waith ac ennill incwm yn un esmwyth.

Astudiaeth Achos 3: Seland Newydd

Nod Lwfans Anabledd Seland Newydd yw helpu pobl i dalu'r costau ychwanegol parhaus sy'n deillio o fod ag anabledd y disgwylir iddo bara o leiaf chwe mis. Yn wahanol i PIP, ni chaiff pobl eu hasesu a chânt eu grwpio yn seiliedig ar eu hanghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd. Penderfynir faint o Lwfans Anabledd a gaiff ei dalu yn seiliedig ar y costau ychwanegol gwirioneddol y bydd yr unigolyn yn eu hwynebu oherwydd ei anabledd. Rhaid i ymarferydd iechyd yr unigolyn gadarnhau bod y costau'n deillio o anabledd yr unigolyn, eu bod yn barhaus ac yn angenrheidiol a'u bod o werth therapiwtig i'r unigolyn. Wedyn, bydd pobl sy'n bodloni'r prawf incwm yn cael taliad wythnosol i dalu'r costau hyn, hyd at uchafswm penodedig (NZ \$66.11 (tua £34) ar 1 Ebrill 2021). Islaw hyn, caiff uchafsymiau'r taliadau eu haddasu'n ôl y costau gwirioneddol y bydd pobl yn eu hwynebu o ganlyniad i'w hanableddau, wedi'u talgrynnu i'r pum sent agosaf. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr arian yn targedu costau penodol pobl.

Astudiaeth achos 4: Awstralia

Ers 2013, mae Awstralia wedi cefnogi pobl anabl gymwys drwy'r Cynllun Yswiriant Anabledd Cenedlaethol (NDIS). Er mwyn sicrhau y bydd pobl gymwys yn cael cymorth wedi'i bersonoli yn seiliedig ar eu hanghenion, bydd cynllun yn cael ei lunio ar gyfer unigolion sy'n rhan o'r cynllun a fydd yn pennu gwerth yr arian y bydd NDIS yn ei ddarparu. Caiff hyn ei benderfynu yn seiliedig ar effaith anabledd yr unigolyn ar ei allu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Gellir defnyddio'r arian a roddir yng nghynllun NDIS yr unigolyn i brynu nwyddau, gwasanaethau a mathau eraill o gymorth mewn perthynas â'i anghenion er mwyn ei helpu i gyflawni ei nodau a'i ddyheadau.

Gall pobl reoli eu harian NDIS mewn tair ffordd:

- Hunanreoli: Lle y bydd pobl yn rheoli'r arian eu hunain ac yn cyflwyno derbynebaw a gafwyd yn uniongyrchol gan ddarparwyr mewn perthynas â'u cynllun NDIS eu hunain;
- Rheolwr cynllun: Lle y bydd darparwyr yn anfon derbynebaw at reolwr cynllun, a ddewiswyd gan yr unigolyn i reoli ei arian. Wedyn, bydd y rheolwr cynllun yn trefnu i'r darparwr gael ei dalu am y gwasanaethau a ddarparwyd i'r unigolyn;
- Asiantaeth reoli: Lle y bydd y darparwr yn hawlio'r taliad drwy borth ar-lein NDIA (Asiantaeth Yswiriant Anabledd Cenedlaethol) pan fydd y cymorth wedi cael ei roi. Bydd NDIA yn talu darparwyr yn uniongyrchol ar ran yr unigolyn.

Bydd NDIS yn rhoi budd-daliadau i tua 500,000 o Awstraliaid ag anableddau parhaol a sylweddol erbyn 2023.

¹ Cyhoeddwyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tabl A08: Statws marchnad anabl pobl anabl, 18 Mai 2021. 2013 i yn aml yn cael ei ddefnyddio fel pwynt cyfeirio ar gyfer data cyflogaeth anabledd gan mai dyma pryd y dechreuodd y diffiniad/cyfres amser ddiweddaraf. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/data/sets/labourmarketstatusofdisabledpeoplea08>

² Yr Adran Gwaith a Phensiynau/Yr Adran Iechyd, Gwella Bywydau: Papur Gwyrdd Gwaith Iechyd ac Anabledd, cyhoeddwyd Hydref 2016. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/564041/welsh-summary-work-and-health-green-paper.pdf

³ Yr Adran Gwaith a Phensiynau/Yr Adran Iechyd, Gwella Bywydau: Dyfodol Gwaith, Iechyd ac Anabledd, cyhoeddwyd Tachwedd 2017. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/664032/improving-lives-the-future-of-work-health-and-disability-welsh.pdf

⁴ Mae iechyd yn fusnes i bawb: Cynigion i leihau nifer y swyddi a gollir o ganlyniad i salwch, cyhoeddwyd Gorffennaf 2019. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/817712/mae-iechyd-yn-fusnes-i-bawb-cynigion-i-leihau-nifer-y-swyddi-a-gollir-o-ganlyniad-i-salwch.pdf

⁵ Rhwng 16 Mawrth a diwedd mis Ebrill 2020 gwnaed mwy nag 1.8 miliwn o geisiadau am Gredyd Cynhwysol, mwy na 250,000 o geisiadau am Lwfans Ceisio Gwaith a mwy nag 20,000 o geisiadau am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Gweler: Datganiad Llafar yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Senedd ar ymateb yr Adran Gwaith a Phensiynau i bandemig y coronafeirws ar 4 Mai 2020. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/speeches/dwps-response-to-coronavirus-covid-19>

⁶ Yn aml, 2013 yw'r flwyddyn a ddefnyddir fel cyfeirbwynt ar gyfer data ar gyflogaeth ymhlith pobl anabl am mai dyma pryd y dechreuodd y diffiniad diweddaraf/y gyfres amser ddiweddaraf. Gweler: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tabl A08: Labour Market Status of Disabled People, cyhoeddwyd 23 Chwefror 2021. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/data/sets/labourmarketstatusofdisabledpeoplea08>

⁷ Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Economic and Fiscal Outlook, cyhoeddwyd Mawrth 2021, tudalennau 140-141. Ar gael yn: <https://obr.uk/efo/economic-and-fiscal-outlook-march-2021/>

⁸ Er mwyn bod yn gymwys i gael ESA Newydd, fel arfer bydd angen i unigolyn fod wedi gweithio a thalu a/neu fod wedi'i gredydu â digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y ddwy neu dair blynedd cyn hawlio. Er mwyn bod yn gymwys i gael ESA yn seiliedig ar incwm, rhaid i incwm a chynilion unigolyn fod islaw lefel benodol.

⁹ Tablau Gwariant a Llwyth Achosion Budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, cyhoeddwyd Mawrth 2021. Caiff pobl sy'n cael taliadau yn seiliedig ar incwm a chyfraniadau eu cyfrif fel pobl sy'n derbyn taliadau yn seiliedig ar gyfraniadau. Hefyd, mae 107,340 o bobl yn derbyn ESA heb gael taliadau (credydau yn unig).

¹⁰ Bydd hyn fel arfer ar ffurf Nodyn Ffitrwydd dilys a roddwyd gan feddyg teulu unigolyn ac a gymeradwywyd gan yr Adran hon.

¹¹ Gweler pecyn tystiolaeth y Papur Gwyrdd

¹² Gweler pecyn tystiolaeth y Papur Gwyrdd.

¹³ Gweler pecyn tystiolaeth y Papur Gwyrdd.

¹⁴ Mae 284,000 o bobl sy'n hawlio PIP dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Ffynhonnell: Tablau Gwariant a Llwyth Achosion Budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, cyhoeddwyd Mawrth 2021.

¹⁵ Mae'n bosibl i anghenion gofal pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor gael eu diwallu'n ffurfiol drwy gymorth a roddir gan eu hawdurdod lleol neu'n fwy anffurfiol drwy ofalwr di-dâl, sef aelod o'r teulu yn aml. Gall y system budd-daliadau roi cymorth a chefnogaeth i ofalwyr di-dâl. Gall hyn fod drwy fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, neu gall fod yn fwy penodol os yw'r oriau o ofal a roddir yn croesi'r trothwy priodol, drwy Lwfans Gofalwr a/neu symiau ychwanegol i ofalwyr mewn Credyd Cynhwysol a

budd-daliadau eraill. Caiff y cymorth hwn ei “sbarduno” os caiff budd-daliadau penodol eu talu i'r sawl sy'n derbyn gofal.

¹⁶ Cafodd y data ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed eu casglu cyn i oedran Pensiwn y Wladwriaeth gynyddu i 66.

¹⁷ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Trosolwg o'r Farchnad Lafur, y DU: Labour Market Status of Disabled People, Tabl A08, cyhoeddwyd 18 Mai 2021. Ar gael yn:
<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/labourmarketstatusofdisabledpeoplea08>

¹⁸ Mae nifer y bobl o oedran gweithio sy'n dweud bod ganddynt anabledd wedi cynyddu o 6.7m yn 2013 i 8.1m yn 2019. Arolwg o'r Llafurlu, Hyd-Rhag 2013 i Hyd-Rhag 2019.

¹⁹ Rhwng 2019 a 2029 disgwylir cynnydd o 2.6 miliwn yng nghyfanswm y bobl o oedran gweithio. Disgwylir cynnydd o 1.8 miliwn yn nifer y bobl o oedran gweithio sy'n 60 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn golygu bod disgwyl i bobl o oedran gweithio dros 60 oed gyfrif am 66% o gyfanswm y cynnydd yn y boblogaeth o oedran gweithio rhwng 2019 a 2029. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r cynnydd yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 65 yn 2019 i 67 erbyn 2028. Ffynhonnell: 2018-based National population projections, GB Principal projection, SYG. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/2014basednationalpopulationprojectionstableofcontents>

²¹ Arolwg Adnoddau Teuluol 2018/19. Ar gael yn:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/874507/family-resources-survey-2018-19.pdf

²² Gweler pecyn tystiolaeth y Papur Gwyrdd.

²³ Mae'r ffigurau hyn yn defnyddio'r alldro diweddaraf, sef 2019/20, yn seiliedig ar dermau real a chyda meincnod 2021/22. Ffynhonnell: Tablau Gwariant a Llwyth Achosion Budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, cyhoeddwyd Mawrth 2021.

²⁴ Yn seiliedig ar Dablau Gwariant a Llwyth Achosion Budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, ac mae'n cynnwys gwariant ar PIP a DLA i bobl o oedran gweithio sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth yr Alban. Gweler pecyn tystiolaeth y Papur Gwyrdd.

²⁵ Tablau Gwariant a Llwyth Achosion Budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, cyhoeddwyd Mawrth 2021.

²⁶ Gweler: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tabl A08: Labour market status of disabled people, cyhoeddwyd 23 Chwefror 2021. Yn aml, 2013 yw'r flwyddyn a ddefnyddir fel cyfeirbwynt ar gyfer data ar gyflogaeth ymhlith pobl anabl am mai dyma pryd y dechreuodd y diffiniad diweddaraf/y gyfres amser ddiweddaraf. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/labourmarketstatusofdisabledpeoplea08>

²⁷ Labour market status of disabled people, cyhoeddwyd 23 Chwefror 2021. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/labourmarketstatusofdisabledpeoplea08>

